# Mae yn ein dwylo ni

**Caerdydd a Bro Morgannwg**

**Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Camdriniaeth Ddomestig a Thrais Rhywiol 2023-2028**



# Partneriaid Statudol

CARDIFF
CAERDYDD

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale University Health Board

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

De Cymru
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
Police and Crime Commissioner
South Wales

SOUTH WALES POLICE
HEDDLU DE CYMRU

BRITISH TRANSPORT POLICE

National Probation Service

GIG CYMRU NHS WALES
Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
Welsh Ambulance Services NHS Trust

GIG CYMRU NHS WALES
Ymddiriedolaeth GIG Felindre
Velindre NHS Trust

ynys saff
safe island

South Wales
Fire and Rescue Service
Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru

GIG CYMRU NHS WALES
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

## Partneriaid y Trydydd Sector

CWA
CARDIFF WOMEN'S AID
CYMORTH I FENYWOD CAERDYDD

Bawso

The Dyn Project
Y Cynllun Dyn

Vale
DOMESTIC ABUSE SERVICES
GWASANAETHAU CAM-DRIN DOMESTIG

safer wales • cymru ddiogelach

New Pathways

Victim Support Cymru
Cymorth i Ddioddefwyr Cymru
Helping people cope with crime
Helpu pobl i ddygymod â throsedd

stori

SMT
Safer Merthyr Tydfil
Merthyr Tudful Mwy Diogel

YMCA
Here for young people
Here for communities
Here for you

pobl

Llamau

Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid

SafeLives
Ending domestic abuse

Respect

## Colegau / Prifysgolion

Cardiff and Vale College
Coleg Caerdydd a'r Fro

CARDIFF UNIVERSITY
PRIFYSGOL CAERDYDD

University of South Wales
Prifysgol De Cymru

St David's
Catholic Sixth Form College
Coleg Catholig Dewi Sant
Dosbarth Chwech

Cardiff Metropolitan University
Prifysgol Metropolitan Caerdydd

ROYAL WELSH COLLEGE OF MUSIC & DRAMA
COLEG BRENHINOL CERDD A DRAMA CYMRU

St John's College
CARDIFF

UWC
ATLANTIC COLLEGE

# Cynnwys


| SECTION | PAGE | SECTION | PAGE |
|---|---|---|---|
| Crynodeb Gweithredol | 5 | Colegau a Phrifysgolion | 41 |
| Crynodeb o Ymrwymiadau | 6 | Plant a Phobl Ifanc – Atal Ymddygiad Niweidiol | 42 |
| **CYFLWYNIAD** | 8 | Camdriniaeth Ar-lein, Misogyniaeth ac Eithafiaeth | 43 |
| Diffiniadau | 8 | Gweithio gyda Chymunedau | 43 |
| Cwmpas | 9 | Arbenigedd a Datblygu'r Gweithlu | 44 |
| Ein Nod | 9 | Mynediad at Hawliau | 45 |
| Partneriaid Rhanbarthol | 10 | Newid Cymdeithas | 46 |
| Dioddefwr neu Oroeswr? | 10 | **AMDDIFFYN** | 47 |
| Beth am Ddynion? | 10 | Rhwymedïau Cyfreithiol | 48 |
| Ein Taith Hyd Yma ... | 11 | Ymatebion Amlasiantaethol i Gamdriniaeth Ddomestig | 49 |
| Polisi a Chyd-destun Deddfwriaethol | 12 | Caledu Targedu | 50 |
| Rhyngadranoldeb | 16 | Oedolion mewn Perygl | 50 |
| Y Model Ecolegol | 16 | Diogelu Plant a Phobl Ifanc | 51 |
| **PARATOI** | 18 | Cam-drin Plant yn Rhywiol | 52 |
| Un Rhanbarth – Dwy Gymuned | 19 | Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl (ADUS) | 53 |
| Trosolwg Rhanbarthol | 20 | VAWDASV yn y Gweithle | 54 |
| Data Rhanbarthol | 21 | Diogelwch Menywod mewn Mannau Cyhoeddus | 55 |
| Cydraddoldeb ac Amrywiaeth | 23 | VAWDASV a Thechnoleg | 57 |
| Gwasanaethau Arbenigol sydd ar gael yn Rhanbarthol | 25 | **CEFNOGI** | 58 |
| Llywodraethiant | 26 | Cefnogaeth i Blant a Phobl Ifanc | 59 |
| Agwedd Gomisiynu Ranbarthol | 27 | Cefnogaeth i Gymunedau Du a Lleiafrifol | 60 |
| Ymgynghori â Goroeswyr | 28 | Byddwn yn Gwneud y Canlynol | 61 |
| Lleisiau Arbenigol | 30 | Cefnogaeth Seiliedig ar Lety | 62 |
| **YMDRIN** | 31 | Camfanteisio Rhywiol | 63 |
| Ymateb Cyfiawnder Troseddol (Camdriniaeth Ddomestig) | 32 | Caethwasiaeth Fodern a Masnachu mewn Pobl | 64 |
| Ymateb Cyfiawnder Troseddol (Trais Rhywiol) | 33 | Canoli ar Drais Rhywiol | 65 |
| Newidiadau Deddfwriaethol a Pholisi | 34 | Ymatebion Iechyd i VAWDASV | 66 |
| Rhaglenni Cymunedol i Droseddwyr | 35 | Ein gwasanaethau | 68 |
| Dal Troseddwyr i Gyfrif – Ffurfiau Eraill ar VAWDASV | 37 | Geirfa | 69 |
| **ATAL** | 38 | Dyddiadau Allweddol i'ch Dyddiadur | 69 |
| Plant a Phobl Ifanc | 39 | Cyfeiriadau | 70 |

# Crynodeb Gweithredol

Mae trais yn erbyn menywod, camdriniaeth ddomestig a thrais rhywiol (VAWDASV) yn drosedd yn erbyn hawliau dynol sydd â chanlyniadau pellgyrhaeddol i deuluoedd, plant, cymunedau a chymdeithas gyfan, ac y mae'n galw am agwedd bendant a chymesur gan gyrff cyhoeddus. Yng Nghymru, yr ydym wedi cydnabod hyn trwy Ddeddf VAWDASV (Cymru) 2015 a Strategaeth VAWDASV Genedlaethol 2022-26.

Mae'r strategaeth ranbarthol hon yn asio gyda pholisïau a chynlluniau gweithredu strategol lleol a chenedlaethol, ac y mae'n gorgyffwrdd â gofynion strategaeth VAWDASV genedlaethol a'i chwe amcan. Yn sail iddi mae asesiad anghenion y boblogaeth a lleisiau arbenigol goroeswyr a gweithwyr proffesiynol. Mae'r strategaeth yn 'ddogfen fyw' ac y mae'n gywir adeg ei hysgrifennu. Parheir i gyfoesi'r strategaeth er mwyn adlewyrchu'r sbardunau a'r datblygiadau polisi mwyaf perthnasol. Mae llywodraethiant rhanbarthol cryf yn goruchwylio cyflwyno'r ymrwymiadau allweddol.

## ARWAIN AR ANSAWDD AC ARLOESEDD

Mae'r strategaeth hon yn amlinellu'r blaenoriaethau strategol i'r holl bartneriaid dros y pum mlynedd nesaf, ac yn dathlu ein llwyddiannau hyd yma. Mae ein rhanbarth yn arwain ar arloesedd mewn nifer o feysydd:

- Mae ein hagwedd strategol yn newid y naratif ar VAWDASV trwy roi atebolrwydd y sawl sy'n troseddu ar flaen ein hymateb strategol. Ni yw'r unig ardal yng Nghymru i gynnig darpariaeth camau i fyny / i lawr diwnïad o ymyriadau i'r sawl sy'n achosi niwed yn eu perthynas agos. Ymysg yr ymyriadau mae: ymateb cynnar i ddynion sy'n defnyddio niwed (CLEAR), rhaglen o driniaeth therapiwtig i ddynion fu'n dreisgar (Driving Change) ac ymyriad dwys sy'n gweithio gyda throseddwyr sy'n peri niwed difrifol ac yn troseddu dro ar ôl tro (Drive).

- Mae Caerdydd wedi datgan ei bod yn Ddinas CEDAW (Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Ddileu Camwahaniaethu yn erbyn Menywod) er mwyn bwrw ymlaen â hawliau menywod a phlant, a sicrhau cydraddoldeb i holl ddinasyddion Caerdydd.

- Mae'r rhanbarth yn peilotio gwasanaeth unswydd i gefnogi dynion sy'n dioddef camdriniaeth ddomestig a thrais rhywiol.

- Yn ogystal ag ystod o wasanaethau cefnogi sefydledig sy'n seiliedig ar iechyd i oroeswyr VAWDASV megis IRIS+, IDVA a'r Ganolfan Les i oroeswyr AOCM, mae gennym ddarpariaeth IDVA Pobl Ifanc 11-16 oed. Dyma'r ddarpariaeth gyntaf o'i bath yn y sector iechyd yng Nghymru.

- Caerdydd yw'r unig ardal yng Nghymru i fod wedi peilotio'r model 'Diogel Ynghyd' i beri newid radical mewn arferion Gwaith Cymdeithasol trwy wneud y troseddwyr yn weladwy mewn ymatebion diogelu, ac ymdrin ag anghenion y teulu cyfan.

- Mae nifer o wasanaethau ar gael i oroeswyr pob ffurf ar VAWDASV gan gynnwys: camdriniaeth rywiol, cam-fanteisio rhywiol, anffurfio organau cenhedlu menywod, camdriniaeth seiliedig ar anrhydedd a phriodi trwy orfodaeth.

- Yr ydym yn rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch menywod mewn mannau cyhoeddus, yn enwedig yn economi'r nos.

- Cefnogwyd partneriaid yn y rhanbarth i ddatblygu eu polisïau gweithle sy'n ymdrin â VAWDASV. Yn ddiweddar, cynhyrchodd Cyngor Caerdydd bolisi Urddas yn y Gwaith sydd hefyd yn cryfhau'r ymateb i VAWDASV, gan fynd i'r afael â phob math o aflonyddu yn y gweithle.

- Yr ydym yn parhau i anelu at ragoriaeth, ac yn 2022 fe wnaethom gomisiynu Safe Lives i gynnal adolygiad annibynnol i weithrediad MARAC yn y rhanbarth er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i roi'r gefnogaeth a'r warchodaeth orau i oroeswyr.

I fynd i'r afael â VAWDASV mae angen cyfraniad, mewnwelediad, cydweithrediad a chefnogaeth pawb sy'n delio â'r materion hyn yn ddyddiol, gan gynnwys dioddefwyr. Yr ydym yn parhau i frwydro dros gydraddoldeb a diogelwch i bawb, ac am roi diwedd ar y felltith niweidiol a chostus hon yn ein cymdeithas.

# 'Mae yn ein dwylo ni' Strategaeth VAWDASV – Crynodeb o Ymrwymiadau



## Cyflwyniad

**DYMA A WNAWN**

- Cynorthwyo Llywodraeth Cymru i weithredu'r camau sy'n deillio o agwedd a ffrydiau gwaith y Glasbrint.
- Sicrhau bod y strategaeth hon yn asio gyda'r polisïau a'r cynlluniau gweithredu perthnasol, wrth i'r rhain gael eu hadolygu a'u hadnewyddu.
- Helpu gyda datblygu a rhoi ar waith gynllun gweithredu Dinas dros CEDAW.
-



## Paratoi

**DYMA A WNAWN**

- Gweithio gyda phartneriaid ar draws y rhanbarth i barhau i wella casglu a dadansoddi data yn gyson.
- Sicrhau bod profiad bywydau goroeswyr yn sail i ddatblygu a chyflwyno gwasanaethau.
- Dal i ddysgu gan arbenigwyr.
- Cefnogi gwaith Glasbrint Llywodraeth Cymru i sicrhau fod goroeswyr o bob oed yn derbyn y gefnogaeth maent ei angen.
- Ceisio deall yr anghenion a'r rhwystrau arbennig i gefnogaeth a ddaw i ran goroeswyr anabl, er mwyn ei gwneud yn haws iddynt gyrchu cefnogaeth.
- Parhau i beilotio Prosiect Cedar i ddioddefwyr gwryw fel sail i gaffael gwasanaeth unswydd yn ffurfiol.
- Cefnogi gweithredu'r cwricwlwm Addysg Cyd-berthynas a Rhywioldeb (ACRh) yn rhanbarthol i hyrwyddo dealltwriaeth plant a phobl ifanc am gydsynio, perthynas iach a pharchus.



## Ymdrin

**DYMA A WNAWN**

- Gwella ein dealltwriaeth o drais rhywiol er mwyn datblygu a gwella ein hymateb.
- Cefnogi partneriaid i weithredu pwerau newydd sy'n deillio o newidiadau deddfwriaethol.
- Codi ymwybyddiaeth o newidiadau deddfwriaethol i annog adrodd, cyfeirio a chefnogi priodol.
- Parhau i osod y cyfrifoldeb am gamdriniaeth ar y sawl sy'n achosi niwed.
- Mynd i'r afael â throseddu trwy gefnogi ffrwd waith berthnasol Glasbrint Llywodraeth Cymru.
- Ymchwilio i raglenni achrededig sy'n seiliedig ar dystiolaeth sydd yn ymdrin ag ymddygiad niweidiol cysylltiedig â phob ffurf ar VAWDASV a chefnogi ymdrechion i sicrhau ymyriadau.

# 'Mae yn ein dwylo ni' Strategaeth VAWDASV – Crynodeb o Ymrwymiadau



## Atal

### DYMA A WNAWN

- Annog mwy o ysgolion i fabwysiadu'r agwedd ysgol-gyfan at VAWDASV.
- Dal i weithio gyda phrifysgolion a cholegau i gryfhau eu hymateb i fyfyrwyr sy'n profi VAWDASV.
- Manteisio ar bob cyfle i herio agweddau sy'n beio'r dioddefwyr, a chodi ymwybyddiaeth o wasanaethau cefnogi.
- Parhau i wneud yn siŵr fod gan y gweithlu y sgiliau i adnabod, cyfeirio a chefnogi dioddefwyr a throseddwyr.
- Cefnogi partneriaid i barhau i ail-ymgeisio am y statws Rhuban Gwyn.




## Amddiffyn

### DYMA A WNAWN

- Rhoi ar waith yr argymhellion y cytunwyd arnynt o'r adolygiad o Gynadleddau Amlasiantaethol Asesu Risg (MARAC).
- Cryfhau ein hymateb diogelu i gamdriniaeth seiliedig ar anrhydedd ac anffurfio organau cenhedlu menywod trwy ddatblygu llwybrau cefnogi clir.
- Parhau i wneud yn siŵr fod plant sy'n destun diogelu yn cael cefnogaeth arbenigol i adfer o'r gamdriniaeth a'r trawma y maent wedi ddioddef.
- Gweithio gyda'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol i weithredu argymhellion o'r Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol.
- Helpu partneriaid i gyfoesi polisïau'r gweithle i gynnwys aflonydd rhywiol yn y gweithle.
- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i roi ar waith gamau sy'n deillio o ffrwd waith y Glasbrint sy'n delio ag aflonyddu yn y gweithle.
- Sicrhau bod mwy o fannau diogel ar hyd a lled Caerdydd, gan ddwyn menywod a merched i mewn i'w creu.



## Cefnogi

### DYMA A WNAWN

- Sicrhau bod plant a phobl ifanc yn dal i allu mynd at gefnogaeth arbenigol addas i'w hoedran.
- Casglu data a phrofiadau cymunedau DLlE er mwyn deall eu hanghenion yn well.
- Gweithredu argymhellion y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Anghenion Cymhleth.
- Adolygu elfennau cyflwyno gwasanaethau o ran llwybr llety, cefnogaeth gymunedol ac atal, er mwyn gwneud yn siwr eu bod yn dal i gwrdd â'r angen.

# Cyflwyniad

Nid yw'r strategaeth ranbarthol hon yn anwybyddu trais a chamdriniaeth sydd wedi ei gyfeirio tuag at ddynion a bechgyn, na thrais a chamdriniaeth gan fenywod. Mae'r strategaeth hon yn cydnabod, er y gall unrhyw un (menywod, dynion, plant a phobl ifanc) fod a phrofiad a dioddef yr effeithiau, menywod a merched sy'n dioddef yn anghymesur effaith camdriniaeth ddomestig, trais a thrais rhywiol, cam-fanteisio rhywiol (gan gynnwys trwy'r diwydiant rhyw), caethwasiaeth fodern, priodi trwy orfodaeth, camdriniaeth seiliedig ar anrhydedd, anffurfio organau cenhedlu menywod, cam-fanteisio rhywiol a cham-drin plant, stelcian ac aflonyddu rhywiol. Gall hyn ddigwydd mewn unrhyw berthynas waeth beth fo'r rhyw, oedran, ethnigrwydd, rhywedd, rhywioldeb, anabledd, crefydd neu gred, incwm, dosbarth, daearyddiaeth neu ddull o fyw.

# Diffiniadau



Mae Datganiad y Cenhedloedd Unedig ar Ddileu Trais yn erbyn Menywod yn diffinio hyn fel:

"pob gweithred o drais seiliedig ar rywedd sy'n arwain, neu'n debygol o arwain, at niwed neu ddioddefaint corfforol, rhywiol, seicolegol neu economaidd i fenywod, gan gynnwys bygythiadau o weithredoedd o'r fath, gorfodaeth neu amddifadu'n fympwyol o ryddid, boed hynny yn digwydd yn gyhoeddus neu mewn bywyd preifat." Mae hyn yn cwmpasu'r isod, ond heb ei gyfyngu i hynny'n unig:

- Trais corfforol, rhywiol a seicolegol sy'n digwydd yn y teulu, gan gynnwys curo, cam-drin yn rhywiol blant benywaidd y teulu, trais cysylltiedig â gwaddol, treisio o fewn priodas, anffurfio organau cenhedlu menywod ac arferion traddodiadol eraill sy'n niweidiol i fenywod, trais gan rywun hab fod yn ŵr, a thrais yng nghyswllt cam-fanteisio;
- Trais corfforol, rhywiol a seicolegol sy'n digwydd yn y gymuned yn gyffredinol, gan gynnwys trais, camdriniaeth rywiol, aflonyddu a brawychu rhywiol yn y gwaith, mewn sefydliadau addysgol a mannau eraill, masnachu menywod a phuteindra dan orfodaeth;
- Trais corfforol, rhywiol a seicolegol gan y Wladwriaeth neu a oddefir gan y Wladwriaeth, lle bynnag mae'n digwydd.

Mae Deddf Trais yn Erbyn Menywod, Camdriniaeth Ddomestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yn diffinio ffurfiau penodol ar VAWDASV:

Mae "**Camdriniaeth**"yn golygu camdriniaeth gorfforol, rywiol, seicolegol, emosiynol neu ariannol;
Mae "**Camdriniaeth ddomestig**" yn golygu camdriniaeth lle mae'r dioddefwr yn neu wedi bod yn gysylltiedig â'r camdriniwr;
Mae "**Trais seiliedig ar rywedd**" yn golygu—

- trais, bygythiadau o drais neu aflonyddu yn deillio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o werthoedd, credoau neu arferion sy'n ymwneud â rhywedd neu gyfeiriadedd rhywiol;
- anffurfio organau cenhedlu menywod
- gorfodi person (boed trwy rym corfforol neu orfodaeth trwy fygythiadau neu ddulliau seicolegol eraill) i fynd trwy seremoni sifil neu grefyddol o briodas (boed yn gyfreithiol-rwym neu beidio);

Mae "**Trais rhywiol**" yn golygu cam-fanteisio rhywiol, aflonyddu rhywiol, neu fygythiadau o drais o natur rywiol;
Mae "**Aflonyddu**"yn golygu ymddygiad gan berson y gŵyr neu y dylai wybod sy'n gyfystyr ag aflonyddu'r llall; ac at bwrpas y diffiniad hwn-

- dylai person wybod fod ei h/ymddygiad yn gyfystyr â neu yn golygu aflonyddu petai person rhesymol sy'n meddu ar yr un wybodaeth yn tybio fod yr ymddygiad yn gyfystyr â neu yn golygu aflonyddu ar berson arall, ac
- y mae "ymddygiad" yn cynnwys lleferydd.

Mae'r partneriaid (a amlinellir ar d.2) sy'n gyfrifol am y strategaeth hon wedi cytuno i fabwysiadu'r diffiniad ehangaf, gan gydnabod nad yw pob camdriniaeth yn digwydd o fewn perthynas agos neu deuluol, ond y gall dieithriad hefyd ei gyflawni.

# Cwmpas

Mae rhai mathau o gamdriniaeth yn effeithio'n anghymesur ar y sawl â nodweddion gwarchodedig. Gall materion hunaniaeth rhywedd (gan gynnwys trawsrywedd), hil, crefydd, diwylliant, anabledd a rhywioldeb wneud rhywun yn fwy bregus a gallant hefyd lunio agweddau ac ymddygiad mewn perthynas o safbwynt y dioddefwr a'r troseddwr.

Mae'r strategaeth VAWDASV ranbarthol hon yn adlewyrchu'r fframwaith strategol a pholisi sydd mewn grym ac fe'i diwygir wrth i bolisïau cenedlaethol neu leol newid. Cyfeirir yn naturiol at nifer o fathau o droseddau a phroblemau yn y strategaeth hon. Maent yn cynnwys:

- Rheolaeth trwy orfodaeth
- Camdriniaeth ddomestig
- Anffurfio Organau Cenhedlu Menywod
- Camdriniaeth Seiliedig ar Anrhydedd a Phriodi dan Orfodaeth
- Caethwasiaeth Fodern a Masnachu Dynol – masnachu mewn pobl, caethiwed domestig; camfanteisio ar lafur
- Trais rhywiol - Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant; Cam-drin Plant yn Rhywiol; treisio, ymosod rhywiol
- Stelcian
- Aflonyddu ar y stryd
- Aflonyddu yn y gweithle
- Y sawl sy'n cyflawni'r cyfan o'r uchod

## Ein Gweledigaeth

Fod pobl sy'n byw, gweithio, astudion ac yn ymweld â Chaerdydd a Bro Morgannwg yn cael cyfle i fyw bywydau positif ac annibynnol heb i drais a chamdriniaeth effeithio arnynt.

# Ein Nod

Mae'r Strategaeth ranbarthol hon yn amlinellu sut y bydd yr holl bartneriaid yn llunio ac yn cyflwyno ymatebion i bob ffurf ar drais yn erbyn menywod, camdriniaeth ddomestig a thrais rhywiol ledled y rhanbarth dros y 5 mlynedd nesaf.

Bydd cynllun gweithredu ar wahân yn bwrw ymlaen â'r materion hynny a nodwyd fel dogfen fyw y gellir ei diwygio wrth i gamau newydd gael eu hadnabod. Cedwir golwg yn gyson ar y camau hyn gyda'r partneriaid fel sail i adroddiad am gynnydd a gyhoeddir yn flynyddol fel sydd wedi digwydd dros y pum mlynedd diwethaf. Bydd hyn yn sicrhau bod y Strategaeth yn cadw'i chanolbwynt ac y bydd yn dal yn berthnasol.

Dyma'r ail Strategaeth ranbarthol a chytunodd yr holl bartneriaid bod y nodau allweddol isod yn dal yn briodol. Maent yn adlewyrchu gofynion strategaeth genedlaethol ddiwygiedig Llywodraeth Cymru (gweler tudalen 12). Ymdrinnir â phob nod mewn pennod ar wahân, er ein bod yn cydnabod bod llawer o'r materion yn trawstorri.

**Nod 1 - PARATOI**

Gwella cynllunio strategol a chomisiynu gwasanaethau VAWDASV trwy agwedd bartneriaeth sydd wedi ei chydgordio'n well ledled y rhanbarth.

**Nod 2 - YMDRIN**

Ymdrin â'r sawl sy'n cyflawni VAWDASV trwy wella rhannu gwybodaeth ar draws gwasanaethau a defnyddio pwerau cyfreithiol i darfu ac euogfarnu.

**Nod 3 - ATAL**

Mynd ati i ymdrin ag agweddau ac ymddygiad negyddol a allai arwain at VAWDASV, gan gydnabod fod hyn yn fusnes i bawb.

**Nod 4 - AMDDIFFYN**

Gwella'r ymateb a'r gefnogaeth amlasiantaethol i'r holl ddioddefwyr a'u plant, waeth beth fod lefel y risg a'u hanghenion.

**Nod 5 - CEFNOGI**

Sicrhau bod gwasanaethau arloesol, hyblyg a seiliedig ar dystiolaeth ar gael i gwrdd ag anghenion dioddefwyr a brofodd unrhyw fath o VAWDASV.

# Partneriaid Rhanbarthol



Datblygwyd y strategaeth hon gyda chydweithrediad a chydweithio gan y partneriaid statudol ar draws y rhanbarth fel y rhestrir ar d.2. Bu partneriaid o'r trydydd sector ledled y rhanbarth yn rhan o ddatblygu'r strategaeth hon fel rhanddeiliaid allweddol i gyflwyno'r ymateb rheng-flaen i ddioddefwyr, ac fe'u rhestrir ar d.3.

Yn bwysicaf oll, datblygwyd y strategaeth hon gyda chyfraniadau a mewnwelediad goroeswyr VAWDASV, trwy ymgynghori uniongyrchol a gweithgareddau fu'n sail i ddatblygu'r cynllun gweithredu.

# Dioddefwr neu Oroeswr?

Mae i'r geiriau 'dioddefwr' a 'goroeswr' gynodiadau tra gwahanol. Gall bod yn 'ddioddefwr' awgrymu trueni a bod yn ddiamddiffyn, cael eich dal mewn magl a chael rhywbeth wedi ei wneud i chi nad oes gennych reolaeth drosto, ac efallai nad yw hyn yn ddisgrifiad digonol o brofiadau rhai pobl o VAWDASV. Fodd bynnag, mae'r term 'goroeswr' yn cydnabod y gall pobl gymryd rheolaeth dros eu bywydau eu hunain; mae'n awgrymu bwrw ymlaen o gyflwr llonydd, ac y mae llawer yn ei ddewis am ei fod yn derm sy'n grymuso. Mae rhai pobl yn defnyddio'r term 'goroeswr' yn hytrach na 'dioddefwr', a vice versa. Nid yw pobl yn ddim ond 'goroeswyr' neu 'ddioddefwyr' oherwydd ei bod yr un mor bosib bod y ddau beth, yn dibynnu ar gyd-destun y profiad.

Fodd bynnag, er mwyn symlrwydd ac eglurder i gynulleidfa ehangach, mae'r strategaeth hon wedi defnyddio'r term 'dioddefwr' i gyfeirio at y sawl sydd wedi profi VAWDASV yn ddiweddar neu sy'n dal i ddioddef, a'r sawl nad ydynt yn ymwybodol nac yn derbyn mai camdriniaeth yw'r hyn sy'n digwydd iddynt.

Defnyddir 'goroeswr' i gyfeirio at y sawl sydd wedi goresgyn eu sefyllfaoedd o gamdriniaeth, boed o ganlyniad i'w camau eu hunain a/neu yn dilyn ymwneud â gwasanaethau statudol neu rai cefnogol eraill.

# Beth am Ddynion?

**"Cefais fy ngadael gyda dim ond y dillad gwaith roeddwn i'n eu gwisgo a £200 ond mewn gwirionedd roeddwn yn wên o glust i glust. Roeddwn yn rhydd!" - Dioddefwr gwryw**



Gŵyr yr holl bartneriaid yn y rhanbarth y gall dynion ddioddef camdriniaeth ddomestig, ymosodiadau rhywiol, priodi trwy orfodaeth, masnachu mewn pobl a thrais seiliedig ar anrhydedd, ac y mae hyn yn cael ei gydnabod yn y strategaeth drwyddi draw, ac amlygir hyn ym mhob digwyddiad cyhoeddus ac yn ystod hyfforddiant staff.

Mae Deddf VAWDASV yn mynd i'r afael â chamdriniaeth ddomestig a thrais rhywiol a gyflawnir yn erbyn yr holl bobl yng Nghymru, tra'n cydnabod ar yr un pryd fod menywod a merched yn dioddef yn anghymesur o lawer o'r trais a'r gamdriniaeth a ddaw dan y Ddeddf.

Mae'r strategaeth hon yn asio ei hun â'r Ddeddf trwy gydnabod, oherwydd hyn, fod angen agwedd seiliedig ar ryw a rhywedd.

Mae gwaith yn parhau i sicrhau bod ein cymunedau yn cydnabod nad yw trais a chamdriniaeth gan unrhyw un yn dderbyniol ac nad oes lle iddo yn ein cymdeithas. Gyda'n partneriaid, arbenigol, fe fyddwn yn parhau i ymdrin ag unrhyw fylchau a dal i gefnogi gwasanaethau sydd yn bod eisoes, gan dargedu adnoddau ychwanegol lle mae'r angen fwyaf. Bydd barn dioddefwyr yn rhan annatod o hyn.

Yn olaf, mae'r strategaeth hon yn hyrwyddo Llinell Gymorth Byw Heb Ofn Llywodraeth Cymru sydd yn rhoi gwybodaeth a chyngor i unrhyw un y mae camdriniaeth ddomestig a thrais rhywiol yn effeithio arnynt, gan gynnwys dynion sy'n dioddef camdriniaeth, cyfeillion a gweithwyr proffesiynol a all fod yn chwilio am gyngor am y ffordd orau i'w cefnogi.

# Ein Taith Hyd Yma ...

Datblygwyd strategaeth flaenorol 2018-2023 ar adeg heriol: dyletswyddau deddfwriaethol newydd ar gyrff statudol, llymder parhaus yn arwain at doriadau cyllidebol digynsail, a mwy o alw am wasanaethau. Cafodd hyn ei ddwysau ymhellach oherwydd y sefyllfa unigryw o reoli'r galw a chyflwyno gwasanaethau yn ystod pandemig byd-eang ar argyfwng costau byw parhaus. Ar waethaf yr heriau hyn, gwnaeth partneriaid yn y rhanbarth yn sicr fod dioddefwyr wedi dal i allu cyrchu gwasanaethau arbenigol fu'n sensitif yn eu hymateb ar yr adeg anodd hwn. Gwelir isod rai o lwyddiannau'r rhanbarth a amlygwyd mewn adroddiadau cynnydd blynyddol:

## Ymateb i Bandemig COVID-19

- Cynyddu'r ddarpariaeth llochesi
- Ymestyn y gwasanaeth IDVA seiliedig ar iechyd
- Gwneud defnydd creadigol o'r holl arian oedd ar gael – cyfalaf a refeniw
- Cynnig model cyflwyno cyfun (yn bersonol ac ar-lein)
- Amlygu'r angen i bob gweithiwr/gwirfoddolwr sy'n gweithio ar-lein i fod yn arbennig o wyliadwrus

## Agor Siop Un Stop newydd yng Nghaerdydd



## Comisiynu darpariaeth arbenigol

Vale Domestic Abuse Services / Gwasanaethau Cam-drin Domestig: Gwasanaeth Arbenigol Camdriniaeth Ddomestig

RISE: Gwasanaeth Arbenigol Trais yn erbyn Menywod, Camdriniaeth Ddomestig a Thrais Rhywiol (Menywod)

Mae Prosiect Cedar yn ddarpariaeth arbenigol i ddynion a ddioddefodd effaith camdriniaeth ddomestig a/neu drais rhywiol

pobl – The Dyn Project / Y Cynllun Dyn

## Cyfrannu at ymgynghoriadau ffurfiol

- Canllaw Llywodraeth Cymru ar Addysg Cyd-berthynas a Rhywioldeb
- Strategaeth Trais yn Erbyn Menywod a Merched (TEMM) y Comisiynydd Heddlu a Throsedd
- Adolygiad Diogelu Unedig Sengl
- Deddf Camdriniaeth Ddomestig (2021) a Chanllaw
- Strategaeth VAWDASV Llywodraeth Cymru
- Arolwg Caledu Targed Prifysgol Caerloyw

## Ymgyrchoedd cyfathrebu

- Calendr Digwyddiadau Blynyddol y Rhuban Gwyn
- Anfon dros 300 pecyn at ysgolion a phrifysgolion
- Dros 800 o becynnau gwybodaeth at fusnesau yn y diwydiant harddwch a thros 300 o becynnau i gampfeydd, a chlybiau a chanolfannau ffitrwydd cysylltiedig
- 1,848,000 o docynnau bws yn hysbysebu llinell gymorth Byw Heb Ofn

## Gweithredu prosesu a gwasanaethau newydd

- Sefydlu trafodaethau dyddiol (yn ychwanegol at MARAC)
- Sefydlu Grŵp VAWDASV Addysg Uwch a Phellach
- Gweithredu elfennau o Newid sy'n Parhau
- Cyflwyno rhaglenni newydd i droseddwyr
- Datblygu Polisi Gofyn a Gweithredu rhanbarthol
- Gweithredu model rhanbarthol i blant a phobl ifanc yn y SARC
- Cyflwyno IRIS i feddygfeydd meddygon teulu

# Polisi a Chyd-destun Deddfwriaethol

## Y Byd:

Mae VAWDASV wedi ei gydnabod gan Gyngor Ewrop, ar ffurf Confensiwn Cyngor Ewrop ar atal a gwrthweithio trais yn erbyn menywod, a thrais domestig, a adwaenir hefyd fel **Confensiwn Istanbul**. Mabwysiadwyd y Confensiwn gan Gyngor Ewrop ar 7 Ebrill 2011 a daeth i rym ar 1 Awst 2014. Mae cydnabyddiaeth hefyd gan y Cenhedloedd Unedig, ar ffurf eu Datganiad ar Ddileu Trais yn erbyn Menywod, ac yn fwyaf diweddar yn Nodau Datblygu Cynaliadwy y CU 2030 sydd yn rhoi blaenoriaeth i gydraddoldeb rhwng y rhywiau trwy nod 5. Dethlir Diwrnod Rhyngwladol Dileu Trais yn erbyn Menywod a Merched ledled y byd ar 15 Tachwedd bob blwyddyn.

Mae'r **Confensiwn ar Ddileu pob ffurf ar Gamwahaniaethu yn erbyn Menywod (CEDAW)** yn rhoi fframwaith i wladwriaethau ysgwyddo'r cyfrifoldeb am fynd i'r afael â chamwahaniaethu yn erbyn menywod trwy gyfres gynhwysfawr o hawliau i fenywod mewn amrywiaeth o feysydd gan gynnwys hawliau sifil, gwleidyddol, cymdeithasol a diwylliannol.

## Cymru:

Pwrpas **Deddf Trais yn Erbyn Menywod, Camdriniaeth Ddomestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015** yw gwella atal, amddiffyniad a chefnogaeth i bobl sy'n dioddef yr effeithiau. Mae'r strategaeth genedlaethol a ddeilliodd o hyn yn rhoi arweiniad a chyfeiriad sydd yn hyrwyddo cysondeb a'r arferion gorau o ran y ffordd mae trais yn erbyn menywod, camdriniaeth ddomestig a thrais rhywiol yn cael ei flaenoriaethu a'i drin ledled Cymru, gyda'r nod o "wneud Cymru y lle mwyaf diogel i fod yn fenyw." Mae ail argraffiad y strategaeth genedlaethol yn cynnwys yr amcanion a ganlyn:

1 – Herio agweddau cyhoeddus
2 - Cynyddu ymwybyddiaeth o gydberthynas iach
3 – Dal troseddwyr i gyfrif
4 – Gwneud ymyriad cynnar yn flaenoriaeth
5 – Hyfforddi'r gweithwyr proffesiynol perthnasol
6 - Darparu gwasanaethau ymatebol

Dygir y rhain at ei gilydd dan lasbrint am weithredu sy'n rhoi manylion am y camau fydd eu hangen i gyrraedd y nodau hyn.

## Y Deyrnas Unedig:

Ym mis Tachwedd 2022, y DU oedd y 37eg Gwladwriaeth i gadarnhau **Confensiwn Istanbul** ond cadwodd yn ôl erthygl 59 sydd yn gosod rhwymedigaethau ar y wladwriaeth i warchod menywod mudol.

Cyflwynodd **Deddf Camdriniaeth Ddomestig (2021)** y DU nifer o newidiadau deddfwriaethol a amlinellir ar dudalen 34. Mae'r Ddeddf yn creu diffiniad statudol o gamdriniaeth ddomestig sydd yn pwysleisio camdriniaeth emosiynol ac ariannol, ac ymddygiad rheoli trwy orfodaeth. Mae gosod mewn cyfraith swydd y Comisiynydd Camdriniaeth Ddomestig ac yn gosod allan swyddogaethau a phwerau'r Comisiynydd. Mae hefyd yn darparu ar gyfer strategaeth statudol o drin y sawl sy'n cyflawni camdriniaeth ddomestig.

**Dyletswydd Trais Difrifol** - mae Deddf yr Heddlu, Trosedd, dedfrydu a'r Llysoedd (2022), yn gosod dyletswydd statudol newydd ar nifer o asiantaethau'r sector cyhoeddus gan gynnwys yr heddlu, iechyd ac addysg i weithio ynghyd i atal a thrin trais difrifol.

## Rhanbarth Caerdydd a Bro Morgannwg:

Gosododd Deddf Trais yn Erbyn Menywod, Camdriniaeth Ddomestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 nifer o ddyletswyddau ar awdurdodau lleol a mudiadau statudol i wneud yr isod:

- datblygu strategaethau rhanbarthol,
- cydymffurfio â'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol, gan gynnwys dyletswydd i Ofyn a Gweithredu, a
- sicrhau y cyfeirir at yr agenda hwn ar draws gwasanaethau addysg.

Mae'r Strategaeth ranbarthol hon felly yn nodi sut i fynd i'r afael â'r dyletswyddau hyn yn y rhanbarth a sut y bydd yn cefnogi'r strategaeth genedlaethol i atal, amddiffyn a chefnogi'r sawl y mae VAWDASV yn effeithio arnynt.

# Polisi a Chyd-destun Deddfwriaethol

Mae StrategaethVAWDASV Llywodraeth Cymru 2022-26 yn gosod allan weledigaeth i wneud Cymru y lle saffaf yn Ewrop i fod yn fenyw, gan ganolbwyntio ar y gofod preifat a mannau cyhoeddus. Mae glasbrint y strategaeth yn creu agwedd system-gyfan, amlasiantaethol sy'n dwyn ynghyd wahanol gyrff a lleisiau gan gynnwys:

- Sector statudol, trydydd sector a'r sector preifat
- Cyrff datganoledig a heb eu datganoli
- Arbenigwyr trwy brofiad a lleisiau cynrychioliadol (e.e. Comisiynydd Pobl Hŷn).

Bydd agwedd y Glasbrint yn rhoi ar waith strwythur llywodraethiant sy'n cael ei rannu, dan arweiniad Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol gyda Gweinidog yn ei arwain, a chyd-gadeiryddion. Bydd hwn yn goruchwylio gwaith y byrddau rhanbarthol er mwyn sicrhau eu bod yn cyflwyno'r agwedd Cymru-gyfan ond yn adlewyrchu gwahaniaethu rhanbarthol ar yr un pryd. Bydd y strategaeth ranbarthol hon yn cefnogi cyflwyno ffrydiau gwaith y Glasbrint:


1. Aflonyddu ar sail rhyw ym mhob man cyhoeddus
2. Aflonyddu yn y gweithle
3. Mynd i'r afael â throseddu
4. Agwedd gynaliadwy, system-gyfan
5. Anghenion pobl hŷn
6. Anghenion plant a phobl ifanc
7. Llais y goroeswyr

Mae'r egwyddorion canlynol yn sail i'r Strategaeth Genedlaethol:

- Dealltwriaeth lawn o VAWDASV
- Mynd i'r afael â thrais gan ddynion
- Agwedd o gydraddoldeb
- Llais y goroeswyr
- Gwybodaeth o drawma
- Cydweithio a chyd-gynhyrchu

Bydd hefyd yn asio ei ddisgwyliadau o ran comisiynu a gwasanaethau â Fframwaith Safonau Llywodraeth Cymru.

Mae'r diagram isod yn gosod allan y modd mae'r strategaeth ranbarthol yn gorgyffwrdd a gofynion y strategaeth genedlaethol a'i chwe amcan:




**Byddwn yn gwneud y canlynol:**
Helpu Llywodraeth Cymru i weithredu'r camau sy'n deillio o agwedd a ffrydiau gwaith y Glasbrint.

# Polisi a Chyd-destun Deddfwriaethol

IYn ychwanegol at Ddeddf VAWDASV (Cymru) 2015, a Strategaeth Genedlaethol VAWDASV 2022-2026, mae ystod o ddeddfwriaeth a pholisïau Cymreig eraill sy'n cael effaith ar gyflwyno'r strategaeth ranbarthol hon:

Diwygiodd **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014** ofal cymdeithasol yng Nghymru, gan sicrhau bod y sawl oedd angen gofal a chefnogaeth yn cael gwell deilliannau.

Gosododd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 allan saith nod llesiant sydd â'r nod o wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Sefydlodd y Ddeddf hefyd Fyrddau Gwasanaeth Cyhoeddus i ardal pob awdurdod lleol yng Nghymru, sy'n gorfod paratoi a chyhoeddi Cynllun Lles Lleol.

Mae **Cynllun Lles Caerdydd am 2023-2028** yn tynnu sylw penodol at y blaenoriaethau isod i wneud y canlynol:

- Mynd i'r afael a phob ffurf ar VAWDASV, a chymryd camau i gryfhau'r gefnogaeth sydd ar gael i ddioddefwyr, gan gynnwys cytuno ar Strategaeth VAWDASV wedi ei chyfoesi, a'i rhoi ar waith.
- Gweithio mewn partneriaeth i nodi natur fregus ac atal niwed yn economi'r cyfnos a'r nos.
- Diogelu'r sawl sydd mewn perygl o ddioddef camfanteisio a'r sawl a ddioddefodd droseddau. Mae hyn yn cynnwys gwreiddio agwedd gyd-destunol at ddiogelu ar hyd a lled Caerdydd.
- Ymateb i'r Ddyletswydd Trais Difrifol statudol newydd, seiliedig ar agwedd iechyd cyhoeddus tuag at leihau trais.


**Byddwn yn gwneud y canlynol:**
Gofalu bod y strategaeth hon yn asio gyda pholisïau a chynlluniau gweithredu perthnasol sy'n gysylltiedig, wrth i'r rhain gael eu hadolygu a'u hadnewyddu.

Diwygiodd **Deddf Tai (Cymru) 2014** ddyletswyddau awdurdodau lleol o ran digartrefedd.

Cefnogir hyn ymhellach gan **Diweddu Digartrefedd yng Nghymru: Cynllun gweithredu lefel-uchel 2021-2026** gan Lywodraeth Cymru, sydd yn nodi'r camau a gymerir i sicrhau bod digartrefedd yn beth nad yw'n para'n hir, sy'n brin a heb ei ailadrodd

Ymhellach, mae canllawiau Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym Llywodraeth Cymru yn amlinellu'r camau y dylai awdurdodau lleol a phartneriaid eu cymryd er mwyn gweithio tuag at y model lle darperir llety parhaol i bobl ddigartref cyn gynted ag sydd modd, yn hytrach na threulio cyfnodau maith o amser mewn hosteli neu lety dros dro. Mae **Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016**, a weithredwyd o 1 Rhagfyr 2022 ymlaen, yn canolbwyntio ar wella'r broses o rentu a rheoli eiddo preswyl yng Nghymru. Mae'n darparu contractau meddiannaeth newydd i denantiaid eiddo rhentu preifat a chymdeithasol, a'r rhai mewn tai gyda chefnogaeth, gan gynnwys llochesi.

Mae **Mynd i'r Afael â Thrais yn erbyn menywod a Merched: Strategaeth ar y Cyd 2019 - 2024** a ddatblygwyd gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd De Cymru a'r Prif Gwnstabl a phartneriaid yn nodi pedwar mae blaenoriaeth ar gyfer gweithredu: Gwell Cydweithredu, Atal ac Ymyriad Cynnar, Diogelu a Throseddwyr.




Mae'r strategaeth hefyd yn ymrwymo'n glir i ddal troseddwyr a'r sawl sy'n achosi niwed i gyfrif, boed hyn trwy'r system cyfiawnder troseddol neu trwy raglenni ac ymyriadau gyda'r nod o roi iddynt y sgiliau angenrheidiol i newid eu hymddygiad.
Mae'r strategaeth hon felly yn cael effaith ar draws nifer o flaenoriaethau strategol rhanbarthol, gan fod y rhain wedi eu nodi gan y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol, y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, a'r Cynllun Ardal Rhanbarthol.

# Polisi a Chyd-destun Deddfwriaethol

Adeg ysgrifennu hyn, mae Cyngor Bro Morgannwg yn datblygu eu Strategaeth Partneriaeth Diogelwch Cymunedol. Mae VAWDASV wedi ei gynnwys yn y cynllun Corfforaethol a'r cynlluniau gwasanaeth Diogelwch Cymunedol a Lles sydd yn ymrwymo i ddatblygu a chyflawni'r Strategaeth VAWDASV ranbarthol hon.

Deilliodd y blaenoriaethau a nodwyd ar gyfer **Cynllun Blynyddol y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol 23/24** o'u Diwrnod Datblygu 2023, oedd yn cynnwys adolygu cynnydd yn erbyn y Cynllun Blynyddol blaenorol am 2022-2023, trosolwg o themâu diogelu a ddeilliodd o'r Adolygiadau Arfer Oedolion a Phlant diweddar, a golwg ehangach ar yr hyn oedd ar y gorwel. Dyma'r tair blaenoriaeth a'r deilliannau a ddaeth ohonynt:


1. **Diogelu'r Sylfeini** – Mae'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol yn cefnogi gwelliant strategol, partneriaethau effeithiol a datblygu'r gweithlu i sicrhau bod sylfeini diogelu yn cael eu cryfhau ar draws y rhanbarth
2. **Adolygiadau Diogelu Effeithiol** - Mae'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol yn sicrhau bod prosesau adolygu effeithiol a bod gwersi o adolygiadau yn cael eu gweithredu ar draws y bartneriaeth.
3. **Ymateb i Themâu Diogelu** – Mae'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol yn ymateb yn effeithiol i themâu diogelu sy'n dod i'r amlwg ac yn cefnogi cydgordio ymateb amlasiantaethol effeithiol.




Mae'r argyfwng costau byw wedi amlygu eto fod menywod yn dioddef yn fwy negyddol na dynion oherwydd bod eu pŵer economaidd a chymdeithasol cymharol yn llai na'r rhan fwyaf o ddynion. Er enghraifft, yn ôl ffigyrau'r SYG am 2021, er bod mwy o fenywod na dynion yn byw yng Nghaerdydd (pob oed ), mae llai o fenywod mewn gwaith, mae menywod yn derbyn llai o gyflog, mae mwy o fenywod yn ofalwyr (di-dâl) a llai yn rhedeg cwmnïau neu BBaCh.

Yng nghyfarfod llawn y Cyngor ar 30 Mawrth 2023, mabwysiadodd Cyngor Caerdydd gynnig i ddatgan y brifddinas yn **Ddinas am CEDAW**. CEDAW yw Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Ddileu pob ffurf ar Gamwahaniaethu yn Erbyn Menywod, sydd yn rhoi fframwaith, gweithredoedd ac egwyddorion y gall Cyngor Caerdydd eu cymryd sydd yn asio gyda ac yn cefnogi nodau Deddf VAWDASV (Cymru) 2015.

Mae ymrwymiad yng nghynllun corfforaethol y Cyngor i fabwysiadu egwyddorion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Ddileu pob ffurf ar Gamwahaniaethu yn Erbyn Menywod erbyn mis Hydref 2023. Caiff ymrwymiadau Dinas am CEDAW Caerdydd eu hymgorffori yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol diwygiedig y Cyngor a'u Strategaeth Gweithlu, a bydd camau a datblygiadau yn dilyn. Datblygir cynllun datblygu llawn i gyflwyno'r ymrwymiad hwn.





Nododd Cyngor Caerdydd yr amcanion penodol a ganlyn yn eu cynllun strategol pum-mlynedd, '**Cryfach, Tecach, Gwyrddach' 2022**:

- Gweithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â phob ffurf ar VAWDASV a gweithredu i gryfhau'r gefnogaeth sydd ar gael i ddioddefwyr, gan gynnwys cytuno ar Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Camdriniaeth Ddomestig a Thrais Rhywiol wedi'i chyfoesi, a chynnal adolygiad llawn o lochesi yn y ddinas.
- Gweithredu Agwedd Ysgol-Gyfan at atal trais a chamdriniaeth seiliedig ar ryw mewn lleoliadau addysg ac eraill i ieuenctid.
- Amddiffyn pobl ifanc fregus rhag camfanteisio ac ymdrin â'r cynnydd diweddar mewn trais gan ieuenctid trwy ddatblygu agwedd gadarn, integredig, a arweinir gan ddata, ar draws y Cyngor a gwasanaethau sy'n bartneriaid ac sy'n gweithio gyda phobl ifanc.

**Byddwn yn gwneud y canlynol:**
Helpu i ddatblygu a rhoi ar waith gynllun gweithredu Dinas am CEDAW.

# Rhyngadranoldeb





Mae profiadau ac anghenion goroeswyr yn cael eu llunio gan wahanol agweddau o'u hunaniaethau a sut y mae hyn yn eu gosod yn strwythurau pŵer cymdeithas. Ym 1989, dyfeisiodd Kimberley Crenshaw[1] y term **Rhyngadranoldeb** i ddisgrifio'r profiadau o rywiaeth a hiliaeth a ddaw i ran menywod Du. Gan gydnabod fod profiad menywod Du o hiliaeth yn sylweddol wahanol i brofiad dynion Du a bod eu gorthrymu fel menywod yn wahanol i'r hyn sy'n digwydd i fenywod gwyn, mae'n tynnu sylw at y ffordd wahanol y mae eu hunaniaethau yn rhyngweithio. Ers hynny, bu rhyngadranoldeb yn lens ddefnyddiol i ddeall ac ymdrin ag anghenion cymunedau ymylol eraill a chymhlethdod y camwahaniaethu a'r anfantais a ddaw i'w rhan.

# Y Model Ecolegol

Nid yw VAWDASV yn anorfod, ac y mae ein strategaeth yn rhoi'r un arwyddocâd ar weithio yn gynnar i atal VAWDASV rhag digwydd ag y mae ar drin canlyniadau camdriniaeth, cefnogi goroeswyr a mynd ar ôl y troseddwyr.

Yr ydym ni'n cymhwyso'r model ecolegol sydd yn amlinellu sut y mae credoau ac agweddau unigol sy'n goddef VAWDASV yn cael eu llunio gan strwythurau ehangach cymdeithas, a'r disgwyliadau cymdeithasol sydd yn parhau â stereoteipiau ac anghydraddoldeb niweidiol. Mae'r agweddau hyn yn cael eu ffurfio mewn teuluoedd a grwpiau cyfoedion ac yn dod dan ddylanwad disgwyliadau cymdeithas am rôl dynion a menywod mewn cymdeithas. Fe'u hategir ymhellach gan y fframwaith polisi a deddfwriaethol.

Er mwyn mynd i'r afael â VAWDASV, mae angen ymateb amlasiantaethol strategol ar sawl lefel – unigol, rhyngbersonol, cymuned a chymdeithas:


Cymdeithas
Cymuned
Unigol
Syrfëwr
Atal
Ymdrin
Cefnogi
Anddiffyn
Arweiniad strategol ac ymrwymiad i fynd i'r afael â VAWDASV
Gosod atebolrwydd ar y troseddwyr mewn ymatebion strategol
Gwella sgiliau gweithwyr proffesiynol a chymunedau
Rhaglenni cymunedol i'r sawl sy'n achosi niwed
Mentrau Gwyliedyddion
Addysgu unigolion am gamdriniaeth (e.e. ACRh)
Ymatebion y system cyfiawnder troseddol i droseddwyr
Dynion i gymryd rôl ragweithiol mewn herio VAWDASV
(Ail)adeiladu rhwydweithiau cefnogi
Mwy o gyfleoedd i ddatgelu
Mesurau Diogelwch
Diogelu plant ac oedolion mewn perygl
Cefnogaeth therapiwtig a seicoaddysgol
Cefnogaeth mewn argyfwng
Rhwymedïau Cyfreithiol i Warchod
Adsefydlu yn y gymuned
Cynadleddau Amlasiantaethol Asesu Risg
Ymwneud a gweithredu gan oroeswyr
Newidiadau deddfwriaethol



# Pennod 1

# PARATOI

# Un Rhanbarth – Dwy Gymuned

Er bod y ddwy ardal yn ddaearyddol agos, mae Caerdydd a Bro Morgannwg yn wahanol o ran daearyddiaeth unigol a'u poblogaeth. Ers y cyfrifiad diwethaf yn 2011, tyfodd poblogaeth Caerdydd o 4.7% (y twf poblogaeth ail uchaf yng Nghymru) ac o 4.3% ym Mro Morgannwg (y pedwerydd twf poblogaeth uchaf).

Fel rhanbarth, yr ydym yn cydnabod anghenion ein gwahanol gymunedau ac yn cydnabod gwaith caled ein partneriaid wrth ymateb i'r gwahaniaethau unigryw hyn.

## Caerdydd

Mae gan Gaerdydd yn unig y boblogaeth uchaf a'r dwysedd poblogaeth uchaf yng Nghymru gyda 2,572 o drigolion y km2, a chan y Fro dros ddwywaith cyfartaledd Cymru (150) sef 398 (Cyfrifiad 2021).

Mae ganddi economi nos ffyniannus, poblogaeth fawr o fyfyrwyr, cymunedau Du a lleiafrifol (86,019 o unigolion) a phoblogaeth LHDTC+ (21,851 o unigolion). O ganlyniad, gall llawer o ddioddefwyr a'r sawl sy'n cyflawni VAWDASV fod yn newydd-ddyfodiaid neu'n ymwelwyr â'r ddinas, a heb fod yn ymwybodol o wasanaethau ac ymyriadau lleol, sy'n eu gwneud yn agored i ddioddef trawma a bod yn ddioddefwyr eto.

Gall presenoldeb gwahanol gymunedau olygu bod rhai mathau o gamdriniaeth yn digwydd yn amlach, megis Camdriniaeth Seiliedig ar Anrhydedd (CSA) gan gynnwys Anffurfio Organau Cenhedlu Menywod (AOCM), camfanteisio rhywiol, masnachu mewn pobl a chaethwasiaeth fodern, aflonyddu rhywiol achamdriniaeth rywiol cysylltiedig ag economi'r nos.



Arweiniodd hyn at wasanaethau sydd wedi eu targedu ac sy'n ymateb i angen, ond hefyd yn ymwneud â chymunedau i godi ymwybyddiaeth.

## Bro Morgannwg

Bro Morgannwg a welodd y cynnydd ail fwyaf yn y boblogaeth dros 65 oed ers y cyfrifiad diwethaf. Efallai y bydd pobl hŷn yn fwy bregus oherwydd nam gwybyddol, a'u bod yn wynebu rhwystrau fel canfyddiad nad iddynt hwy y mae gwasanaethau; stigma; ac ofn y canlyniadau.

Mae poblogaeth Bro Morgannwg yn dueddol o fod yn fwy gwasgaredig mewn cymunedau gwledig. Mae ymchwil gan Rwydwaith Cenedlaethol Troseddau Gwledig yn awgrymu bod troseddwyr yn manteisio ar natur wledig ac ynysig i ynysu eu dioddefwyr. Canlyniad hyn yw bod camdriniaeth yn para ar gyfartaledd 25% yn hwy, gan gynyddu'r risg o niwed - "po fwyaf gwledig y lleoliad, uchaf yw'r risg o niwed."
Mae'n hanfodol deall y boblogaeth leol er mwyn cynllunio gwasanaethau ac ymyriadau gan gadw eu hanghenion penodol mewn cof. Mae'n werth cydnabod y gall goroeswyr camdriniaeth ddomestig fod yn ffoi o unrhyw ardal yn y wlad a'u rhwydweithiau cenfogi. O'r herwydd, efallai y deuant ar draws rhwystrau ac unigrwydd ac y bydd arnynt angen mwy o gefnogaeth.


Yn yr un modd, gall y boblogaeth leol fod yn teithio i Gaerdydd am waith a hamdden. Efallai na fydd eu profiadau o gamdriniaeth yn y lleoliadau hynny yn ymddangos yn yr ystadegau lleol am droseddau, er bod goroeswyr yn dibynnu ar wasanaethau lleol am gefnogaeth.



Dadansoddiad bras yw hwn o anghenion y boblogaeth yn y rhanbarth ac ni ddylid anwybyddu'r ffaith fod pocedi o wahanol gymunedau yn y naill ranbarth a'r llall.

# Trosolwg Rhanbarthol

Mae rhanbarth Caerdydd a Bro Morgannwg yn ymestyn dros ryw 475 kilometr sgwâr ac yn cynnwys 41 ward wahanol (13 ym Mro Morgannwg a 28 yng Nghaerdydd).




















Yng Nghyfrifiad 2021, roedd cyfanswm poblogaeth o 494,200; yn cynnwys 352,100 o gartrefi. Mae'r dadansoddiad canlynol ar gyfer oedolion (19+) a phlant a phobl ifanc (o dan 19 oed).








Mae cynllunio a chomisiynu gwasanaethau yn dibynnu ar ddata cadarn sy'n sail i'n dealltwriaeth o anghenion goroeswyr fel y gallwn dargedu adnoddau yn briodol a lleihau dyblygu. Mae hyn yn cynnwys:

- Data poblogaeth
- Cefndir ac anghenion defnyddwyr gwasanaeth
- Gwasanaethau a gyflwynir
- Bylchau mewn darpariaeth
- Tueddiadau a newidiadau
- Cyfraniadau gan arbenigwyr o brofiad a gweithwyr proffesiynol




**Byddwn yn gwneud y canlynol:**
Gweithio gyda phartneriaid ar draws y rhanbarth i wella casglu a dadansoddi data yn barhaus.

# Data Rhanbarthol

## RHYW

Mae'r rhaniad rhyw yn y rhanbarth yn lled gyfartal gyda menywod yn 51% o'r boblogaeth a dynion 49%.

## OEDRAN

Y grŵp oedran 20-24 yw'r mwyaf o hyd, mae poblogaeth y rhanbarth yn heneiddio, gyda thuedd tuag i fyny ym mhob grŵp dros 50 oed. Y grŵp oedran 70-74 welodd y cynnydd mwyaf sylweddol (cynnydd o 34% yng Nghaerdydd a chynnydd o 41% ym Mro Morgannwg) ers Cyfrifiad 2011. Bu twf y boblogaeth 65+ ym Mro Morgannwg yn arbennig o amlwg yn y Fro Orllewinol. Bydd y twf cyfredol a'r hyn a ragfynegir ym mhoblogaeth hŷn yr ardal yn arwain at dwf yn nifer y bobl hŷn gydag anghenion gofal cymhleth a mwy o alw am wasanaethau iechyd a gofal.

## RHYWIOLDEB/HUNANIAETH RHYWEDD

Caerdydd sydd â'r boblogaeth fwyaf yng Nghymru sydd yn uniaethu fel LHDTC+, 5.34%, a'r ffigwr am Fro Morgannwg yw 3.07% (Cyfrifiad 2021).

## ANABLEDD

Mae tua 1 o bob 5 o bobl yn y rhanbarth yn anabl. Mae bron i 1 o bob 10 (8.6% ym Mro Morgannwg a 9.5% yng Nghaerdydd yn anabl dan Ddeddf Cydraddoldeb ac roedd 'eu gweithgareddau beunyddiol wedi eu cyfyngu lawer' (Cyfrifiad 2021).

## YR IAITH GYMRAEG

Mae nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd sy'n 3 oed a hŷn wedi cynyddu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf. Yn ôl Arolwg Blynyddol y Boblogaeth 2022, gan Gaerdydd y mae'r nifer uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru (102,400). Mae hyn yn 28.5% o boblogaeth Caerdydd. Mae nifer y bobl dros 3 oed all siarad Cymraeg ym Mro Morgannwg yn 25,900 (20.7%).


## Y LLUOEDD ARFOG


Yn 2011, Bro Morgannwg oedd â'r boblogaeth fwyaf yn y Lluoedd Arfog yng Nghymru. 1,102 o ddynion a 41 menyw 16+ oed. Mae'r boblogaeth yn gysylltiedig â chanolfan y Weinyddiaeth Amddiffyn yn Sain Tathan.

## ETHNIGRWYDD

Newidiodd cyfansoddiad ethnig y boblogaeth yn y rhanbarth yn sylweddol dros y ddegawd ddiwethaf.

Yn ôl cyfrifiad 2021, mae 21% o'r boblogaeth yng Nghaerdydd o gefndir Du a lleiafrifol (i fyny o 15% yn 2011).





Mae mwy nag 1 o bob 3 (36%) o blant yng Nghaerdydd o gefndir ethnig lleiafrifol.

Cynyddodd y boblogaeth Ddu a lleiafrifol ym Mro Morgannwg o 50%. Cododd o 3.6% o gyfanswm y boblogaeth yn 2011 i 5.4% o'r boblogaeth yn 2021. Bu newidiadau sylweddol hefyd yn y grefydd a nodwyd gan drigolion. Yn 2001, dywedodd mwyafrif yr ymatebwyr (73%) eu bod yn Gristnogion. Yn 2011, cwympodd y gyfran i 58.1%.

## GWEITHGAREDD ECONOMAIDD

Mae nifer y sawl sy'n economaidd weithredol yn y rhanbarth wedi codi fymryn, ond oherwydd i'r boblogaeth gynyddu ar yr un pryd, cwympo wnaeth y ganran. (Cyfrifiad, 2021). Mae'r diffiniad o 'economaidd weithredol' yn yr achos hwn yn cynnwys y rhai mewn gwaith a myfyrwyr llawn-amser.

| Trigolion Economaidd Weithredol (Caerdydd a'r Fro) | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ardal | Gweithredol 2011 | Gweithredol 2021 | Gweithredol 2011 | Gweithredol 2021 | % newid |
| Caerdydd | 160,377 | 160,440 | 56.6% | 54.1% | -2.5% |
| Bro Morgannwg | 59,274 | 59,915 | 57.8% | 55.8% | -2% |

# Data Rhanbarthol

## CIPLUN

Cofnododd Heddlu De Cymru 11,347 o ddigwyddiadau cysylltiedig â chamdriniaeth ddomestig yn 2018/19 a 10,138 yn 2021/22. Cofnodwyd cyfanswm o 1,127 o droseddau caethwasiaeth fodern, trais, ymosod rhywiol a stelcian (heb fod yn ddomestig) yn 2018/19 a 1,436 yn 2021/22.

Derbyniodd y gwasanaeth RISE yng Nghaerdydd, Gwasanaethau Camdriniaeth Ddomestig y Fro (a adwaenid gynt fel Atal y Fro) a phrosiect DYN i ddioddefwyr gwryw yn y rhanbarth gyfeiriadau ar gyfer 7,313 o oroeswyr camdriniaeth ddomestig yn 2019/20 a 7,975 yn 2020/21, cynnydd o 9%.

| Cyfeiriadau | 2019/20 | 2020/21 |
|---|---|---|
| Nifer Rhybuddion Gwarchod y Cyhoedd (PPN) | Methu gwirio | 9,636 |
| Cynhadledd Amlasiantaethol Asesu Risg (MARAC) | 897 | 1,003 |
| RISE | 6,263 Cyfeiriadau<br>1,158 Risg uchel | 6,725 Cyfeiriadau<br>1,475 Risg uchel |
| Gwasanaethau Camdriniaeth Ddomestig y Fro | 843 Cyfeiriadau<br>427 Risg uchel | 1,054 Cyfeiriadau<br>553 Risg uchel |
| Prosiect DYN | 207 | 196 |
| Eiriolwr Iechyd Annibynnol Trais Domestig | 259 | 453 |

## DIODDEFWYR GWRYW

Gall dynion ddioddef camdriniaeth ddomestig a thrais rhywiol. Ar sail cyflwyniadau Rhybuddion Gwarchod y Cyhoedd (PPN) yn 2020/21 yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg, mae tua 20% (2,021) yn ddynion ac 80% (8,609) yn fenywod. Sylwer fod RhGC yn cael eu cyflwyno lle bo pryder, ac efallai nad oes trosedd wedi digwydd. Hefyd, fe all y ffigyrau hyn gynnwys dioddefwyr ailadroddus a dylid bod yn ofalus felly wrth eu dehongli. Yn 2017, dynion oedd 4% o'r achosion a drafodwyd yng Nghynhadledd Amlasiantaethol Asesu Risg (MARAC) Caerdydd a dynion oedd 5% o'r achosion a drafodwyd ym MARAC Bro Morgannwg.Derbyniodd y gwasanaeth Eiriolwr Iechyd Annibynnol Trais Domestig (IDVA) TIP Caerdydd a'r fro 66 o gyfeiriadau am ddynion yn honni camdriniaeth yn 2020/21. Dynion yw'r troseddwyr yn y rhan fwyaf o achosion.

## TRAIS RHYWIOL

Yn 2019/20, derbyniodd y ganolfan cyfeirio ymosodiadau rhywiol (SARC) 465 o gyfeiriadau a gododd i 737 yn y flwyddyn ganlynol. Roedd hyn yn cynnwys 19 o blant yn 2019/20 a 118 o blant yn 2020/21. Cododd nifer y plant ar Gofrestr Amddiffyn Plant Caerdydd oherwydd camdriniaeth rywiol o 25 yn 2019/20 i 54 yn 2020/21 sydd yn gynnydd o 116%. Mae cyfran y niferoedd cyffredinol gyda'r ffactor hon hefyd wedi cynyddu o 2.64% o'r holl gofrestriadau i 7.61% o'r holl gofrestriadau oherwydd camdriniaeth rywiol.

## NODWEDDION SY'N PERI MWY O RISG

Gall unigolion gyda nodweddion penodol fod â mwy o risg o gael eu cam-drin a gallant wynebu rhwystrau ychwanegol sy'n gorgyffwrdd rhag ceisio help. Gall hyn gynnwys menywod Du a lleiafrifol, ceiswyr lloches a ffoaduriaid, pobl anabl a phobl hŷn.

- Bob blwyddyn mae gwasanaeth VAWDASV Caerdydd, RISE, yn cefnogi tua 400 o oroeswyr Du a lleiafrifol.
- Yng Nghaerdydd, mae prosiect StreetLife wedi gweithio gyda thros 150 o unigolion sy'n dioddef camfanteisio trwy fod yn rhan o'r diwydiant rhyw, ond mae'n debyg mai tanamcangyfrif yw'r ffigwr, o ystyried na fydd llawer yn dod i sylw'r awdurdodau a'r gwasanaethau.
- Mae tua 10% o oroeswyr trais rhywiol a aeth at y ganolfan gyfeirio trais rhywiol rhanbarthol (SARC) yn LHDTC+ gyda thuedd tuag i fyny yn nifer y goroeswyr traws.

# Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Gan weithio i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a ddiwygiwyd ymhellach gan Fesur yr Iaith Gymraeg 2011, mae'r holl bartneriaid yn y rhanbarth yn cadw mewn cof sut y maent yn ymateb i anghenion amrywiol dioddefwyr gan gynnwys sut y maent yn ymwneud â dioddefwyr (gan gynnwys plant) â nodweddion gwarchodedig ac yn cwrdd â'u hanghenion. Mae partneriaid yn rhannu'r gwerthoedd o fod yn agored eu meddyliau ac yn barchus, ac ymrwymo i gydraddoldeb ac amrywiaeth, gan gydnabod natur unigol a chydnabod nad yw pobl yn un grŵp unfath o ddioddefwyr.

| | |
|---|---|
| **Oedran** | • Cydnabod a deall effeithiau VAWDASV ar bobl hŷn sy'n ceisio cefnogaeth a theilwrio gwasanaethau yn briodol.<br>• Cyflwyno ystod o ymyriadau therapiwtig priodol i oedran i blant a phobl ifanc. |
| **Anabledd** | • Sicrhau mynediad cyfartal at wasanaethau, yn enwedig gwybodaeth a chyngor ac mewn cefnogaeth seiliedig ar lety.<br>• Datblygu llwybrau cyfeirio at gefnogaeth arbenigol arall megis gwasanaethau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau. |
| **Ailbennu Rhywedd** | Bod â pholisiau a gweithdrefnau clir i gyflwyno gwasanaethau i ddioddefwyr trawsryweddol, yn enwedig mewn llety a rennir ac mewn gwaith grŵp - o ran cadw'r dioddefwr yn ddiogel a rheoli unrhyw effaith. |
| **Beichiogrwydd a Mamolaeth** | Dylai gwasanaethau a ddarperir gydnabod a deall sut y mae VAWDASV yn effeithio ar les y goroeswr ei hun a'i gallu i ffurfio atyniad cadarnhaol a bod yn rhiant effeithiol i'w phlant. |
| **Hil** | Darparu gwasanaethau sensitif a phriodol i bob goroeswr ond yn benodol i'r sawl o gefndir Du a lleiafrifol a all wynebu rhwystrau ychwanegol a all effeithio ar eu gallu i geisio help a chefnogaeth ac a all fod ag anghenion ychwanegol. |
| **Crefydd/Cred** | Bod yn ymwybodol o wahanol ofynion crefydd/cred goroeswr a chwrdd â'r anghenion hynny lle bo modd, er enghraifft, defnyddio ystafelloedd gweddi/myfyrio mewn llety gyda chefnogaeth. |
| **Rhyw** | • Cyflwyno gwasanaethau ar sail dealltwriaeth rhywedd o VAWDASV i adlewyrchu Deddf Trais yn Erbyn Menywod, Camdriniaeth Ddomestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.<br>• Sicrhau bod plant o unrhyw ryw neu rywedd gyda dioddefwr yn cael y gefnogaeth briodol a mentora cadarnhaol. |
| **Cyfeiriadedd Rhywiol** | Cydnabod a deall effeithiau cyfeiriadedd rhywiol ar y gamdriniaeth a ddaw i ran goroeswyr LHDTC+. |
| **Yr Iaith Gymraeg** | Hwyluso ymateb i ymholiadau cychwynnol yn y Gymraeg fel lleiafswm a sicrhau bod yr holl ddeunydd cyhoeddusrwydd am wasanaethau yn ddwyieithog. |

**Trosolwg o gydraddoldeb ac amrywiaeth**



Cydraddoldeb yw pawb yn cael pâr o esgidiau



Amrywiaeth yw pawb yn cael math gwahanol o esgid



Tegwch yw sy'n cael pâr o esgidiau sy'n ffitio



Derbyn yw deall ein bod oll yn gwisgo gwahanol fathau o esgidiau



Perthyn yw gwisgo'r esgidiau yr ydych eu heisiau heb ofni cael eich barnu

## Pobl Hŷn

Ar hyn o bryd, nid yw demograffeg goroeswyr sy'n cyrchu gwasanaethau yn adlewyrchu demograffeg y rhanbarth, gyda'r grŵp oedran 25-34 yn cael eu gorgynrychioli mewn gwasanaethau a'r rhai dros 65 wedi eu tangynrychioli. **Byddwn yn cefnogi Glasbrint Llywodraeth Cymru i sicrhau fod goroeswyr o bob oed yn derbyn y gefnogaeth mae arnynt ei angen.**

## LHDTC+

Mae profiadau goroeswyr LHDTC+ o VAWDASV yn wahanol oherwydd eu hunaniaeth (e.e. yn cael ei ddefnyddio i'w cam-drin) ac fe'i gwaethygir oherwydd eu hunaniaeth (e.e. profi camdriniaeth yn y teulu ac mewn perthynas). Ein hagwedd yn y rhanbarth yw gwella ein dealltwriaeth ac ymateb i'r cymhlethdodau ychwanegol hyn wrth gefnogi goroeswyr LHDTC+.

## Du a lleiafrifol

Yr ydym yn cydnabod fod angen i ni wneud mwy i ennyn ffydd gyda chymunedau sy'n cael eu tangynrychioli ar hyn o bryd ymysg y sawl sy'n cyrchu gwasanaethau, megis y cymunedau Tsieineaidd, Fietnamaidd, Pwyliaid, Sipsiwn a Theithwyr, yn ogystal â chymunedau a gyrhaeddodd yma yn fwy diweddar megis ffoaduriaid o Wcráin ac Afghanistan (gweler t.60).

## Dynion

Mae partneriaid sy'n gweithio ledled Caerdydd a'r Fro yn dal yn ymrwymedig i gefnogi dynion fel dioddefwyr DASV, o ran cydnabod camdriniæth pan mae'n digwydd a chyrchu gwasanaethau pri-odol am gefnogaeth.Byddwn yn parhau â chynllun peilot Prosiect Cedar i ddioddefwyr gwrywer mwyn caffael gwasanaeth unswydd.

## Anabledd

Dangosodd Arolwg Troseddau Cymru a Lloegr, ymysg oedolion 16 i 74 oed yn y flwyddyn yn diweddu Mawrth 2020, fod pobl anabl yn fwy na dwywaith yn fwy tebygol o fod yn ddioddefwyr camdriniaeth ddomestig, stelcian neu drais na phobl heb anabledd, ac eto, eu bod yn aml yn anweledig i wasanaethau yn y rhanbarth. **Byddwn yn ceisio deall anghenion a rhwystrau penodol i gefnogaeth sy'n dod i ran goroeswyr anabl er mwyn gwella mynediad.**


## Plant a Phobl Ifanc

Mae partneriaid a goroeswyr yn cydnabod fod angen cefnogi ein plant a'n pobl ifanc, a bod angen ei dysgu a'u hamddiffyn. Mae hyn yn cynnwys codi ymwybyddiaeth o'r ffaith fod ganddynt hawl i gael perthynas ddiogel, iach a hapus.
Byddwn yn cefnogi gweithredu'r cwricwlwm Addysg Cyd-berthynas Rhywioldeb (ACRh) yn y rhanbarth er mwyn hyrwyddo dealltwriaeth plant a phobl ifanc o gydsyniad, perthynas iach a pharchus.

# Gwasanaethau Arbenigol sydd ar gael yn Rhanbarthol

MDengys mapio gwasanaethau ar draws y rhanbarth ar hyn o bryd mai dyma sydd ar gael:

- 1 Siop Un Stop (Caerdydd yn unig)
- 62 Eiriolwr Trais Domestig Annibynnol (IDVA) a 12 Eiriolwr Trais Rhywiol Annibynnol (ISVA)
- 89 uned o lety arbenigol
- 1 darparwr 2 ymyriad gyda throseddwyr yn y gymuned
- 3 darparwr 3 rhaglen ymyriad cynnar i'r sawl sy'n niweidio
- 3 ystafell tystiolaethu o bell
- Hyfforddiant IRIS+, cefnogaeth eiriolaeth a rhaglen gyfeirio i 57 practis meddyg teulu




**Cymru Ddiogelach**
· Llinell gymorth / gwasanaeth cenedlaethol Dyn i ddioddefwyr gwryw
· Prosiect Streetlife i weithwyr rhyw ar y stryd
· Gwasanaeth Cymru Ddiogelach a gwasanaeth Pathfinder Prawf i fenywod

Mae **Llwybrau Newydd** yn darparu cwnsela am gamdriniaeth rywiol gyfredol a heb fod yn ddiweddar i fenywod, dynion a phlant

Caerdydd a'r Fro
5 staff IDVA seiliedig ar iechyd gan gynnwys darpariaeth i bobl ifanc

**Prosiect Cedar** - Gwasanaeth llety a chefnogaeth ranbarthol i ddioddefwyr gwryw

· Canolfan Gyfeirio Ymosodiadau Rhywiol Rhanbarthol **(SARC)**
· **Clinig Lles Menywod**

Mae **RISE** yn cyflwyno gwasanaeth VAWDASV i ddioddefwyr benyw gan gynnwys Siop Un Stop, ystod o lety / llochesi mewn argyfwng, cefnogaeth symudol, cefnogaeth arbenigol i blant a phobl ifanc, IPAs a gwaith therapiwtig.

Mae **Bawso** yn darparu gwasanaethau am briodi trwy orfodaeth, masnachu mewn pobl, ac AOCM

Mae **Cymorth i Fenywod Caerdydd - Canolfan Menywod** yn darparu gwaith grŵp, cefnogaeth cyfoedion a chefnogaeth therapiwtig ac amrywiaeth o wasanaethau i blant a phobl ifanc gan gynnwys: gwaith 1:1 a grŵp, cefnogaeth i APVA, arbenigedd yn yr arddegau ac ymyriadau i fechgyn/dynion ifanc ar fisogyniaeth.

Mae **Gwasanaethau Camdriniaeth Ddomestig y Fro** yn darparu llochesi symudol a sefydlog, cefnogaeth IDVA, tîm ymateb i gamdriniaeth ddomestig, amrywiaeth o wasanaethau i blant a phobl ifanc a Chanolfan Lles y Fro sy'n arwain ar ymwneud â'r gymuned a goroeswyr.


Llys Trais Domestig Arbenigol Rhanbarthol **(SDVC)**

Mae **Safer Merthyr Tydfil (SMT)** yn cyflwyno rhaglenni DRIVE a Driving Change i droseddwyr a rhaglen ymyriad cynnar CLEAR i'r sawl sy'n ymddwyn yn niweidiol

# Llywodraethiant


Mae'r diagram isod yn rhoi'r strwythur llywodraethiant y bwriedir ei fabwysiadu yn y rhanbarth. Bydd peth adrodd yn dal i ddigwydd trwy drefniadau llywodraethiant a goruchwylio yr awdurdodau lleol. Cedwir golwg barhaus ar y strwythur rhanbarthol, a'i adolygu er mwyn cadw'n unol â strwythurau perthnasol eraill. Bydd gan bob is-grŵp gyfrifoldeb dros wahanol elfennau o'r cynllun cyflwyno, gan arwain arnynt, a byddant yn adrodd i'r Grŵp Gweithredol yn chwarterol.

- Yr ydym yn gweithredu'r argymhellion y cytunwyd arnynt o'r adolygiad Bywydau Diogel ac y mae gennym un Grŵp Llywio MARAC i'r rhanbarth.
- Bydd panel yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl yn cymryd lle'r Panel Adolygu Lladdiadau Domestig, ac yn bwydo i mewn i'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol.
- Bydd partneriaid yn dal i gefnogi gwaith i fynd i'r afael â VAWDASV ledled de Cymru trwy Grwpiau Adrodd Comisiynydd Heddlu a Throsedd De Cymru.
- Byddwn yn cefnogi gweithredu strategaeth genedlaethol VAWDASV Llywodraeth Cymru trwy agwedd y glasbrint, ffrydiau gwaith a grwpiau arweinyddiaeth.
- Parheir i fwydo materion VAWDASV i mewn i drefniadau llywodraethiant rhanbarthol a chyffredinol eraill (Bwrdd Diogelu Rhanbarthol, Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a Bwrdd Cydweithredol Rhanbarthol Cefnogi Tai).



# Agwedd Gomisiynu Ranbarthol

**Bydd pobl yn anghofio yr hyn ddywedoch chi, bydd pobl yn anghofio yr hyn wnaethoch chi, ond fydd pobl byth yn anghofio sut y gwnaethoch iddyn nhw deimlo. - Maya Angelou**




Mae'r rhanbarth yn ffodus o gael ystod o ffynonellau cyllid i helpu i roi prawf ar ffyrdd newydd o weithio ac i gynnig contractau ystyrlon i gyflwyno gwasanaethau allweddol.

Daw'r rhan fwyaf o'r cyllid ar gyfer gwasanaethau VAWDASV o Grant Cefnogi Tai Llywodraeth Cymru sy'n talu am staffio llochesi a gwasanaethau cefnogaeth symudol. Yn yr un modd, mae Comisiynydd Heddlu a Throsedd De Cymru yn cyfrannu'n helaeth i'r rhanbarth trwy reoli ei gyllid ei hun ac, yn fwy diweddar, cyllid gan y Swyddfa Gartref/Y Weinyddiaeth Gyfiawnder.


Mae unrhyw gyllid cyfalaf fel arfer yn dod trwy Lywodraeth Cymru ac y mae'r rhanbarth wedi elwa fel hyn dros y blynyddoedd diwethaf. Cyngor Caerdydd sy'n gweithredu fel y Banciwr Rhanbarthol i arian yComisiynydd Heddlu a Throsedd ac y mae'n gyfrifol am reoli grantiau bwrw ymlaen yn sgil hynny neu gontractau gyda darparwyr arbenigol.

## Ansawdd Cefnogaeth


Mae gan oroeswyr yr hawl i gefnogaeth o safon ledled y rhanbarth, waeth at ba wasanaeth a gomisiynwyd yr ânt i gael cefnogaeth. Yr ydym wedi ymrwymo i sicrhau bod y gwasanaethau y byddwn yn eu comisiynu yn cael eu hachredu trwy safonau'r sector perthnasol am wasanaethau VAWDASV arbenigol sy'n gweithio fel mecanwaith sicrhau ansawdd annibynnol. Mae'n werth nodi nad oes ar hyn o bryd unrhyw safonau ansawdd ar gyfer gwasanaethau sy'n gweithio gyda goroeswyr camfanteisio rhywiol.

| Achredu | Camdriniaeth Ddomestig | Trais Rhywiol | DLlE | Dioddefwyr gwryw | Troseddwyr |
|---|---|---|---|---|---|
| Safonau Ansawdd Gwasanaeth Cenedlaethol Cymorth i Fenywod | ✓ | | | | |
| Isafswm safonau arfer diogel Imkaan | ✓ | | ✓ | | |
| Safonau Gwasanaeth Cenedlaethol (Argyfwng Trais Cymru a Lloegr) | | ✓ | | | |
| Safonau Ansawdd Lime Culture ar gyfer:<br>• Gwasanaethau Ymgynghorydd Annibynnol Trais Rhywiol<br>• Gwasanaethau sy'n Cefnogi Dioddefwyr Gwryw | | ✓ | | ✓ | |
| • Safonau Parch (Troseddwyr)<br>• Safonau Parch Dioddefwyr Gwryw | | | | ✓ | ✓ |
| Safonau Gwasanaethau Troseddwyr Llywodraeth Cymru | | ✓ | | | ✓ |
| Safonau Gwasanaeth Cenedlaethol y Survivor Trust (TST) | | | | | |

# Ymgynghori â Goroeswyr



# Ymgynghori â Goroeswyr




Bu gwir lais dioddefwyr a goroeswyr yn ganolog i ddatblygu'r strategaeth hon a bydd yn rhan o'n holl waith yn y dyfodol. Roedd 'Caffi Sgwrs' lle daeth dioddefwyr a goroeswyr gwryw a benyw o bob cwr o'r rhanbarth yn gyfle i ymgorffori adborth ar draws pob un o'r 5 Nod. Roedd y diwrnod yn fodd pwerus o atgoffa am yr angen i ganoli gwir leisiau dioddefwyr a goroeswyr a chrëwyd y darlun hwn i adlewyrchu eu hadborth.

# Lleisiau Arbenigol




Yn ychwanegol at yr arweinwyr strategol yn y rhanbarth, mae ein strategaeth a'n gwaith yn seiliedig ar leisiau arbenigol, gan weithwyr proffesiynol, academyddion a'r sawl sydd ag arbenigedd trwy brofiad byw.

## Arbenigedd Profiadau Byw

Mae goroeswyr wrth galon popeth a wnawn. Roedd cyfraniadau goroeswyr yn hollbwysig wrth ddatblygu'r strategaeth hon ac y mae eu lleisiau yn yr ymrwymiadau, ar ffurf dyfyniadau yn y ddogfen drwyddi draw. Byddwn yn parhau i sicrhau bod y fframweithiau a'r mecanweithiau priodol ar gael er mwyn gofalu bod lleisiau goroeswyr yn rhan annatod o gyflwyno'r strategaeth.

Mae lleisiau a chynrychiolaeth amrywiol yn allweddol er mwyn sicrhau ein bod yn creu ymatebion sydd wedi eu teilwrio i anghenion unigol a'n bod yn estyn allan at y rhai mwyaf difreintiedig ac ymylol. Mae hynny'n cynnwys plant a phobl ifanc, y gymuned LHDTC+ a phobl hŷn, ond byddwn yn ehangu hyn fel sy'n briodol.

**"Cynnal mwy o ddigwyddiadau i wrando ar y goroeswyr am nad oes neb wedi gwrando arnynt ac y maent wedi eu tawelu ers blynyddoedd lawer" - Goroeswr VAWDASV**

## Arbenigedd proffesiynol ac academaidd

Ymdrech ar y cyd yw'r strategaeth hon rhwng partneriaid statudol a'r trydydd sector. Yn ogystal â goroeswyr gyda phrofiad byw o VAWDASV, byddwn yn parhau i alw ar weithwyr proffesiynol yn y maes i roi hyfforddiant, cyfarwyddyd a chyngor arbenigol ar ddulliau, methodolegau a gwersi newydd.

Yn yr un modd, fe wnawn yn siwr fod ein dealltwriaeth o VAWDASV yn gorwedd ar sail o ymchwil seiliedig ar dystiolaeth gref, ac yr ydym wedi galw ar arbenigedd academaidd i gynyddu sgiliau'r gweithlu yn y rhanbarth. Er enghraifft, yn 2022, gwnaethom wahodd y Dr Jane Monkton-Smith i roi cyflwyniadau ar y llinell amser Lladdiadau Domestig, gan gynnwys ystyriaethau penodol i laddiadau sy'n digwydd yng nghyd-destun camdriniaeth seiliedig ar anrhydedd a deall hunanladdiadau sy'n gysylltiedig â chamdriniaeth ddomestig.

Rydym yn cael gwybod am unrhyw ymchwil a datblygu academaidd sy'n ymddangos. Mae'r rhanbarth hefyd yn cael ei gynrychioli yn Rhwydwaith Ymchwil VAWDASV Cymru, a lansiwyd yn 2021 gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, Jane Hutt AS. Yr ydym wedi defnyddio'r ymchwil a'r dystiolaeth gyfredol fwyaf perthnasol i ddatblygu'r strategaeth hon.

**Byddwn yn gwneud y canlynol:**

- Sicrhau bod profiadau byw goroeswyr yn sail i ddatblygu a chyflwyno'r gwasanaeth yn barhaus a
- Dal i ddysgu gan arbenigwyr.



# Pennod 2
# YMDRIN

# Ymateb Cyfiawnder Troseddol (Camdriniaeth Ddomestig)

""Rydyn ni'n sôn am faint o fenywod gafodd eu treisio llynedd, nid am faint o ddynion a dreisiodd fenywod. Rydyn ni'n sôn am faint o ferched mewn ardal ysgol yr aflonyddwyd arnynt, nid am faint o fechgyn a aflonyddodd ar ferched. Felly gallwch weld sut mae defnyddio'r llais goddefol yn cael effaith wleidyddol. Mae'n symud y canolbwynt oddi wrth ddynion a bechgyn ac ar ferched a. Mae hyd yn oed y term **trais yn erbyn menywod** yn broblemus. Mae'n gyfansoddiad goddefol. Does dim cymal gweithredol yn y frawddeg. Mae'n rhywbeth drwg sy'n digwydd i fenywod, ond pan fyddwch yn edrych ar y term hwnnw, **trais yn erbyn menywod**, does neb yn ei wneud iddynt. Mae jest yn digwydd. Dyw dynion ddim hyd yn oed yn rhan ohono!"
Jackson Katz, PhD, o'i Ted Talk "Trais yn Erbyn Menywod: Mae'n Fater i Ddynion"

**"Rhaid i'r sylw fod ar y troseddwr nid y dioddefwr. Rydym yn canolbwyntio ormod ar y dioddefwyr. Mae'r troseddwr yn cerdded o gwmpas yn ddi-fai, ac y mae ofn ar y dioddefwr." - goroeswr VAWDASV**

Bwriad ein hagwedd strategol yw gwneud troseddwyr yn weladwy ac yn atebol am y niwed maent yn achosi. Mae hyn yn cynnwys ymyriadau trwy'r system cyfiawnder troseddol megis arestio, erlyn, carcharu ac ymyriadau trwy'r Gwasanaeth Prawf. Mae hefyd yn cynnwys rhaglenni ac ymyriadau yn y gymuned i dorri cylch troseddu trwy newid agweddau ac ymddygiad.




Rydym wedi derbyn adborth cymysg gan oroeswyr a phartneriaid, sy'n awgrymu fod beio dioddefwyr ac agweddau anfuddiol yn dal mewn sefydliadau fel yr heddlu. Mae Heddlu De Cymru hefyd wedi ymateb i adroddiadau fod yr heddlu wedi cam-drin trwy gomisiynu gwasanaeth annibynnol i gwrdd ag anghenion goroeswyr. Er hynny, nid yw diwylliannau o fisogyniaeth, rhywiaeth a beio dioddefwyr yn gyfyngedig i'r heddlu, a daeth nifer o gyrff cyhoeddus a gwasanaethau dan y chwyddwydr dros y blynyddoedd diwethaf.


**"Yn amlwg roedd yna hanes maith o TD ac roeddwn i'n teimlo mai fi oedd yn cael fy holi a 'nghroesholi." - goroeswr VAWDASV**

Bob mis, mae nifer o geisiadau i'r GEG am gyngor ar gyhuddo. O'r rhai a gyhuddwyd, mae'r gyfradd o euogfarnau yn y rhanbarth rhwng 75-77%. Mae tua 70% yn pledio'n euog.

Er mwyn cael y canlyniadau gorau i ddioddefwyr trwy gamau cyfiawnder troseddol, rhoesom y mesurau canlynol ar waith:

- Mae tri safle tystiolaethu lle gall dioddefwyr roi tystiolaeth heb orfod bod yn gorfforol bresennol yn y llys.
- Cynhaliodd Tîm Ymwneud Rhanddeiliaid y Gwasanaeth Prawf ddadansoddiad anghenion trylwyr i wneud yn siwr fod holl staff y gwasanaeth prawf sy'n gwasanaethu'r llysoedd wedi derbyn hyfforddiant llawn a'u bod yn gwybod am bob agwedd o gamdriniaeth ddomestig gyda blaenoriaethau allweddol i sicrhau diogelwch dioddefwyr, yn enwedig pan fo mechnïaeth yn cael ei ystyried mewn llysoedd remand.
- Bydd Eiriolwyr Camdriniaeth Ddomestig Annibynnol (IDAA) yn rhoi eiriolaeth a chefnogaeth arbenigol i oroeswyr.
-

Hefyd, mae Deddf Camdriniaeth Ddomestig (2021) yn gwahardd troseddwyr a'r rhai a gyhuddwyd o gamdriniaeth rhag croesholi eu dioddefwyr yn bersonol (a vice versa) mewn achosion teulu.



# Ymateb Cyfiawnder Troseddol (Trais Rhywiol)

Yn genedlaethol, dros y pum mlynedd diwethaf, mae nifer y dioddefwyr sy'n mynd at yr heddlu wedi cynyddu'n sylweddol, ac eto ar yr un pryd, gostwng wnaeth nifer y troseddwyr a gyhuddwyd. Fe welir isod ddata'r Swyddfa Gartref a gasglwyd gan y Grŵp Monitro Trais Rhywiol.

| Math o Drosedd / Gweithgaredd | 2015/16 | 2019/20 |
|---|---|---|
| Cymru a Lloegr | | |
| Treisio menyw (16+) | 22,792 | 37,500 |
| Cyhuddwyd/Gwysiwyd | 2,384 | 493 |
| Treisio dyn (16+) | 1,295 | 2,520 |
| Cyhuddwyd/Gwysiwyd | 67 | 15 |
| De Cymru | | |
| Treisio menyw (16+) | 364 | 826 |
| Cyhuddwyd/Gwysiwyd | 66 | 25 |
| Treisio dyn (16+) | 22 | 52 |
| Cyhuddwyd/Gwysiwyd | 2 | 0 |

**"Rhoddais adroddiad am y gamdriniaeth gorfforol a rhywiol wrth yr Heddlu. Cafodd ei arestio ond nid ei gyhuddo. Roedd yna oedi enfawr yn y broses oherwydd COVID. Roedd y DC gwryw a roddwyd ar yr achos yn hynod amhroffesiynol ac anghefnogol tuag ata'i." - Goroeswr VAWDASV**

Mae methiant i sicrhau cyfiawnder i ddioddefwyr trais rhywiol wedi symbylu Llywodraeth y DU i gynnal adolygiad, sef yr Adolygiad Trais Rhywiol ac i gynhyrchu argymhellion i'r Llywodraeth, yr Heddlu, GEG a'r Llysoedd fydd yn cynyddu nifer yr achosion a gyflwynir, yn gwella amseroedd ac ymwneud â dioddefwyr. Rhan o'r cynllun gwella yw **Operation Soteria**, rhaglen waith uchelgeisiol ar y cyd rhwng yr heddlu a GEG i drawsnewid y ffordd mae ymchwiliadau ac erlyniadau i drais rhywiol yn cael eu trin a'u bwrw ymlaen, gan ganoli ar y sawl dan amheuaeth yn hytrach na'r dioddefwr.

Er bod deilliannau cyhuddo yn isel, gan Heddlu De Cymru y mae'r ganran uchaf ar draws heddluoedd Cymru a Lloegr o'r holl droseddau trais sy'n arwain at gyhuddo neu wysio.

Mae De Cymru hefyd yn rhan o gam cyntaf y cynllun peilot hwn, gan ymrwymo i wella deilliannau i oroeswyr. Mae'r cynllun yn dwyn ynghyd arbenigwyr am blismona ac arbenigwyr academaidd i drawsnewid y ffordd mewn ymchwiliadau i drais rhywiol a throseddau rhyw yn cael eu trin gan yr heddlu trwy gyfres o fathau dwfn o ymchwil sy'n sail o wybodaeth i ganfyddiadau ac argymhellion.

Fodd bynnag, dengys canfyddiadau blwyddyn 1 nifer o heriau gan gynnwys y ffaith nad oes gan staff ddigon o wybodaeth arbenigol am drais a mathau eraill o droseddau rhyw, a bod ymdrechion anghymesur yn cael eu rhoi i mewn i brofi hygrededd yr hyn ddywed y dioddefwr.

**Byddwn yn gwneud y canlynol:**
Gwella ein dealltwriaeth o drais rhywiol i ddatblygu a gwella ein hymateb.

# Newidiadau Deddfwriaethol a Pholisi



"Addysgwch y dynion am sut i drin menywod a'r gyfraith yn y wlad yma."- goroeswr VAWDASV

Cyflwynodd **Deddf Camdriniaeth Ddomestig (2021) Llywodraeth y DU** nifer o newidiadau deddfwriaethol:


- Mae'n creu diffiniad statudol o gamdriniaeth ddomestig sy'n pwysleisio na dim ond trais corfforol yw camdriniaeth ddomestig, ond y gall hefyd fod yn emosiynol, yn rheoli neu orfodi, a'i fod yn cynnwys camdriniaeth economaidd.
- Mae'n gwneud darpariaeth ar gyfer Rhybuddion Amddiffyn rhag Camdriniaeth Ddomestig a Gorchmynion Amddiffyn rhag Camdriniaeth Ddomestig newydd.
- Mae'n ymestyn y drosedd o ymddygiad rheoli trwy orfodaeth i ymdrin â chamdriniaeth wedi gwahanu.
- Mae'n ymestyn y drosedd o ddatgelu ffotograffau a ffilmiau rhywiol preifat gyda'r bwriad o achosi loes i gynnwys bygythiadau i ddatgelu deunydd o'r fath.
- Mae'n cydnabod plant sy'n gweld, clywed neu yn profi effeithiau camdriniaeth fel dioddefwyr yn eu hawliau eu hunain.
- Mae'n creu trosedd newydd o dagu neu fygu person arall heb ladd.

Mae **Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020** yn gwneud pob math o gosb gorfforol megis smacio, taro, slapio ac ysgwyd yn anghyfreithlon.

Mae **Deddf Foyeuriaeth (Troseddau) 2019** yn gwneud 'uwchsgertio' yn anghyfreithlon lle mae bwriad i gael boddhad rhywiol, neu i achosi cywilydd, loes neu ddychryn.

Mae **Deddf Iechyd a Gofal 2022** yn gwneud profi gwyryfdod a hymenoplasty yn anghyfreithlon.


Mae **stelcian** yn drosedd ddifrifol a gall fod yn rhan o ymddygiad cynyddol sy'n rhan o'r wyth cam sy'n arwain at laddiadau domestig [26]. Yn ein strategaeth ddiwethaf, fe wnaethom gydnabod mai anaml y rhoddir adroddiadau am stelcian wrth yr hedldu, ac fe wnaethom ymrwymo i godi ymwybyddiaeth o stelcian fel trosedd, gan gynnwys sut i adnabod yr arwyddion, teimlo'n hyderus i adrodd a chofnodi tystiolaeth i gefnogi'r broses cyfiawnder troseddol. Cafoddnewidiadau yn arferion yr heddlu effaith sylweddol, gydag adroddiadau wrth yr heddlu yn codi 3.5 gwaith am droseddau stelcian yng nghyd-destun camdriniaeth gan bartner agos a 1.5 gwaith am droseddau gan ddieithriaid.




**Byddwn yn gwneud y canlynol:**

- Cefnogi partneriaid i weithredu'r pwerau newydd sy'n deillio o newidiadau deddfwriaethol (e.e. Deddf Camdriniaeth Ddomestig (2021).
- Codi ymwybyddiaeth o newidiadau deddfwriaethol i annog adrodd, cyfeirio a chefnogi.

# Rhaglenni Cymunedol i Droseddwyr




Mewn partneriaeth â Chomisiynydd Heddlu a Throsedd De Cymru, yr ydym wedi comisiynu Safer Merthyr Tydfil (SMT) i gyflwyno cyfres o ymyriadau sy'n dal troseddwyr i gyfrif am eu hymddygiad, trwy hyrwyddo newid mewn agweddau ac ymddygiad, a lleihau nifer y goroeswyr.

IMae haenau i'r ymyriadau ar sail lefel y risg o du'r troseddwr at eu dioddefwyr, ac y mae ganddynt oll gefnogaeth integredig arbenigol i oroeswyr y dynion sy'n ymwneud â'r ymyriadau.

**Yr ymateb cymunedol arloesol diwniad hwn yw'r cyntaf o'i fath yn y DU.**

## CLEAR

Mae'r sawl a gyfeirir at CLEAR am ymyriad cynnar ond sydd angen cefnogaeth ddwysach yn cael eu cyfeirio i fyny at Driving Change (Camu i Fyny).

Byddwn yn ymchwilio i'r angen am ymyriad priodol i'r sawl sydd angen camu i lawr o Driving Change (Camu i Lawr).

## DRIVING CHANGE

Mae'r sawl a gyfeiriwyd at Driving Change ond sydd â risg uchel o niweidio yn cael eu cyfeirio at Drive (Camu i Fyny).

Mae'r sawl a gefnogwyd gan Drive ond y mae eu risg wedi gostwng yn cael eu cyfeirio at Driving Change (Cami i Lawr)..

## DRIVE

**"Dwyf i ddim am i blant dyfu i fyny mewn awyrgylch sy'n hyrwyddo dicter a thrais yn erbyn menywod" - goroeswr VAWDASV**

Datblygwyd **CLEAR** gan Respect mewn partneriaeth a Chymorth i Fenywod fel haen ategol ac integredig o'r model Newid sy'n Parhau. Rhaglen chwe wythnos ydyw a gyflwynir un-i-un wedi ei theilwrio i gwrdd ag anghenion yr unigolyn.

Mae pob sesiwn yn para tua 1 awr- 1 ½ awr ac yn canolbwyntio ar adnabod effaith ymddygiad camdriniaethol ar eraill, gan ddefnyddio dulliau i hyrwyddo perthynas iachach a gosod nodau i hyrwyddo lles a pherthynas iachach.

**"Roen i'n arfer meddwl mai fel yna roedd menywod yn cael eu trin – coginio, glanhau ac aros adre." – Dyn a aeth at CLEAR**




Mae **Driving Change** yn rhaglen driniaeth therapiwtig ddynion fu'n dreisgar tuag at bartner agos. Mae'n her ac yn gefnogaeth hefyd i alluogi unigolion i roi'r gorau i'w hymddygiad treisgar a chamdriniaethol, a'r nod yw iddynt ddatblygu agweddau parchus, cariadus a chyfrifol nid yn unig tuag at y sawl o'u cwmpas, ond hefyd tuag atynt eu hunain.

Mae'n cyfuno gwaith unigol a gwaith grŵp, gan gymryd agwedd ymddygiadol-wybyddol a ffeministaidd gyda fframwaith emosiynol a theimladol pendant wedi ei wreiddio mewn arfer seicotherapiwtig ac ysbrydol.

**"Mae hyn yn waith ffantastig i unrhyw un mewn sefyllfa debyg, rwyf i a 'mhartner wedi sylwi cymaint gwell yw ein cyfathrebu." - Dyn a gyrchodd Raglen Driving Change**

# Rhaglenni i Droseddwyr yn y Gymuned

Mae Drive yn ymyriad dwys sy'n gweithio gyda throseddwyr sy'n gwneud llawer o niwed dro ar ôl tro i herio ymddygiad camdriniaethol a'i atal trwy roi ymateb amlasiantaethol i droseddwyr y mae achosion eu dioddefwyr yn cael eu cyfeirio at MARAC. Gwneir hyn trwy neilltuo rheolwr achos penodol i bob troseddwr er mwyn rheoli'r risg a gweithio ochr yn ochr â gwasanaethau cefnogi i oroeswyr, rhannu gwybodaeth am ymwneud, ymddygiad a lefel risg y troseddwr er mwyn hyrwyddo diogelwch y goroeswr. Mae hyn yn cynnwys ymwneud a thactegau tarfu.

DRIVE

Ers ei gychwyn yn 2018, gweithiodd Prosiect DRIVE gyda 308 o droseddwyr yng Nghaerdydd ac 88 ym Mro Morgannwg. Mae camdriniaeth ddomestig yn drosedd neilltuol i rywedd ac roedd 97% o'r 396 troseddwyr hyn yn ddynion. Niweidiwyd 458 o ddioddefwyr/goroeswyr o oedolion (95% yn fenywod) a 823 o blant gan ymddygiad y troseddwyr hyn. Mae hyn yn fwy na dau o blant am bob troseddwr. Y mae llawer o droseddwyr yn cam-drin llawer o unigolion; er enghraifft, roedd 49.7% o'r troseddwyr yng Nghaerdydd wedi troseddu dro ar ôl tro, ac roedd gan 12% nifer o ddioddefwyr. Mae ymyriadau gyda throseddwyr felly hefyd yn rhan o ymateb ataliol am eu bod yn torri'r cylch o droseddu pellach.

**"Ers gweithio gyda CM rwyf wedi penderfynu peidio â ffurfio perthynas newydd a chanolbwyntio arnaf fy hun. Mae gen i drwydded yrru bellach a char, sy'n rhoi mwy o gyfle am waith' rwy'n hyfforddi gyda'r tîm pêl-droed ac yn cynilo i brynu 'nghartref fy hun." Dyn a gefnogwyd gan DRIVE**

**Byddwn yn gwneud y canlynol:**

- parhau i osod yr atebolrwydd am gam-drin ar y rhai sy'n achosi niwed
- mynd i'r afael â throseddu trwy gefnogi ffrwd waith berthnasol Glasbrint Llywodraeth Cymru.

Mae'r **Gwasanaeth Prawf** yng Nghymru yn rhoi blaenoriaeth ar ganolbwyntio ar gamdriniaeth ddomestig sydd yn ymgorffori blaenoriaethau cenedlaethol a Llywodraeth Cymru. Cyflwynodd Fwrdd Camdriniaeth Ddomestig ym mis Ionawr 2022 i osod cyfeiriad a sicrhau y gweithredir y Strategaeth Camdriniaeth Ddomestig yng Nghymru.

Mae'n parhau i gyflwyno ymyriadau i droseddwyr VAWDASV ac yn arbenigo mewn gweithio gyda dioddefwyr, llawer ohonynt yn ddioddefwyr camdriniaeth ddomestig. Mae staff wedi eu hyfforddi'n arbenigol i weithio gyda dioddefwyr er mwyn rhoi gwybodaeth, cyrchu cefnogaeth a gwneud yn siwr fod llais dioddefwyr yn cael ei glywed. Mae Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr ynchwarae rhan allweddol mewn fforymau amlasiantaethol ac yn ymwneud ag ymarferwyr er mwyn sicrhau diogelwch dioddefwyr.

**Archwiliad Camdriniaeth Ddomestig**

O ganlyniad i bandemig COVID-19, cynhaliwyd menter ar y cyd rhwng yr heddlu a'r gwasanaeth prawf yn ne Cymru er mwyn sicrhau bod troseddwyr camdriniaeth ddomestig yn ein cymuned yn cael eu hasesu a'u rheoli yn gadarn. Arweiniodd hyn at archwiliad o dros 500 achos o CDd a aseswyd fel rhai â risg uchel a risg uchel iawn o niwed difrifol ac arweiniodd at gynllun gweithredu Cymru gyfan i wella'r dull o reoli troseddwyr VAWDASV. Nod y cynllun oedd gwella'r gwaith yn y llysoedd, datblygu prosesau a chanllawiau i staff gan ganoli ar yr isod:

- Pwysigrwydd Trefniadau Amlasiantaethol Gwarchod y Cyhoedd (MAPPA) a sicrhau bod troseddwyr CDd Risg Uchel/Uchel Iawn yn cael eu cyfeirio at MAPPA.
- Sicrhau diogelu a chynyddu addysg, canllawiau a hyfforddiant i'r staff, yn enwedig ynghylch ffactorau risg llym a rhai sy'n ymddangos wrth weithio gyda throseddwyr CDd.
- Cafodd oddeutu 300 o ddynion risg uchel a gafwyd yn euog o droseddau CDd gan dîm Llwybr Anhwylder Personoliaeth Troseddwyr (OPDP) i adnabod y ffactorau cysylltiedig â throseddu CDd yng Nghymru, anghenion triniaeth a gwasanaeth ar sail o wybodaeth am anghenion y boblogaeth.

Rhoddwyd cyllid yn ei le i recriwtio Swyddogion Gwybodaeth Camdriniaeth Ddomestig/ Swyddogion Ymholiadau Diogelu ledled.

# Dal Troseddwyr i Gyfrif – Ffurfiau Eraill ar VAWDASV

Mae ymyriadau gyda throseddwyr ar hyn o bryd yn bennaf yn cael eu cyflwyno lle mae camdriniaeth yn digwydd yng nghyd-destun camdriniaeth ddomestig perthynas agos. Mae angen i ni wneud mwy i ymdrin â phob math o VAWDASV.

## Camfanteisio Rhywiol

**"Weithiau rydym yn gweld dynion treisgar a ddechreuodd gyda thrais yn erbyn gweithiwr rhyw, am fod hynny'n cael ei weld fel rhywbeth llai difrifol, neu haws."**
**– Galwad am Dystiolaeth, Grŵp Ffocws (Ymgynghoriad yn 2021 ar Strategaeth Mynd i'r Afael â Thrais yn Erbyn Menywod a Merched)**

Mae menywod sy'n dioddef camfanteisio trwy'r diwydiant rhyw yn profi lefelau uchel o drais a chamdriniaeth. Bu Prosiect 'National Ugly Mugs' (NUM), a gyflwynir yng Nghaerdydd gan Brosiect StreetLife a phartneriaid diogelu, yn derbyn ac yn rhannu adroddiadau am drais a niwed ymysg menywod y cam-fanteisir arnynt yn rhywiol er mwyn eu rhybuddio am unrhyw beryglon posib. Ers ei sefydlu, mae adroddiadau NUM wedi cynyddu o 166 yn 2013 i bron i 1,000 yn 2019. [4]

Mae gorgyffwrdd rhwng prynu rhyw a thrais rhywiol, gan fod prynwyr rhyw yn debygol o fynegi'r farn sydd yn "normaleiddio naratifau trais rhywiol a thrais yn erbyn menywod"[5]. Er enghraifft, mae ardaloedd gyda lefelau uchel o buteindra amlwg yn aml yn adrodd am ymddygiad gwrthgymdeithasol gan gynnwys cropian hyd y cyrbiau ac aflonyddu'n rhywiol ar bob menyw sy'n byw yn yr ardal. Ac eto, anaml y mae ymyriadau cynnar yn ystyried yr agweddau niweidiol sy'n sail i gred y sawl sy'n prynu rhyw a'r sawl sy'n camfanteisio ar fenywod ac yn eu cam-drin. Mae ymgyrchoedd yr heddlu yn erbyn y sawl sy'n cropian hyd y cyrbiau yn unig yn aml yn ddigwyddiadau dros dro, nad ydynt yn cael fawr o effaith ar ganfod troseddau na newid ymddygiad [6]. Dangosodd gwerthusiadau o raglenni ail-addysgu newid agwedd ymysg y rhai sy'n cropian hyd y cyrbiau ond nid yw'r rhain yn rhoi iddynt y sgiliau angenrheidiol i newid eu hymddygiad [ibid].

Mae angen ymyriadau amlasiantaethol sy'n cydgordio'r canlynol:

- Gwell dealltwriaeth o amlder a natur newidiol camfanteisio rhywiol gan gynnwys mannau ar-lein, y cartref a'r cyfryngau cymdeithasol;
- Gweithgareddau codi ymwybyddiaeth am y gyfraith sy'n ymwneud â thalu am wasanaethau rhywiol;
- Ymgyrchoedd yr heddlu yn erbyn cropian hyd y cyrbiau;
- Rhaglenni ail-addysgu'r sawl sy'n cropian hyd y cyrbiau;
- Cefnogi menywod i rannu gwybodaeth am ddynion treisgar, adrodd am droseddu a chefnogi erlyniadau.
- Gwell dealltwriaeth o waith rhyw ar-lein.

## Trais Rhywiol


Nid oes rhaglenni yn y gymuned i droseddwyr camdriniaeth a thrais rhywiol. Ymdrinnir â throseddwyr trwy'r system cyfiawnder troseddol (SCT) ac y mae rhaglenni yn cael eu cyflwyno yn bennaf mewn carchardai. Fodd bynnag, canfu gwerthusiad [3] o'r Rhaglenni Craidd Trin Troseddwyr Rhyw (SOTP) newidiadau bychain mewn ymddygiad sy'n awgrymu naill ai nad ydynt yn lleihau aildroseddu rhywiol neu na chanfuwyd ei wir effaith.

## Camdriniaeth seiliedig ar anrhydedd

Yn yr un modd, mae gwaith ataliol gyda chymunedau i fynd i'r afael ag agweddau sy'n parhau â chamdriniaeth yn enw 'anrhydedd' yn aml ar goll o ymyriadau gyda throseddwyr.

O gymharu â ffurfiau eraill o VAWDASV, gall priodi dan orfodaeth, camdriniaeth seiliedig ar yr hyn a elwir yn anrhydedd ac AOCM fod yn rhywbeth mewn teuluoedd cyfain a chymunedau a rhaid i unrhyw agweddau ystyried sut y mae ymyriadau yn cael eu dylunio a'u cyflwyno gan gadw'r teulu a'r gymuned gyfan mewn cof, a chwrdd â'u hanghenion penodol.

**Byddwn yn gwneud y canlynol:**
**Y**mchwilio i raglenni achrededig a seiliedig ar dystiolaeth sy'n mynd i'r afael ag ymddygiad niweidiol sy'n gysylltiedig â phob ffurf ar VAWDASV a chefnogi ymdrechion i sicrhau ymyriadau.



# Pennod 3
# ATAL

# Plant a Phobl Ifanc


## Blynyddoedd Cynnar

Ystyrir camdriniaeth rywiol a byw ar aelwyd lle mae camdriniaeth ddomestig yn digwydd yn brofiadau andwyol mewn plentyndod (PAP), sydd â chysylltiad cryf â deilliannau gwael mewn bywyd i blant.

Gall effaith niweidiol VAWDASV ar blant a phobl ifanc gynnwys teimladau ingol o gael eu bradychu, teimlo'n ddi-rym ac euog, sy'n arwain at anawsterau iechyd meddwl a chorfforol megis meddwl am hunanladdiad, iselder, anawsterau cysgu, bod yn fwy tebygol o ddefnyddio strategaethau ymdopi negyddol fel defnyddio alcohol a sylweddau (Cymorth i Fenywod Cymru, 2019), ymwneud ag ymddygiad troseddol a charcharu (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2015). Amcangyfrifir bod cost ariannol flynyddol PAP yng Nghymru yn £2.2 biliwn (Hwb PAP).
Mae'r Adolygiad Polisi Profiadau Andwyol mewn Plentyndod (PAP) Policy: Adroddiad - Llywodraeth Cymru (2021) yn galw am ymwybyddiaeth o ddealltwriaeth o PAP gael ei drosi'n weithredoedd i atal PAP rhag digwydd yn y lle cyntaf, a darparu ymateb cryf seiliedig ar ymwybyddiaeth o drawma i'r rhai sydd eisoes wedi cael profiadau andwyol yn eu bywydau. Mae hefyd yn galw am i brofiadau andwyol unigol gael eu hystyried yng nghyd-destun ehangach anghydraddoldeb ac amddifadedd, ac ni ddylid eu gweld fel rhywbeth a benderfynwyd eisoes ac sy'n dod â stigma. Mae Swyddogion Cymunedol Cefnogi'r Heddlu gyda PAP ledled Caerdydd a Bro Morgannwg yn gweithio gyda'r gwasanaethau cefnogi perthnasol.

## Addysg

Mae adroddiadau wrth "Gwahoddiad i Bawb"[7] yn awgrymu fod aflonyddu rhywiol yn endemig ar draws ysgolion yn y DU. Crëwyd y wefan i roi lle i oroeswyr rannu eu storïau yn ddienw, ac y mae wedi tanio sgwrs am ddiwylliant trais mewn ysgolion, ac adolygiadau i bolisïau ac arferion diogelu mewn sefydliadau addysgol. Mae adroddiad 2022 yn cynnwys 300 o ysgolion a phrifysgolion yng Nghymru.



Dywedodd 50% o'r sawl a adfyfyriodd am eu profiadau a ddatgelwyd nad oedd gweithwyr proffesiynol addysg wedi bod o gymorth [8]

**"Mae angen i'r newid ac i agweddau gychwyn yn gynnar, yn yr ysgol gynradd gan y bydd hyyn cael gwell effaith; mae'n rhy hwyr erbyn yr ysgol uwchradd gan y bydd y rhan fwyaf o blant wedi cael profiad o rywbeth."– goroeswr VAWDASV**

Mae gan addysg gynnar y potensial i greu effaith trawsnewidiol o ran atal VAWDASV ac ymddygiad niweidiol arall megis homoffobia a rhywiaeth rhag bod yn bla yn ein cymunedau. Bydd addysgu plant o oedran cynnar am sut i ffurfio, datblygu a chynnal perthynas iach yn sicrhau mai ymddygiad a pherthynas barchus fydd y norm wrth iddynt dyfu'n oedolion.

Cyflwynwyd addysg am berthynas iach i ysgolion yn y rhanbarth trwy raglen Sbectrwm Hafan, a gyllidir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r rhaglen yn cyflwyno sesiynau addas i oedran i blant a phobl ifanc yn ogystal ag athrawon addysg gynradd ac uwchradd. Dros y pum mlynedd diwethaf, derbyniodd 8,546 o blant a phobl ifanc (5,206 Caerdydd a3,340 Bro Morgannwg) a 652 aelod o staff (377 yng Nghaerdydd a275 Bro Morgannwg) sesiwn ar berthynas iach.

Nod Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 yw rhoi addysg am berthynas iach yn y brif ffrwd trwy osod rheidrwydd ar bob ysgol a lleoliad addysg i gynnwys darpariaeth sy'n addas i gyfnodau datblygiad ar gyfer dysgu sydd yn cwmpasu Addysg am Gydberthynas a Rhywioldeb (AGRh). Disgwylir y bydd y rhain yn ymdrin â'r themâu canlynol: perthynas; hawliau a thegwch; rhyw, rhywedd a rhywioldeb; cyrff a delwedd y corff; iechyd rhywiol a lles; a thrais, diogelwch a chefnogaeth. Mewn ysgolion cynradd, bydd yn orfodol ym Medi 2022 ac mewn ysgolion uwchradd caiff ei gyflwyno dros yr ychydig flynyddoedd academaidd nesaf.


Mae'r Tîm ysgolion Iach yn rhoi cefnogaeth i ysgolion trwy ddatblygu model o bolisi AGRh, hyfforddi staff a rhestr o adnoddau AGRh. Mae hyfforddiant yn cael ei roi hefyd gan Gonsortiwm Canol y De. Gwasanaeth addysg ar y cyd yw'r Consortiwm ar gyfer pump o awdurdodau lleol yn ne Cymru. Fe'i comisiynir gan yr awdurdodau lleol, ac y mae'n gweithredu ar eu rhan i ddarparu gwasanaeth gwella ysgolion sydd yn herio, monitro a chefnogi ysgolion i godi safonau.

# Plant a Phobl Ifanc

## Operation Encompass

Partneriaeth yw Operation Encompass rhwng yr heddlu ac ysgolion sy'n gofalu fod pob digwyddiad o gamdriniaeth ddomestig yn cael eu rhannu gydag Oedolyn Allweddol yn yr ysgol cyn i'r ysgol ddechrau er mwyn sicrhau bod y plentyn y daethpwyd i'w gartref y diwrnod / noson cynt yn cael ymateb cadarnhaol a phriodol. Am flwyddyn academaidd 2021/22, derbyniwyd 2,341 hysbysiad yng Nghaerdydd a 1,256 ym Mro Morgannwg. Fe welir isod ddalgylchoedd ysgolion yng Nghaerdydd wedi eu mapio yng nghyswllt nifer yr hysbysiadau a dderbyniwyd.

Dylid nodi ein bod yn ymwybodol o'r gwasanaethau arbenigol yn y rhanbarth fod camdriniaeth ddomestig yn digwydd ar draws ardaloedd daearyddol, ond y gall fod amrywiaeth o ran adrodd.




**Hysbysiadau Operation Encompass - Caerdydd (2021/22)**

Gwyrdd- llai na 50 o Hysbysiadau Operation Encompass
Oren - 50-100 o Hysbysiadau Operation Encompass
Coch - dros 100 o Hysbysiadau Operation Encompass

## Agwedd Addysg Gyfan

Mae newid agweddau yn cael ei yrru gan newid calonnau a meddyliau unigolion a'r gymdeithas ehangach. Fodd bynnag, mae angen cefnogi a meithrin y newidiadau hyn ar lefel gymunedol. Er enghraifft, ni ellir cyfyngu cyflwyno AGRh mewn ysgolion a lleoliadau addysgol i ddysgu plant a phobl am berthynas iach. Yn hytrach, mae angen ei wreiddio yn naw elfen allweddol canllawiau'r Agwedd Addysg Gyfan a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru:

1.Plant a phobl ifanc yn dysgu am VAWDASV.
2. Staff yn dysgu am VAWDASV.
3. Rhieni, gofalwyr a'r teulu yn dysgu am VAWDASV.
4. Systemau monitro a gwerthuso ar gael i fesur effaith y gwaith hwn.
5. Mesurau ar gael i gefnogi pobl sy'n dioddef mathau o VAWDASV.
6. Plant a phobl ifanc, staff a rhieni/gofalwyr yn cymryd rhan weithredol mewn atal VAWDASV .
7. Gweithredu i atal VAWDASV yn y gymuned ehangach.
8. Gweithio mewn partneriaeth ag arbenigwyr lleol perthnasol.
9. gwreiddio rhaglen atal gynhwysfawr.




**Byddwn yn gwneud y canlynol:**
Annog mwy o ysgolion i fabwysiadu'r agwedd ysgol gyfan at VAWDASV

# Plant a Phobl Ifanc

Nid oes gan rai o’r plant a phobl ifanc mwyaf bregus fawr o gysylltiad ffurfiol a lleoliadau addysg ffurfiol, ac yr ydym felly wedi comisiynu rhaglenni sy’n codi ymwybyddiaeth o berthynas iach mewn lleoliadau cymunedol lle mae plant a phobl ifanc yn mynd. Rhwng 2018/19 a diwedd 2021/22, cefnogodd y **Gwasanaeth Estyn Allan Iechyd Rhywiol (SHOT)**:

- 319 o bobl ifanc ar sail 1-1– dywedodd tua 75% fod ganddynt well lles a gwytnwch emosiynol o ran perthynas iach ar ddiwedd y rhaglen.
- 3,600 o bobl ifanc yn cyrchu Gwaith Grŵp– dywedodd tua 97% fod ganddynt fwy o wybodaeth ac ymwybyddiaeth ar derfyn hyn.

Mae **Gwasanaeth Cynhwysol Cymru Ddiogelach (SWIS)** yn gweithio gyda menywod ifanc a merched rhwng 12 a 25 oed. Mae’n darparu gwaith un-i-un a gwaith grŵp sy’n canolbwyntio ar annog dewisiadau cadarnhaol mewn bywyd. Mae’r gweithgareddau wedi eu lled-strwythuro ac yn cynnwys: bwyta’n iach, celf a chrefft a pherthynas iach. Mae’r sesiynau yn cael eu hwyluso gan staff Cymru Ddiogelach i warchod menywod ifanc a merched rhag camfanteisio, niwed yng nghyswllt gangiau, camdriniaeth ddomestig a thrais.

Mae tîm **Diogelu’r Arddegau rhag Camfanteisio Rhywiol (SAFE)** yn gweithio ar ddatblygu polisïau a nifer o brosiectau sy’n cael eu llywio gan grŵp partneriaeth SAFE, fel gwreiddio pynciau SAFE yn y cwricwlwm newydd i Gymru, ac ymgynghori ag ymarferwyr i gael dealltwriaeth well o batrymau camfanteisio ar draws gwahanol ardaloedd o Gaerdydd. Mae’r tîm hefyd yn cynnig cefnogaeth 1:1 i bobl ifanc â risg uchel o fod yn ddioddefwyr camfanteisio rhywiol ar blant, neu a ddioddefodd hyn, trwy amrywiaeth o fodelau ac ymyriadau wedi eu teilwrio at anghenion penodol person ifanc, gan gynnwys agweddau Oedolyn i Ymddiried, ymwybyddiaeth o drawma, a Seiliedig ar Gryfder.

Bydd YMCA Caerdydd yn cyflwyno **Rhaglen Perthynas Fwy Diogel ac Iach** fydd yn cefnogi pobl ifanc, ar gyfnod ymyriad cynnar, i wneud penderfyniadau gwybodus a diogel am berthynas, gan gynnwys elfennau fel rhyw diogel a defnyddio dulliau atal cenhedlu, a chydsyniad. Mae pobl ifanc wedi dweud wrthym eu bod yn fwy tebygol o fynd at eu rhieni am gyngor. Byddwn felly yn integreiddio elfen ychwanegol fyd yn rhoi sesiynau a chefnogaeth i rieni ac yn cysylltu â gwasanaethau VAWDASV arbenigol i greu llwybr cyfeirio i’r sawl sy’n datgelu.

# Colegau a Phrifysgolion




Gall myfyrwyr fod yn fwy bregus na gweddill y boblogaeth, oherwydd nad ydynt efallai yn ymwybodol o wasanaethau lleol a heb sefydlu grwpiau cefnogi. Mewn partneriaeth a sefydliadau addysgol, yr ydym wedi cyflwyno ac yn dal i gyflwyno ymgyrchoedd i godi ymwybyddiaeth o VAWDASV a’r llwybrau cefnogi sydd ar gael, mewn amrywiaeth o ieithoedd, gan gydnabod ffurf amlddiwylliannol ein poblogaeth yn y chweched dosbarth, yn israddedigion ac ôl-raddedigion.

**Byddwn yn gwneud y canlynol:**
Parhau i weithio gyda phrifysgolion a cholegau i gryfhau eu hymateb i fyfyrwyr sy’n dioddef VAWDASV.

# Plant a Phobl Ifanc – Atal Ymddygiad Niweidiol

## Adolescent to Parent Abuse and Violence (APVA)



Gall trais a chamdriniaeth gan blant ar oedolion effeithio ar bob aelod o'r teulu, ond cam-drin mamau gan feibion yw'r mwyaf cyffredin.

Fel gyda mathau eraill o VAWDASV, mae adrodd yn cael ei danseilio'n sylweddol gan gywilydd a stigma. Mae rhieni yn aml yn teimlo cywilydd ac yn beio'u hunain am y gamdriniaeth maent yn ddioddef, ac yn gyndyn o ddweud wrth yr heddlu am gamdriniaeth. Efallai y bydd gan rieni o gefndiroedd Du neu leiafrifol bryderon pellach am adrodd wrth yr awdurdodau am eu plant. Mae'n werth nodi y gall ymddygiad camdriniaethol ddigwydd gan ŵyr neu wyres at deidiau a neiniau, neu gan blant at lys-rieni.

Mae pethau'n cael eu cymhlethu ymhellach gan anghenion ychwanegol plant a phobl ifanc megis anableddau dysgu, iechyd meddwl a niwro-amrywiaeth. Efallai na fydd asiantaethau yn sylweddoli'r ddeinameg grym a rheoli sy'n sail i blentyn yn cam-drin rhieni, ac yn priodoli'r ymddygiad i anghenion y plentyn.

Mae **Break4Change** yn rhaglen achredededig a gyflwynir yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg i deuluoedd lle mae pobl ifanc yn cam-drin eu rhiant/rheini/gofalwyr. Fe'i cynigir i deuluoedd lle mae'r plentyn yn 11-16 oed. Yn y ddwy flynedd ers iddo gychwyn, cyfeiriwyd 44 o blant a theuluoedd.

Nod **Parallel Lives** a gyflwynir gan Media Academy Caerdydd yw atal camdriniaeth oedolion gan blant. Mae'r rhaglen 7-wythnos yn amgylchedd therapiwtig i'r rhai a ddioddefodd hyn; bod hynny yn rhieni, brodyr a chwiorydd, cyfoedion neu aelodau'r teulu estynedig. Y nod yw taclo camdriniaeth oedolion gan blant trwy gydnabod ymddygiad heriol a chynnig technegau sy'n caniatáu i blant/pobl ifanc a'u teuluoedd wneud newid cadarnhaol, trwsio/adeiladu perthynas gryfach trwy fynegi teimladau ac emosiynau heb fod yn ymosodol.

**Fel rhanbarth yr ydym yn cydnabod y canlynol:**

- Does dim esgus am unrhyw fath o gamdriniaeth.
- Nid yw'r System Cyfiawnder Troseddol yn wastad yn rhoi'r ymateb gorau i gamdriniaeth oedolion gan blant . Nid dyma mae'r dioddefwr/wyr eisiau chwaith.
- Dylid defnyddio ymyriadau holistig sy'n gweithio gyda'r teulu cyfan ac yn ymdrin ag anghenion ac ymddygiad y plentyn.
- Mae angen casglu data cadarn yn y rhanbarth i ddeall gwir faint y broblem.
- Mae angen mwy o raglenni achredededig seiliedig ar dystiolaeth i ymdrin ag ymddygiad plant dros 16 oed.

## Ymddygiad Rhywiol Problemus

Mae angen clir am ymyriad yn y gymuned yn gynharach - pan fod pobl ifanc yn arddangos ymddygiad rhywiol problemus (YRhP) neu ymddygiad rhywiol niweidiol (YRhN). Mae'r Tîm Atal YRhN yn rhan o Wasanaeth Troseddu Ieuenctid Caerdydd ac y maent yn gweithio gyda phobl ifanc a gyfeiriwyd atynt oherwydd eu hymddygiad rhywiol peryglus. Gallant weithio gyda rhieni, gweithwyr proffesiynol ac ysgolion i atal y person ifanc rhag mynd i mewn i'r system cyfiawnder troseddol.

Mae'r pwynt tanio i gael y gwasanaethau priodol yn aml yn digwydd yn dilyn niwed arwyddocaol i eraill. Mae asesiadau wedi hyn yn dueddol o ddatgelu'r arwyddion hynny o niwed yn y dyfodol nas ymdriniwyd â hwy, a byddai hyn yn dod o fewn cylch gorchwyl y gwasanaeth YRhP. Gall oedi cyn ymateb arwain at barhad o'r ymddygiad rhywiol sy'n peri pryder, a'i wneud yn waeth, niwed arwyddocaol i eraill a symud y person o gartref y teulu a'r ysgol brif-ffrwd.

Sicrhaodd Llwybrau Newydd gyllid i gychwyn ymyriad Ymddygiad Rhywiol Problemus yn eu hardal ddaearyddol yn 2023/24 ac y maent yn y broses o wneud cais i gyllidwyr eraill i ehangu'r cyllid cychwynnol hwn.

# Camdriniaeth Ar-lein, Misogyniaeth ac Eithafiaeth

Yn ddiweddar, daeth misogyniaeth yn amlwg ar-lein, yn enwedig oherwydd presenoldeb dylanwadwyr ar y cyfryngau cymdeithasol, mwy o ymwybyddiaeth o ideoleg Incel ideology a dyfodiad y 'dynosffêr'. Gall y gofod ar-lein hwn fod yn niweidiol iawn i ddynion ifanc bregus yn ogystal â merched, yn enwedig pan mae'n cael ei ddefnyddio gan eithafwyr fel porth i ideolegau treisgar eraill a gweithgareddau terfysgol.

Term ambarél yw'r "**dynosffêr**" sydd yn cyfeirio at nifer o gymunedau a fforymau misogynistaidd ar-lein rhyng-gysylltiedig. Mae'n cwmpasu sawl math a graddau o ddifrifoldeb o fisogyniaeth gan gynnwys Ymgyrchwyr Hawliau Dynion (MRA) ac Incels.

**Incels** (rhai diwair anwirfoddol) yw cymuned o ddynion sy'n credu fod ganddynt hawl i gael rhyw a bod eu hanallu i gael rhyw yn eu gadael gyda theimladau o chwerwder a chasineb tuag at fenywod.

Mae cynnwys atgas y disgwrs a geir yn y gofodau hyn wedi cael ei gydnabod yn gynyddol fel ffurf ar eithafiaeth. Er mai ar-lein y mae'n digwydd yn bennaf, gall orlifo drosodd i drais gwirioneddol wedi ei gyfeirio at fenywod ac eraill yn y gymuned (fel y gwelwyd yn y saethu ym mis Awst 2021 yn Plymouth.)

Mae Tîm 'Prevent' Caerdydd' yn gweithio gydag ymarferwyr VAWDASV i ddatblygu mwy o ymwybyddiaeth o'r pwnc trwy hyfforddiant arbenigol.
Mae agweddau misogynistaidd wedi eu gwreiddio mewn dad-ddynoli menywod. Dylai ymatebion felly wneud yr isod:

- Gwneud hawliau menywod a merched i ddiogelwch a rhyddid yn ganolog;
- Herio agweddau niweidiol a normau rhyw ond hefyd roi esiamplau rôl a byd-olwg gadarnhaol i ddynion;
- Diogelu'r genhedlaeth iau trwy eu rhybuddio am unigolion sy'n ceisio dylanwadu arnynt gyda negeseuon atgas.

# Gweithio gyda Chymunedau

**"Y cyfan mae'r troseddwr yn ofyn yw i'r sawl sy'n sefyll ar y cyrion wneud dim. Mae'n apelio at yr awydd cyffredinol i beidio â gweld, clywed na dweud unrhyw ddrwg. Ar y llaw arall, mae'r dioddefwr yn gofyn i'r un sydd ar y cyrion rannu baich y boen. Mae'r dioddefwr yn mynnu gweithredu, ymwneud a chofio." Judith Herman**



Cyfeillion a theulu yw'r rhai cyntaf yn aml i wybod neu amau fod eu hanwyliaid yn dioddef camdriniaeth. Gallant chwarae rhan hanfodol i atal VAWDASV yn eu cymunedau trwy ymyrryd yn gymdeithasol pan fyddant yn dyst i ymddygiad ac ymddygiad niweidiol. Mae angen gwneud mwy i addysgu cymunedau am ddeinameg camdriniaeth ddomestig a rheolaeth trwy orfodaeth a sicrhau bod cymunedau yn teimlo'n hyderus i ddarparu ymateb diogel i'r sawl sy'n datgelu.

Ar sail y dybiaeth y gall ac y dylai pobl ymyrryd i herio ac atal VAWDASV, nod Rhaglenni Gwyliedyddion yw hyfforddi a rhoi i unigolion y sgiliau a'r hyderi ymyrryd yn ddiogel. Dechreuodd y Fenter Gwyliedyddion fel rhaglen i atal gorfodaeth rywiol a chamdriniaeth ddomestig mewn prifysgolion. Gan gydnabod natur endemig VAWDASV a'r rhan bwysig y gall pawb ar y cyrion chwarae, cyflwynwyd Rhaglenni Gwyliedyddion i gymunedau eraill.

**"Gwnewch y gorau y gallwch nes y byddwch yn gwybod yn well. Pan wyddoch yn well, gwnewch yn well." - Maya Angelou**

**Byddwn yn gwneud y canlynol:**
Defnyddio pob cyfle i herio agweddau sy'n beio'r dioddefwyr a chodi ymwybyddiaeth o wasanaethau cefnogi.

# Arbenigedd a Datblygu'r Gweithlu

Mae VAWDASV yn fusnes i bawb, o'r sawl sy'n cyfarch pobl yn y dderbynfa, i Brif Weithredwr y sefydliad. Mae gennym oll ran i'w chwarae i roi diwedd ar drais a chamdriniaeth. Mae Deddf VAWDASV (Cymru) 2015 yn creu fframwaith o'r math o wersi y dylai unigolion yn y sector cyhoeddus ddysgu, yn dibynnu ar eu rôl yn eu sefydliadau.

Mae'r tablau isod yn nodi cyfanswm nifer y staff perthnasol sydd angen eu hyfforddi ym mhob grŵp yn y Fframwaith mewn pob sefydliad statudol:

| | Cyngor Caerdydd | BIP Caerdydd a'r Fro | Cyngor Bro Morgannwg | Ymddiriedolaeth GIG Felindre |
|---|---|---|---|---|
| **Grŵp 1 – Pob aelod staff a gyflogir gan yr awdurdodau perthnasol** | 14648 | 16000 | 5004 | 1688 |
| **Grŵp 2 – Gweithwyr proffesiynol** sy'n debyg o fod mewn swyddi perthnasol, er enghraifft, trin neu weithio gyda rhywun o ganlyniad i drais a chamdriniaeth ("Gofyn a Gweithredu") | 7893 | 7769 | 3494 | 991 |
| **Gŵp 3 - Unigolion** mewn swyddi "pencampwyr" mewn sefydliad, cefnogi cydweithwyr, ac aelodau teulu'r sawl yr effeithiwyd arnynt. Swyddi sy'n galw am fwy na "Gofyn a Gweithredu" | 184 | 48 | 350 | 10 |
| **Grŵp 4 - Gweithwyr Proffesiynol Arbenigol** y mae eu grŵp cleient yn rhai yr effeithiodd VAWDASV yn uniongyrchol arnynt | n/a | 20 | n/a | n/a |
| **Grŵp 5 – Rheolwyr Gwasanaeth** sy'n gweithio yn y sector VAWDASV | n/a | 10 | n/a | n/a |
| **Grŵp 6 – Arweinwyr strategol** â chyfrifoldeb am feithrin diwylliant a seilwaith o gydnabod materion sy'n effeithio ar weithlu, grŵp cleientiaid, cyfeillion a theuluoedd | 20 | 30 | 17 | 15 |

Dylai goroeswyr yn y rhanbarth ddisgwyl cefnogaeth o ansawdd uchel wedi ei gyflwyno gan staff cymwys a medrus sydd yn:

- deall anghenion a risgiau unigryw gwahanol grwpiau o oroeswyr;
- cymhwyso agweddau gydag ymwybyddiaeth o drawma sy'n adeiladu ar gryfderau ac arbenigwyr goroeswyr;
- deall risg, datblygu cynlluniau diogelwch a rhoi cyngor cywir a manwl am ddewisiadau i oroeswyr;
- deall y gwahanol fathau o VAWDASV, yr hyn sy'n eu hachosi, ac ymyriadau priodol;
- ymwybodol o'u dyletswyddau a'u cyfrifoldebau cyfreithiol;
- cydnabod effaith eu gwaith a sut i'w hamddiffyn eu hunain rhag yr effeithiau andwyol.

**Byddwn yn gwneud y canlynol:**
Parhau i ofalu bod gan y gweithlu y sgiliau i adnabod, cyfeirio a chefnogi dioddefwyr a throseddwyr.

# Arbenigedd a Datblygu'r Gweithlu

Creodd Deddf Trais yn Erbyn Menywod, Camdriniaeth Ddomestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 ofyniad am hyfforddiant VAWDASV ar draws gwasanaethau cyhoeddus a'r trydydd sector arbenigol, trwy gyflwyno'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol. Mae Llywodraeth Cymru yn mynnu bod unrhyw un y mae ei grŵp cleient yn rhai yr effeithiodd trais yn erbyn menywod, camdriniaeth ddomestig a thrais rhywiol arnynt, megis dioddefwyr, plant neu droseddwyr, yn cael:

- mynediad at hyfforddiant priodol yn fuan wedi recriwtio;
- cymwysterau priodol;
- cymryd rhan mewn Datblygu Proffesiynol Parhaus.



Mae hyfforddiant lleol yn parhau i fod yn ffordd bwysig o sicrhau fod gan weithwyr proffesiynol y sgiliau priodol i weithio gyda'r sawl yreffeithiodd trais yn erbyn menywod, camdriniaeth ddomestig a thrais rhywiol arnynt. Cynhaliwyd asesiad anghneion hyfforddi gyda mudiadau arbenigol rhanbarthol, a nodwyd nifer o anghenion hyfforddi, sy'n nodi ffrydiau gwaith i gyflawni agwedd Glasbrint Llywodraeth Cymru.

Bydd partneriaid ar draws y rhanbarth yn gweithio ynghyd i helpu i gwrdd ag anghenion hyfforddi a nodwyd a byddant yn ceisio sicrhau bod y wybodaeth berthnasol a enillir trwy hyfforddiant arbenigol yn cael ei wreiddio yn yr hyn sy'n cael ei gyflwyno ar y rheng flaen. Bydd hyn yn cynnwys ymwneud â hyfforddiant Diogelu Rhanbarthol yn ogystal â'r meysydd Diogelwch Cymunedol a gofal cymdeithasol.

# Mynediad at Hawliau

Er mwyn newid y diwylliant o rywiaeth a misogyniaeth a gwneud Caerdydd yn Ddinas am CEDAW, ymrwymodd Cyngor Caerdydd i weithredu'n effeithiol, gan gynnwys:

- darparu gwybodaeth a chyngor trwy'r hybiau cymunedol a'r llyfrgelloedd ledled Caerdydd i helpu menywod a merched i fynd at yr holl fuddion y mae ganddynt hawl iddynt, gan gynnwys llawlyfr hawliau.
- creu rhaglen o weithgareddau, ar sail o wybodaeth gan fenywod a merched, i rymuso menywod a merched a'u dwyn i mewn, gan gynnwys 'Gŵyl Hawliau', 'Pencampwr Cydraddoldeb' a phrosiectau sy'n cael effaith ar gymdeithas yng Nghaerdydd.

Mae Hawliau Plant wedi eu gwreiddio yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC). Caerdydd yw'r ddinas gyntaf yng Nghymru i gymryd rhan ym mhwyllgor y DU dros fenter genedlaethol UNICEF (UNICEF UK) Dinasoedd Cyfeillgar i Blant a chymunedau, gyda'r uchelgais i gydnabod Caerdydd fel Dinas Gyfeillgar i Blant: dinas gyda phlant a phobl ifanc wrth ei chalon, lle perchir hawliau plant a phobl ifanc gan bawb, yn lle gwych i brifio.

Bydd ein hymrwymiadau i fenywod felly yn cael eu cyflawni ar y cyd â'r Tîm Dinas Gyfeillgar i Blant.



# Newid Cymdeithas

Ymgyrch y Rhuban Gwyn yw'r mudiad byd-eang mwyaf o ddynion a bechgyn yn gweithio i roi terfyn ar drais yn erbyn menywod a merched, hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y rhywiau, a fersiwn newydd o wrywdod.

Dyfarnwyd statws Dinas Rhuban Gwyn i Gyngor Caerdydd dros y 4 blynedd ddiwethaf. Ers derbyn statws Dinas Rhuban Gwyn am y tro cyntaf yn 2014, tyfodd yr ymgyrch leol yn raddol, gyda gweithgareddau yn derbyn cefnogaeth yn genedlaethol a rhyngwladol gan gynnwys y gwely blodau y tu allan i Gastell Caerdydd.

Caiff Cyngor Bro Morgannwg a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro gymorth i ail-ymgeisio am statws Rhuban Gwyn a byddwn yn annog partneriaid yn y Gwasanaeth Tân, Heddlu De Cymru, y Gwasanaeth Prawf a Bwrdd Iechyd Felindre i ymgeisio/ail-ymgeisio.

Fel rhanbarth, byddwn yn parhau i ddatblygu calendr blynyddol o ddigwyddiadau cyhoeddus o gwmpas 16 diwrnod gweithredu i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched. Mae'r calendr yn asio gydag Wythnos Ddiogelu Genedlaethol a byddwn yn gweithio gydag unigolion a grwpiau ar bob lefel. Dros y blynyddoedd diwethaf, yn ystod yr 16 diwrnod gweithredu, yr ydym wedi ymwneud â'r canlynol:

- Arweinwyr gwleidyddol trwy ddigwyddiad trawsbleidiol i randdeiliaid.
- Y gymuned gyfan yn ystod gwylnosau a drefnwyd, gorymdeithiau a gwasanaethau ffydd.
- Ymgynghori unswydd gyda goroeswyr fel yn y caffi sgwrs.
- Ymarferwyr allodd fynd i sesiynau hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth ar y pynciau cyfredol mwyaf perthnasol i'w datblygiad proffesiynol.

WHITE RIBBON .ORG.UK
REGISTERED CHARITY NO.: 1123874
END MALE VIOLENCE AGAINST WOMEN



Llun o'r awyr o blant ym Mro Morgannwg yn ffurfio Rhuban Gwyn dynol ar gyfer Diwrnod Rhyngwladol Dileu Trais yn Erbyn Menywod



Arglwydd Faer ac Arglwyddes Faer Caerdydd yn derbyn plac y Rhuban Gwyn i'r ddinas

**Byddwn yn gwneud y canlynol:**
Cefnogi partneriaid i barhâi i ail-wneud cais am statws Rhuban Gwyn.




# Pennod 4

# AMDDIFFYN

# Rhwymedïau Cyfreithiol

Dogfen yw **Hysbysiad Gwarchod y Cyhoedd (PPN)** i rannu gwybodaeth sy'n caniatau i swyddogion heddlu gofnodi pryderon diogelu pan welir hwy. Cynyddodd nifer y PPN yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg o 50% ers 2019. Yn yr un modd, cynyddodd cyfran y PPN yn ymwneud ag achosion risg uchel o 50%.

Mae **Rhybudd Gwarchod rhag Trais Domestig (DVPN)** yn rhybudd peidio ag ymyrryd a throi allan y gall yr heddlu ei roi i droseddwr pan fyddant wëid dod i ddigwyddiad camdriniaeth ddomestig. Gan mai'r heddlu sy'n rhoi'r DVPN, mae mewn grym o'r amser y caiff ei gyhoeddi, sy'n rhoi i'r dioddefwr y gefnogaeth mae ei angen yn y fan a'r lle. Ymhen 48 awr o gyflwyno DVPN i droseddwr, rhaid i lys ynadon wrando ar gais gan yr hedldu am DVPO.

Gorchymyn sifil yw **Gorchymyn Gwarchod rhag Trais Domestig (DVPO)** sydd yn llenwi bwlch o ran gwarchod dioddefwyr trwy alluogi'r heddlu a'r llysoedd ynadon i roi camau gwarchod yn eu lle yn syth wedi digwyddiad o drais domestig lle nad oes digon o dystiolaeth i gyhuddo rhywun, ac y mae'n ffordd o warchod dioddefwr trwy amodau mechniaeth.

Mae modd gwneud **Gorchymyn Cyfyngu** i amddiffyn y dioddefwr/wyr rhag ymddygiad sy'n gyfystyr ag aflonyddu neu a fydd yn achosi ofn trais, a gellir ei wneud wedi euogfarnu neu gael yn ddieuog o unrhyw drosedd.

Polisi gan yr hedldu yw **Cyfraith Clare**, a adwaenir yn ffurfiol fel y **Cynllun Datgelu Trais Domestig (DVDS)** sy'n rhoi hawl i bobl ofyn a hawl i wybod os oes gan bartner cyfredol neu gynbartner unrhyw hanes blaenorol o drais neu gamdrin. Mae nifer y ceisiadau yn cynyddu.

Yn 2023, cyhoeddodd Llywodraeth y DU newid yn y gyfraith i gynnwys y troseddwyr trais domestig mwyaf difrifol ar y **Gofrestr Troseddwyr Treisgar a Rhyw**. Bydd y gwasanaethau carchardai a phrawf yn gorfod rheoli ar y cyd droseddwyr gyda dedfryd o flwyddyn o leiaf, neu ddedfryd ohiriedig am ymddygiad rheoli trwy orfodaeth – gan roi'r drosedd ar yr un lefel â thrais corfforol.

Yn yr un modd, gall llys ganiatáu **Gorchmynion Gwarchod rhag Priodas dan Orfodaeth (FMPO)** fel dull cyfreithlon o warchod person sy'n wynebu priodi trwy orfodaeth neu a orfodwyd i briodi. Fel gydag AOCMPO gellir ei osod gan:

- y person a orfodwyd i briodi neu sydd mewn perygl o gael ei g/orfodi;
- awdurdod lleol; neu
- unrhyw un arall gyda chaniatâd y llys

Gall llys ganiatáu **Gorchmynion Gwarchod rhag Anffurfio Organau Cenhedlu Menywod (AOCMPO)** fel dull cyfreithlon o warchod dioddefwyr a'r sawl sydd mewn perygl o ddioddef AOCM. Ymysg enghreifftiau o amodau mae ildio pasbort i atal y person mewn perygl rhan cael ei chludo dramor am AOCM neu ofynion a ddylai neb drefnu AOCM y person a warchodir. Gall y canlynol wneud cais:

- y person a gafodd neu sydd mewn perygl o AOCM;
- awdurdod lleol; neu
- unrhyw un arall gyda chaniatâd y llys

Mae'r **Cynllun Datgelu Troseddwyr Rhyw yn erbyn Plant (CSODS)**, a adwaenir hefyd fel **Cyfraith Sarah**, yn gadael i chi ofyn yn ffurfiol i'r heddlu a yw rhywun sydd â chyswllt a phlentyn neu blant:

- yn meddu ar record am droseddau rhyw yn erbyn plant (pedoffeil)
- yn risg i blentyn neu blant am ryw reswm arall

**Yn y rhanbarth cafwyd y gorchmynion a'r ceisiadau a ganlyn:**

- 439 o geisiadau Cyfraith Claire yn 2021 a 506 yn 2022
- Cafwyd y mwyaf o geisiadau Cyfraith Sarah, sef 17, yn 2018 ac y mae llai na 10 cais bob blwyddyn.
- Mae 39 FMPO yn dal yn bodoli
- Mae 23 AOCMPO yn dal yn bodoli
- Mae gan 2 o bobl AOCMPO a FMO

# Ymatebion Amlasiantaethol i Gamdriniaeth Ddomestig

Pedwar nod y Cynadleddau Amlasiantaethol Asesu Risg (MARAC) yw:

- diogelu dioddefwyr camdriniaeth ddomestig (oedolion a phlant)
- rheoli ymddygiad troseddwyr
- diogelu gweithwyr proffesiynol
- gwneud cysylltiadau a phrosesau diogelu eraill

Yn 2022, fe wnaethom gomisiynu SafeLives i gynnal adolygiad annibynnol i weithredu MARAC yn y rhanbarth er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu'r gefnogaeth a'r warchodaeth orau i oroeswyr.

**Meysydd arfer da**

- Gwelir fod arweinwyr strategol yn rhoi blaenoriaeth i gamdriniaeth ddomestig.
- Mae'r ymrwymiad i ddarganfod gwell ffyrdd o ymdrin â materion diogelu, yn enwedig y carfannau hynny o unigolion y mae cymdeithas yn aml yn eu hanwybyddu, i'w ganmol.
- Mae ymrwymiad clir i weithio'n greadigol mewn partneriaeth ac arferion da yn cael eu rhoi ar waith gan gomisiynwyr ac asiantaethau camdriniaeth ddomestig.
- Mae tystioaleth o rai cynrychiolwyr gwybodus ac ymroddedig yn lleol, a llawer o gefnogaeth ar gael i staff sy'n ymateb i gamdriniaeth ddomestig.
- Mae gweithwyr proffesiynol yn ymddangos yn hyderus gyda phroses MARAC a chyfeirio iddo.

**Meysydd gwella**

- Rhaid adolygu'r llywodraethiant er mwyn mireinio prosesau ar draws y rhanbarth ac ar draws y gwahanol strwythurau amlasiantaethol (trafodaethau dyddiol, MARAC, cyfarfodydd amlasiantaethol ynghylch gweithwyr rhyw, caethwasiaeth fodern a masnachu mewn pobl).
- Dal lleisiau goroeswyr yn amlycach ac yn amlach.
- Nodi cynrychiolwyr (a dirprwyon) ar gyfer pob asiantaeth sydd wedi eu hyfforddi am eu rôl a'u cyfrifoldebau ac sy'n barod ar gyfer pob cyfarfod.

**Byddwn yn gwneud y canlynol:**
Gweithredu'r argymhellion allweddol y cytunwyd arnynt o adolygiad Safe Lives MARAC.

Trefniadau Amlasiantaethol Gwarchod y Cyhoedd (MAPPA) – achosion camdriniaeth ddomestig sydd yn cyfrif am ryw draean o achosion Lefel 2 MAPPA yn y pedwar trefniant MAPPA ledled Cymru. Mae'r Gwasanaeth Prawf yn dal i ganolbwyntio ar bwysigrwydd sicrhau cyfeirio troseddwyr TD Risg Uchel/Risg Uchel Iawn i MAPPA. Mae agwedd amlddisgyblaethol at reoli troseddwyr CDd yn hanfodol.

Yn 2022, cyfoeswyd Canllaw MAPPA gyda phennod ar Gamdriniaeth Ddomestig sy'n cryfhau'r agwedd amlasiantaethol i reoli troseddwyr cyson.


Yn benodol, unigolion nad ydynt yn awtomatig yn gymwys am MAPPA ond y dylid eu hystyried ar gyfer eu rheoli trwy Gategori 3 MAPPA oherwydd y lefel o risg o'u cyfeiriad, a'r angen i asiantaethau gyfathrebu a datblygu cynllun ar y cyd i reoli risg. Ymhellach, mae gweithredu Fframwaith Polisi Lefel 1 MAPPA yn rhoi canllawiau clir i ymarferwyr ar reoli'r sawl sy'n gymwys am MAPPA. Maecanolbwynt clir yn MAPPA ar gryfhau cynlluniau diogelu dioddefwyr.

Mae'r Gwasanaeth Cydgordio Asesu a Chyfeirio Camdriniaeth Ddomestig (DAARC) yn wasanaeth cydgordio a reolir gan Dîm Diogelwch Cymunedol Cyngor Bro Morgannwg.

Mae'r gwasanaeth yn rhoi ateb i ddelio ag unigolion sydd ag anghneion cymhleth trwy ddarparu cyfathrebu a chydgordio gwell a mwy integredig wrth ofalu am a chefnogi unigolion sydd angen gwasanaethau lluosog.

Mae'r gwasanaeth wedi helpu dioddefwyr i deimlo'n fwy diogel, wedi gwella eu sefyllfa gartref, gwella eu hiechyd meddyliol a chorfforol, ac ansawdd eu bywydau yn gyffredinol.

# Caledu Targedu




Er yn rhy hir, bu'n rhaid i oroeswyr ddianc o'u cartrefi i le diogel rhag y camdriniwr, gan eu dadwreiddio eu hunain a'u plant. Bydd llochesi yn dal yn ddewis allweddol o ran tai i gefnogi goroeswyr lle gallant gael cefnogaeth a diogelwch. Lle bo hynny'n ddiogel a phriodol, er hynny, fe fyddwn yn ymdrechu i ddefnyddio mesurau caledu targedu i wneud y cartref yn ddiogel i'r goroeswr ddal i allu byw yno.

Cynigir TCC a larymau lladron i oroeswyr sydd â risg uchel a goroeswyr a aseswyd fel rhai sydd angen mesurau ychwanegol. Gall y mesurau hyn gynnwys cloeon ar ffenestri, bolltiau, larymau ffenest a larymau panig personol. Gwnaed yr eiddo canlynol yn fwy diogel trwy fesurau caledu targedu:

| **Bro Morgannwg** | **Caerdydd** |
|---|---|
| 97 yn 2020/21 | 209 yn 2020/21 |
| 116 yn 2021/22 | 157 yn 2021/22 |

**Achos economaidd dros galedu targedu**
Y gost gyfartalog i oroeswr aros mewn lloches yw £4,879 - £6,500 (seiliedig ar gost y lloches leol a hyd arhosiad ar gyfartaledd). O gymharu, cost gyfartalog caledu targedu yw £300 i bob aelwyd.

**Effaith ar oroeswyr**
O'r rhai y gofynnwyd iddynt mewn arolwg ym Mro Morgannwg:

- dywedodd 88% eu bod yn hapus gyda'r gwasanaeth a gawsant
- dywedodd 85% eu bod yn teimlo'n fwy diogel yn dilyn y camau diogelwch ychwanegol.
- dywedodd 61% fod cael y camau diogelwch ychwanegol wedi eu hatal hwy a'u teuluoedd rhag gorfod mynd i loches.


# Oedolion mewn Perygl

Nid oes gan rhai oedolion, yn ddynion a menywod, y sgiliau sylfaenol i allu gofalu amdanynt eu hunain ac aros yn ddiogel, a gall hyn eu gwneud yn fwy agored i gael eu cam-drin. Y natur fregus hon - a diffyg galluedd meddyliol weithiau - sy'n gwneud yr oedolion hyn yn fwy agored i wahanol fathau o gamdriniaeth, yn ogystal ag esgeulustod. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 yn diffinio 'oedolyn mewn perygl' fel rhywun sydd:

1. yn dioddef neu sydd mewn perygl o gamdriniaeth neu esgeulustod;
2. angen gofal a chefnogaeth (boed yr awdurdod yn cwrdd ag unrhyw rai o'r anghneion hynny neu beidio); ac
3. o ganlyniad i'r anghenion hynny na all amddiffyn ei hun rhag camdriniaeth, esgeulustod neu'r risg o'r naill neu'r llall.

Gall hyn gynnwys pobl a nodwyd fel rhai yn Rheoliadau Gofal a Chefnogi (Cymhwyster) (Cymru) 2015. Ymysg ffactorau sy'n gwneud pobl yn fwy bregus mae oed, problemau iechyd meddwl, salwch cronig, risg ymddygiadol, diffyg galluedd meddyliol, problemau cymdeithasol ac emosiynol, tlodi, digartrefedd a chamddefnyddio sylweddau. Mae gan bartneriaid yn y rhanbarth bolisïau a gweithdrefnau i gyfeirio a rheoli Oedolion mewn Perygl at y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol.

Mae gwell ymwybyddiaeth, gwell adrodd a mwy o achosion wedi golygu bod mwy o oedolion mewn perygl ac sydd wedi profi VAWDASV yn cael eu hadnabod a'u diogelu.



# Diogelu Plant a Phobl Ifanc

Mae VAWDASV yn dal i fod yn bryder diogelu o bwys. Yng Nghaerdydd, dros y pum mlynedd a aeth heibio, roedd canran y cofrestriadau amddiffyn plant lle mae camdriniaeth ddomestig yn ffactor ar gyfartaledd yn 55%. Mae cofrestriad lle’r oedd camdriniaeth rywiol yn ffactor yn is o lawer, ond maent wedi dyblu o 3% i 6% dros yr un cyfnod.

| Cefnogodd y gwasanaeth VAWDASV arbenigol i oroeswyr Du a lleiafrifol, y nifer canlynol o oroeswyr Priodas trwy Orfodaeth (PtO), Anffurfio Organau Cenhedlu Menywod (AOCM) a Chamdriniaeth Seiliedig ar Anrhydedd (CSA) | **2019/20** | **2020/21** | **2021/22** |
|---|---|---|---|
| | PtO: 4 | PtO: 5 | FPtO: 6 |
| | CSA: 23 | CSA: 35 | CSA: 24 |
| | AOCM: 20 | AOCM: 26 | AOCM: 13 |

Gall camdriniaeth seiliedig ar anrhydedd gynnwys:


- Camdriniaeth gorfforol
- Rheoli trwy orfodi (monitro llym, bygythiadau)
- Camdriniaeth emosiynol
- Cefnu (gadael rhywun yng ngwlad eu tarddiad neu eu hanfon yn ôl yno);
- Priodi trwy Orfodaeth
- Erthylu trwy orfodaeth
- Profi gwyryfdod
- Anffurfio Organau Cenhedlu Menywod
- Llofruddiaeth (gorfodi hunanladdiad, lladd “anrhydedd”)

Mae’n fwy tebygol o gynnwys troseddwyr lluosog ac y mae’n effeithio ar ystod o gymunedau gan gynnwys y gymuned Sipsi, Roma a Theithwyr.

**RHOI DIWEDD AR AOCM**

Fel rhanbarth mae gennym ddyletswydd i atal AOCM rhag digwydd, cefnogi goroeswyr a dwyn troseddwyr i gyfrif.

**Byddwn yn gwneud y canlynol:**
Cryfhau ein hymateb diogelu i gamdriniaeth seiliedig ar anrhydedd ac AOCM trwy ddatblygu llwybrau cefnogaeth clir.




Mae agweddau diogelu cyfredol, sydd wedi llunio diwylliannau proffesiynol ac wedi gwreiddio iaith, yn canoli ar y rhieni nad ydynt yn cam-drin a’u cyfrifoldeb hwy i ddiogelu eu plant. Nid yw’r agwedd hon yn gwneud y sawl a achosodd y niwed yn atebol am ei ymddygiad nac am ddiogelwch y plant.

Dywedodd gweithwyr proffesiynol yr ymgynghorwyd â hwy trwy adolygiad SafeLives fod Gwasanaethau Plant yn aml yn absennol o gyfarfodydd amlasiantaethol fel MARAC a’u bod yn dangos agweddau o feio’r dioddefwyr trwy eu harferion.

*"Yn bennaf gyda gwasanaethau plant...mae’n ymddangos yn wastad mai cyfrifoldeb y dioddefwr yw sicrhau diogelwch a lles eu plentyn yn hytrach na chyfrifoldeb y troseddwr i beidio a throseddu.... mae’r cyfrifoldeb yn wastad ar y rhiant nad yw’n cam-drin yn hytrach na’r camdriniwr " - Gweithiwr proffesiynol, Gwasanaethau Camdriniaeth Ddomestig (Adolygiad SafeLives)*

Mae Gwasanaethau Plant Caerdydd wedi cyflwyno’r model Diogelach ac Ynghyd fydd yn creu newid radical ym meddylfryd a diwylliant y sefydliad fel a ganlyn:

- partneru gyda’r rhiant nad yw’n cam-drin fel y safbwynt diofyn;
- gwneud y camdriniwr yn amlwg mewn agweddau diogelu ac ymyrryd gyda hwy i leihau risg a niwed i’r plentyn;
- symud ymaith oddi wrth ymateb i ddigwyddiadau ac ail-fframio camdriniaeth ddomestig fel patrwm o ymddygiad rheoli trwy orfodaeth;
- gweithio ar y cyd gyda gwasanaethau sy’n darparu ymyriadau i ddioddefwyr/ goroeswyr a throseddwyr fel ei gilydd;

Cafodd y model ei beilotio ers 2021. Mae gweithwyr cymdeithasol sy’n arbenigo mewn camdriniaeth ddomestig wedi datblygu dulliau ac adnoddau y gall cydweithwyr eu defnyddio i ymchwilio i ymddygiad niweidiol a’u heffaith ar blant, a rhoi cefnogaeth a chyngor arbenigol gydag achosion unigol.

**Byddwn yn gwneud y canlynol:**
Parhau i wneud yn siwr fod plant sy’n destun diogelu yn cael y gefnogaeth arbenigol i adfer o’r trawma a’r gamdriniaeth y maent wedi ddioddef.

# Cam-drin Plant yn Rhywiol

Dengys y ffigyrau isod amcangyfrif o nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n profi trais rhywiol yn y rhanbarth yn flynyddol a thrwy eu hoes (mae hyn wedi ei weithio allan ar sail amcangyfrifon amlder a nodwyd mewn astudiaeth annibynnol a gomisiynwyd gan yr NSPCC)[10].

| Amcangyfrifon | Caerdydd | Bro Morgannwg | Rhanbarth |
|---|---|---|---|
| Pob trosedd camdriniaeth rywiol (gan gynnwys heb gyswllt) | 6,693 | 2,368 | 9,061 |
| Pob trosedd camdriniaeth rywiol yn erbyn plant dros y flwyddyn flaenorol (gan gynnwys heb gyswllt) | 2,973 | 1,154 | 4,127 |

Ac eto, mae diwylliant o stigma a chywilydd ynghylch trais rhywiol yn dal i fodoli, ac yn mygu llais goroeswyr. **Dim ond 1 o bob 8 o achosion o gamdrin plant yn rhywiol sy'n dod i sylw'r awdurdodau**. (ystadegau o'r Ganolfan Arbenigedd ar Gamdrin plant yn Rhywiol) [11]




Yn y rhanbarth, mae llai na 250 o blant dan 13 oed yn dod i sylw'r awdurdodau. Mewn gwirionedd, mae'r ffigwr am adroddiadau o gamdrin yn is o lawer, gan y tybir fod croesgyfeirio rhwng achosion yr adroddir amdanynt wrth yr heddlu a chyfeiriadau at y Ganolfan Gyfeirio Ymosodiadau Rhyw (SARC). Fodd bynnag, bydd union ffigwr am blant sy'n cael eu cam-drin yn rhywiol yn sylweddol uwch oherwydd nifer yr achosion nas adroddir amdanynt.

**Nid cyfrifoldeb y plant yw datgelu.**
**Cyfrifoldeb sefydliadau yw bod yn weithredol a gwyliadwrus.**

Mae'r Ymchwiliad Annibynnol i Gamdrin Plant yn Rhywiol (IICSA)[8] wedi ymwneud â goroeswyr a ddioddefodd gamdriniaeth rywiol yn blant gan oedolion yr ymddiriedwyd ynddynt ac a oedd yn aml yn broffesiynol, gan gynnwys sefydliadau crefyddol, ysgolion preswyl, sefydliadau cadw a rhwydweithiau trefnedig. Dangosodd canfyddiadau'r ymchwiliad sut y mae agweddau cymdeithas o anghrediniaeth a beio'r dioddefwyr wedi bod yn sail i ymatebion statudol neu ddiffyg hynny, gan adael i lawr y miloedd o blant a ddioddefodd o'r herwydd.

**Nifer y plant dan 13 yn y rhanbarth a ddaeth i sylw'r SARC a' heddlu**




**Byddwn yn gwneud y canlynol:**
Gweithio gyda'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol i weithredu argymhellion adroddiad yr Ymchwiliad Annibynnol i Gamdrin Plant yn Rhywiol.

# Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl (ADUS)

Dengys y Cyfrifiad Lladd menywod [12] dros y cyfnod 2009-18, fod menyw yn y DU wedi ei lladd gan ddyn, ar gyfartaledd, unwaith bob 3 diwrnod. Nid yw hyn yn cynnwys y sawl fu farw dam amgylchiadau amheus, marwolaethau sydyn ac annisgwyl, na hunanladdiadau mewn cyd-destun camdriniaeth ddomestig.

Canfu adolygiad gan y Swyddfa Gartref yn 2019 o 124 DHR mai menywod oedd 80% o'r dioddefwyr a 20% yn ddynion, tra bod 83% o'r troseddwyr yn ddynion a 17% yn fenywod. O'r 127 dioddefwr a nodwyd, roedd 14 wedi lladd eu hunain neu'n ymddangos eu bod.

Mae'r canllaw statudol amlasiantaethol am gynnal adolygiadau lladdiadau domestig yn mynnu, lle cymerodd dioddefwr ei f/bywyd ei hun ac y daw i'r amlwg fod camdriniaeth ddomestig, y dylid cynnal Adolygiad Lladdiad Domestig. Adeg ysgrifennu hyn, mae'r adolygiad cyntaf yn dilyn hunanladdiad yn cael ei gynnal yn y rhanbarth, i ddioddefwr ym Mro Morgannwg.




Trosi o **Adolygiadau Lladdiadau Domestig i Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl**

Yn 2022, canfu adolygiad gan Lywodraeth Cymru fod prosesau Adolygiadau Achosion Difrifol (AAD) ac Adolygiadau Lladdiadau Domestig (ALlD) yn llesteirio agwedd synnwyr cyffredin at adolygiadau. Nid oedd y gwersi a ddysgwyd a'r argymhellion a ddeilliodd o'r prosesau hynny yn cael eu rhannau na'u cyd-gasglu yn ganolog, a chanlyniad hyn oedd nad oedd argymhellion cenedlaethol a rhanbarthol yn cael eu dilyn. Ymysg argymhellion yr adolygiad mae:

- Creu **Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (ADUS)** sy'n draws-asiantaethol, gyda fframwaith cyffredin, cylch gorchwyl clir, wedi ei fapio yn unol â fframweithiau cyfredol.
- Llywodraethiant adolygiadau i fod yn y trefniadau Diogelu Rhanbarthol ac nid Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, a dylai cadeiryddion yr adolygiadau fod yn annibynnol ond yn weision cyhoeddus.
- Creu proses adrodd eithriadol trwy Fwrdd Gweinidogol.
- Storfa Ganolog i bob adolygiad yng Nghymru lle gellir gosod gwersi allweddol a'u dosbarthu i atal digwyddiadau ac amddiffyn dioddefwyr. Ar hyn o bryd, mae hyn yn cael ei reoli gan Brifysgol Caerdydd ac y mae cynlluniau i'w drosglwyddo yn y dyfodol i Lywodraeth Cymru.
- Digwyddiadau dysgu a hyfforddi blynyddol i ymarferwyr.

**Rhwydwaith Cefnogi Cyffredinol ADUS**



# VAWDASV yn y Gweithle

Mae VAWDASV yn fusnes i bawb ac y mae pob ymwneud â goroeswyr yn gyfle i ymyrryd, boed hyn yn gyfaill, teulu, defnyddiwr gwasanaeth, cydweithiwr neu weithiwr. Cefnogwyd partneriaid yn y rhanbarth i ddatblygu eu polisïau gweithle sy’n ymdrin â VAWDASV. Yn ddiweddar, mae Cyngor Caerdydd wedi cynhyrchu polisi Urddas yn y Gwaith sydd hefyd yn cryfhau’r ymateb i VAWDASV ac sy’n ymdrin â phob ffurf ar aflonyddu yn y gweithle.


**Yn ôl ymchwil a gomisiynwyd gan y BBC: [13]**

Roedd 40 % o fenywod wedi profi rhyw ffurf ar ymddygiad rhywiol digroeso yn y gweithle

Roedd 18 % o ddynion wedi profi rhyw ffurf ar ymddygiad rhywiol digroeso yn y gweithle

Mae aflonyddu rhywiol a rhywiaethol yn fathau o gamwahaniaethu ar sail rhyw dan **Ddeddf Cydraddoldeb 2010**. Mae Erthygl 40 **Confensiwn Istanbul** yn mynnu bod gwladwriaethau yn *cymryd y mesurau deddfwriaethol angenrheidiol neu fesurau eraill i sicrhau y bydd unrhyw ffurf ar ymddygiad digroeso geiriol, dieiriau neu ymddygiad o natur rywiol sydd â’r bwriad neu’r effaith o dreisio urddas person, yn enwedig wrth greu amgylchedd brawychus, gelyniaethus, diraddiol, cywilyddus neu dramgwyddus, yn destun cosb droseddol neu gosb gyfreithiol arall.*

Roedd **4 o bob** 5 o fenywod yng Nghymru wedi profi aflonyddu rhywiol yn y gweithle [14]




Gall VAWDASV gael cryn effaith ar les emosiynol a chorfforol goroeswr. Efallai y bydd yn gorfod cymryd amseri ffwrdd i adfer a delio â materion ymarferol fel apwyntiadau meddygol, gwrandawiadau llys a chefnogaeth arbenigol. Ar yr un pryd, gall y gwaith fod yn fan diogel a sefydlog yn emosiynol. Yn yr un modd, os main gweithiwr yw’r un sy’n achosi niwed, cyfrifoldeb y cyflogwr yw cymryd camau i ymdrin â’i ymddygiad a’i d/ddal i gyfrif.

**Cefnogaeth i oroeswyr y gellid ei gynnig gan gyflogwyr:**

- Gweithio hyblyg
- Absenoldeb gyda thâl
- Mesurau amddiffyn
- Rhaglen cefnogi gweithwyr
- Cefnogaeth cyfoedion
- Cyfeirio at gefnogaeth arbenigol gan gynnwys cwnsela

Mae **1 o bob 5** o fenywod mewn gwaith yn cymryd amser i ffwrdd o’r gwaith oherwydd trais domestig. [15]



**Mae’r Athro Walby[16] yn amcangyfrif fod camdriniaeth ddomestig yn costio i fusnesau a mannau gwaith yn y DU dros**

**£1.9 biliwn y.f.**


**Byddwn yn gwneud y canlynol:**

- helpu partneriaid i gyfoesi polisïau gweithle i gynnwys aflonyddu rhywiol yn y gweithle
- gweithio gyda Llywodraeth Cymru i roi ar waith gamau sy’n deillio o ffrwd waith y Glasbrint.

# Diogelwch Menywod mewn Mannau Cyhoeddus


Mae aflonyddu rhywiol ar y stryd yn cynnwys galw'n uchel, chwibanu, sylwadau rhywiol digroeso neu jôcs mewn mannau cyhoeddus.

**Mae 9 o bob 10**



o fenywod 18-24 oed ledled y DU yn dweud iddynt brofi rhyw ffurf ar aflonyddu [17]

**Mae 6 o bob 10**



o ddisgyblion benyw yn dweud fod ganddynt brofiad personol o aflonyddu gan gyfoedion [18]

Mae gan fenywod a merched yr hawl i deimlo'n ddiogel mewn mannau cyhoeddus ac y mae'r cyfrifoldeb am fynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol yn bendant gyda'r sawl sy'n gwneud yr aflonyddu.

*Nid cyfrifoldeb menywod yw cadw eu hunain yn ddiogel.*

Mae ofn aflonyddu ac ymosod rhywiol yn ddwfn yn ymwybyddiaeth menywod hyd yn oed os na chawsant brofiad ohono. Mae'r gwaith diarwybod mae menywod eisoes yn wneud i gynllunio diogelwch yn golygu eu bod yn aberthu eu rhyddid am ddiogelwch [19]

**"Gall fy nghariad gerdded i'r gampfa i lawr y lôn fach yna am 6pm yn y gaeaf; roedd yn rhaid i mi esbonio iddo na alla'i wneud hynna [...] yn y gaeaf, ddylai bywyd ddim stopio i fenywod am 4pm."**


Mae menywod hefyd wedi disgrifio diogelwch fel a ganlyn: cael eu cydnabod, bod â'r annibyniaeth a'r rhyddid i fyw eu bywydau fel y mynnant, teimlo'n ddiogel y credir eu gweithredoedd, cred a'u lleisiau yn y mannau lle maent. Canfyddiadau Menywod o Ddiogelwch (Cymorth i Fenywod Caerdydd)



Mae gan y rhanbarth economi nos fywiog, ond gall fod yn gysylltiedig â lefelau uwch o ymddygiad gwrthgymdeithasol, aflonyddu rhywiol a thrais rhywiol.


Er y gall defnyddio alcohol a sylweddau wneud rhai sefyllfaoedd yn waeth, yr ydym yn glir nad ydynt yn gyfrifol am ymddygiad unigolion ac nid ydynt yn esgus dros gamdriniaeth. Fel rhanbarth ac fel partneriaeth, mae angen i ni fynd i'r afael â'r diwylliant gwaelodol o rywiaeth a misogyniaeth sy'n caniatau i VAWDASV ffynnu yn y mannau hyn.

Mae economi'r nos yn cynnwys:
- Canol Dinas Caerdydd, ond hefyd ardaloedd eraill yn y rhanbarth lle mae trigolion yn cymdeithasu, yn ogystal â llwybrau trafnidiaeth.
- Digwyddiadau sy'n denu torfeydd mawr, fel digwyddiadau chwaraeon a chyngherddau
- Menywod a dynion oll, ond dylid ystyried yn arbennig y boblogaeth o fyfyrwyr, unigolion sy'n teithio yn ôl ac ymlaen o'r ardal, a'r rhai sy'n fwy agored i VAWDASV megis menywod sy'n dioddef camfanteisio rhywiol, menywod sy'n cysgu allan, a'r gymuned LHDTC+.



Roedd **82%** o fenywod yn teimlo'n anniogel yn cerdded ar eu pennau eu hunain wedi iddi dywyllu mewn parc neu fan agored arall.[20]

Roedd **42%** o ddynion yn teimlo'n anniogel yn cerdded ar eu pennau eu hunain wedi iddi dywyllu mewn parc neu fan agored arall [20]



Cynhaliodd CyngorBro Morgannwg arolwg gyda thrigolion a phobl sy'n gweithio yn y Fro am eu teimladau ynghylch diogelwch. Ymatebodd 132 o bobl i'r arolwg, gyda dwy ran o dair yn dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel, a dim ond traean yn dweud nad oeddent yn teimlo'n ddiogel. Nodwyd cyffuriau ac alcohol, pobl yn hongian o gwmpas, a diffyg heddlu gweladwy fel y prif ffactorau oedd yn gwneud i bobl deimlo'n anniogel ac a oedd yn arwain at newid ymddygiad, gan gynnwys osgoi rhai ardaloedd, gyrru/ cael lifft neu archebu tacsi, neu beidio mynd allan ar eu pennau eu hunain.

# Diogelwch Menywod mewn Mannau Cyhoeddus

Er mwyn mynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol mewn mannau cyhoeddus ac economi'r nos, rydym wedi ehangu ein gwaith partneriaeth i gynnwys y sectorau preifat a busnes i greu rhanbarth lle mae menywod yn teimlo'n ddiogel i fyw a chymdeithasu.

Crëwyd nifer o fentrau i sicrhau bod menywod yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn ddiogel mewn mannau cyhoeddus gan gynnwys:

- **Mesurau amgylcheddol**: gwell goleuadau a TCC.
- **Street Safe**: app sy'n gadael i unigolion adrodd am ardaloedd daearyddol lle nad ydynt yn teimlo'n ddiogel.
- '**Gofyn am Ani**': cynllun o air cod yw hwn sy'n rhoi i unrhyw un sydd mewn perygl o gamdriniaeth gefnogaeth i gael help a lle diogel i wneud hynny. Cafwyd cynllun peilot mewn fferyllfeydd, ond ers hynny, mae wedi ehangu i fannau fel yr Adran Gwaith a Phensiynau (AGPh), gan gynnwys canolfannau gwaith.
- '**Gofyn am Angela**': menter sy'n galluogi unigolion sy'n teimlo'n anniogel neu dan fygythiad mewn clybiau a bariau i ddefnyddio'r ymadrodd hwn fel cod fel y gall aelod hyfforddedig o'r staff eu helpu trwy alw ar staff diogelwch y lleoliad, eu had-uno gyda'u cyfeillion, neu eu helpu i gael tacsi.
- **Safe Places**: rhwydwaith cenedlaethol o gefnogaeth hygyrch lle gall unrhyw un sy'n teimlo dan fygythiad, mewn perygl neu yn ofnus gael lloches. Mae rhestr o'r rhain ar wefan Safe Places. Dylai llefydd hefyd fod â sticer yn nodi eu bod yn 'Lle Diogel'.
- **Gofodau Diogel**: ystafelloedd cyfrinachol, preifat a diogel i oroeswyr sy'n profi camdriniaeth ddomestig a thrais rhywiol, lle gallant gael adnoddau i'w cefnogaeth, ffôn i gysylltu â pherthynas neu asiantaeth am gefnogaeth a chynllunio eu symudiad nesaf. Mae'r rhain i'w cael yn Boots UK, Morrisons, Superdrug a fferyllfeydd Well, HSBC, banciau'r TSB a fferyllfeydd annibynnol ledled y DU.
- **Railway Guardian**: app yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig sy'n galluogi unigolion i rannu eu siwrne gyda phobl y maent yn ymddiried ynddynt a rhoi gwybod iddynt os ydynt angen cymorth. Mae modd hefyd adrodd am ddigwyddiad trwy'r ap.

Er bod y mesurau uchod yn dda ac i'w croesawu, nid ydynt yn gosod y cyfrifoldeb am gamdriniaeth ar y sawl sy'n ei achosi, ac ni fyddant yn y tymor hir yn creu newid parhaol o ran atal ymddygiad niweidiol.
Fel rhanbarth mae ein hagwedd yn cynnwys y canlynol:

- Ail-lunio'r disgwrs i roi hawliau menywod i fod mewn mannau cyhoeddus heb ofn yn ganolog, a'u cefnogi i adennill mannau cyhoeddus trwy orymdeithiau, gwylnosau ac eistedd.
- Gofalu bod troseddwyr yn cael eu dal ac y defnyddir dulliau deddfwriaethol perthnasol gan gynnwys casglu a rhannu gwybodaeth am ddynion peryglus;defnyddio Gorchmynion Gwarchod Mannau Cyhoeddus, Gorchmynion Ymddygiad Troseddol (GYT) a Hysbysiadau Gwarchod Cymunedol (HGC)
- Gweithio gyda dynion a bechgyn i ymdrin â'u hymddygiad. Gwneud diogelwch menywod yn fusnes i bawb. O staff y bar a'r bownsars i'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig a phobl sy'n sefyll gerllaw, mae gan bawb rôl i'w chwarae i herio ymddygiad ag agweddau pan welant hwy.
- Ymgorffori'r mesurau uchod mewn ymgyrchoedd a chyfathrebu.

**Byddwn yn gwneud y canlynol:**
Sicrhau bod mwy o fannau diogel ar hyd a lled Caerdydd, a dwyn menywod a merched i mewn i'w creu.

# VAWDASV a Thechnoleg

**"Mae'n edrych fel petai cywilydd a thabŵ ynghylch rhyw a'n cyrff wedi ei wreiddio'n ddwfn mewn cymdeithas, a bod hyn yn arwain rhai pobl i gredu fod 'golau gwyrdd' awtomatig i ddefnyddio unrhyw gynnwys rhywiol am unigolyn fel erfyn i geisio difetha eu bywydau neu gam-fanteisio arnynt mewn ffyrdd eraill." - Madison, goroeswr camdriniaeth rywiol seiliedig ar ddelweddau (Egwyddorion Trais yn Erbyn Menywod a Merched i'r Mesur Diogelwch Ar-lein)[21]**

**Camdriniaeth Ar-lein / Seibrdrais yn Erbyn Menywod / VAWG a hwylusir gan dechnoleg neu TG**

Mae cyswllt clir rhwng misogyniaeth a rhywiaeth, yr aflonyddu rhywiaethol mae menywod yn brofi ar-lein, a thrais ar-lein yn erbyn menywod.

## Beth yw camdriniaeth arlein?


- seibrstelcian a chamdriniaeth wedi ei alluogi trwy dechnoleg megis defnyddio technoleg i wneud i rywun ofni yng nghyd-destun camdriniaeth ddomestig a rheolaeth trwy orfodaeth
- aflonyddu arlein gan gynnwys aflonyddu rhywiol
- paratoi ar gyfer camfanteisio neu gamdrin
- camdriniaeth rywiol seiliedig ar ddelweddau gan gynnwys 'porn dial' fel y'i gelwir, uwchsgertio, porn ffug, fideos rhywiol o ymosodiadau a thrais rhywiol
- bygythiadau treisio
- camddefnyddio gwybodaeth bersonol menywod

## Beth yw'r effaith?

Oherwydd bod y byd arlein ar waith 24 awr, mae'n amhosib i oroeswyr ddianc rhag camdriniaeth arlein. Mae'n achosi pryder, dicter, anhawster cysgu, diffyg ymddiriedaeth yn y byd, iselder, ofn niwed, a chywilydd. Yn y pen draw, mae'n cyfyngu ar rywioldeb menywod a'u rhyddid barn. Dengys ymchwil Carnegie [22] i les democrataidd fod 63% o fenywod yn y DU o hyd neu yn aml yn eu sensro eu hunain pan fyddant arlein, fel arfer am eu bod ofn camdriniaeth a heb fod eisiau ddechrau dadlau.


## Amlder

Yn 2017 gofynnodd arolwg arlein gan Amnest Rhyngwladol [23] i 504 o fenywod 18-55 oed yn y DU am eu profiadau o gamdriniaeth arlein.



Dywedodd 1 o bob 5 eu bod wedi profi camdriniaeth neu aflonyddu trwy'r cyfryngau cymdeithasol

Mae menywod 27 gwaith yn fwy tebygol na dynion i ddioddef aflonyddu.[24]



Yn ôl Amnest Rhyngwladol [25], mae menywod Du 84% yn fwy tebygol o gael eu cam-drin arlein na menywod gwyn.



Er na allwn fel rhanbarth ddylanwadu ar gwmnïau technoleg mawr i sicrhau eu bod yn defnyddio mesurau priodol i atal ac ymdrin â chamdriniaeth arlein, fe allwn, serch hynny, sicrhau ein bod yn cynnwys camdriniaeth arlein fel mater o drefn mewn asesiadau anghenion goroeswyr, rhoi'r gefnogaeth briodol, gwneud y materion hyn yn amlwg i'r cyhoedd, a defnyddio'r ddeddfwriaeth sydd ar gael i fynd ar ôl troseddwyr.

## Mesur Diogelwch Arlein

Bu pwysau mawr o du'r cyhoedd i amddiffyn plant ac oedolion rhag risgiau arlein. Mae peth o'r cynnwys y daw plant ac oedolion ar ei draws ar-lein eisoes yn anghyfreithlon. Bydd y Mesur newydd yn gorfodi llwyfannau cyfryngau cymdeithasol i symud ymaith bob cynnwys anghyfreithlon ac ystyried sut y maent yn dylunio eu llwyfannau i'w gwneud yn llai tebygol y cânt eu defnyddio ar gyfer gweithgaredd troseddol. Mae cam-drin plant yn rhywiol, ymddygiad rheoli trwy orfodaeth, 'porn dial' a cham-fanteisio rhywiol yn beth o'r cynnwys y ceisia'r Mesur hwn ymdrin ag ef. Hefyd, bydd disgwyl i lwyfannau atal plant rhag cyrchu cynnwys niweidiol, gan gynnwys cynnwys pornograffig a chamdriniaeth ac aflonyddu arlein.



# Pennod 5
# CEFNOGI

# Cefnogaeth i Blant a Phobl Ifanc

Dengys y ffigyrau isod amcangyfrifon o nifer y plant a phobl ifanc sy'n profi camdriniaeth ddomestig a thrais rhywiol yng Nghymru ac yn y rhanbarth yn flynyddol a thrwy eu hoes (mae hyn wedi ei weithio allan ar sail amcangyfrifon amlder a nodwyd mewn astudiaeth annibynnol a gomisiynwyd gan yr NSPCC)[9].

| Categori | Caerdydd | Bro Morgannwg | Rhanbarth |
|---|---|---|---|
| Amcangyfrif o nifer y plant oedd yn agored i gamdriniaeth ddomestig yn ystod eu plentyndod | 11,828 | 4,247 | 16,075 |
| Amcangyfrif o nifer y plant oedd yn agored i gamdriniaeth ddomestig dros y flwyddyn a aeth heibio | 2,162 | 806 | 2,968 |

Am fod un sydd â risg uchel o gyflawni camdriniaeth ddomestig sydd wedi ymwneud â Rhaglen Drive yn y rhanbarth, mae mwy na 2 o blant sy'ngorfod byw gydag effaith y gamdriniaeth. Mae'r nifer yn uwch pan fyddwn yn cynnwys pob ffurf ar VAWDASV a lefelau'r risg.

Roedd adran y strategaeth hon ar y Blynyddoedd Cynnar yn amlinellu'r achos economaidd, polisi a moesegol dros ddarparu gwasanaeth arbenigol i blant a phobl ifanc sydd yn profi VAWDASV. Amcangyfrifir bod **2,968** o blant yn y rhanbarth sydd wedi cael profiad o gamdriniaeth ddomestig dros y flwyddyn ddiwethaf yn unig. Mae Deddf Camdriniaeth Ddomestig 2021 yn cydnabod plant yr effeithiodd camdriniaeth ddomestig arnynt fel dioddefwyr os oeddent yn bresennol yn ystod digwyddiadau treisgar neu beidio. Yn unol â'r ddeddfwriaeth newydd, mae gan blant yr hawl i fynd at y gefnogaeth berthnasol.

**Byddwn yn gwneud y canlynol:**
sicrhau fod plant a phobl ifanc yn dal i allu mynd at gefnogaeth arbenigol sy'n briodol i'w hoedran

**"Rhywun i holi'r plant ar wahân i'r Gwasanaethau Cymdeithasol, i siarad â hwy neu holi sut maen nhw'n teimlo, am eu bod yn teimlo'n ofnus yn ateb cwestiynau." - Goroeswr VAWDASV**

Mae amrywiaeth o wasanaethau yn y rhanbarth i blant a phobl ifanc. Mae hyn yn cynnwys:

- Cefnogaeth un-i-un;
- Cefnogaeth grŵp;
- IDVA plant a phobl ifanc a gyflwynir trwy wasanaethau arbenigol ac mewn lleoliadau iechyd;
- Rhaglen fentora i blant a phobl ifanc (5-11 oed);
- IDVA gwryw sy'n helpu pobl ifanc i ddeall a thorri'r cylch o fisogyniaeth a rhoi model rôl cadarnhaol;
- Bondio rhieni sy'n cefnogi teuluoedd i adfer wedi profiad o gamdriniaeth;
- Gwasanaethau penodol i rywedd (11-16) sy'n magu hyder a phendantrwydd pobl ifanc;
- Cefnogaeth i berthynas iach;
- Cefnogaeth i blant a phobl ifanc sydd mewn perygl o gamfanteisio rhywiol.



# Cefnogaeth i Gymunedau Du a Lleiafrifol



Mae goroeswyr yn y rhanbarth yn cael trafferth i fynd at gefnogaeth VAWDASV oherwydd eu statws mewnfudo sy'n eu rhwystro rhag cyrchu gwasanaethau cyhoeddus ac arian cyhoeddus. Nid yw Dim Mynediad at Arian Cyhoeddus (DMAC) yn statws mewnfudo ond yn hytrach yn amod y gellir ei osod gan y Swyddfa Gartref ar unigolion fel rhan o ganiatâd iddynt ddod i'r DU neu aros yma. Manylir am yr arian cyhoeddus hwn mewn deddfwriaeth, dan adran 115 Deddf Mewnfudo a Lloches 1999.

Mae rhai pobl sy'n destun rheolau mewnfudo hefyd yn wynebu rhwystrau sy'n cyfyngu ar eu mynediad at waith, tai cymdeithasol, rhentu llety, gofal iechyd ac agor cyfrifon banc. Mae troseddwyr yn ddieithriad yn defnyddio natur fregus goroeswyr gan gynnwys eu statws mewnfudo ansicr fel erfyn i godi dychryn arnynt a'u rheoli.

Daeth llawer mwy o weithwyr mudol a myfyrwyr rhyngwladol i Gaerdydd ers diwedd cyfyngiadau COVID-19 ac y mae'r argyfwng costau byw yn anorfod wedi effeithio arnynt. Mae eu statws DMAC yn eu hatal rhag cyrchu gwasanaethau VAWDASV. Yn ychwanegol at oroeswyr camdriniaeth ddomestig, mae goroeswyr masnachu mewn pobl a chaethwasiaeth fodern hefyd yn cael eu hunain yn destun y rheol DMAC.

Nid yw'r fframwaith polisi a deddfwriaethol presennol yn llwyddo i roi'r un gefnogaeth a gwarchodaeth i fewnfudwyr sy'n oroeswyr VAWDASV, sydd wedi creu system warchod ddwy haen. Cadarnhaodd Llywodraeth y DU Gonfensiwn Istanbul ond gan gadw erthygl 59 yn ôl, sy'n gosod allan rwymedigaethau gwladwriaethau i warchod menywod mudol. O ganlyniad, ni all dioddefwyr a goroeswyr sy'n fudwyr gyrchu cefnogaeth a gwarchodaeth heb gamwahaniaethu, waeth beth yw eu statws fel mewnfudwyr neu ffoaduriaid.

Er nad yw mewnfudo yn faes polisi datganoledig yng Nghymru, y mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wneud Cymru yn Genedl Noddfa trwy ddefnyddio eu pwerau datganoledig i roi mesurau ar waith tuag at y nod hwn, megis cyllido cyngor cyfreithiol ar fewnfudo, hyrwyddo cysyniad Cenedl Noddfa ar draws y sectorau tai a digartrefedd, datblygu mynediad at ddewisiadau llety mewn argyfwng, a cheisio dylanwadu ar y Swyddfa Gartref i ddiogelu unigolion rhag y canlyniadau mwyaf niweidiol. Mae hefyd wedi ymrwymo i Gronfa'r Dewis Olaf i oroeswyr â Dim Mynediad at Arian Cyhoeddus.

Ym mis Mawrth 2023, cyhoeddodd Llywodraeth y DU cynllun peilot o gronfa gwerth £300,000 i gynnig taliadau unwaith-am-byth i helpu goroeswyr i ffoi rhag camdrinwyr. Bydd goroeswyr yn derbyn £250, neu £500 os oes ganddynt blant. Mae hyblygrwydd y cyllid yn sicrhau y gall gwasanaethau arbenigol roi cefnogaeth uniongyrchol i oroeswyr, waeth beth fo'u statws mewnfudo.

**"Ers gormod o amser, gadawyd dioddefwyr a goroeswyr sy'n Sipsiwn, Romaa Theithwyr (SRT) ar ôl " – Comisiynydd Camdriniaeth Ddomestig**


Dengys tystiolaeth:

- Yn ôl cyfrifiad 2021, fod 1,340 o bobl o'r gymuned SRT yn byw yn y rhanbarth.
- Fod goroeswyr o'r gymuned SRT yn debyg o gael eu gadael allan o ystadegau monitro ethnig. Mae 76% o bobl SRT wedi cuddio eu hethnigrwydd i osgoi camwahaniaethu neu ragfarn. [27]
- Cafodd rhai goroeswyr SRT brofiad o'r hyn a elwir yn 'gamdriniaeth seiliedig ar anrhydedd' ond nid yw hyn yn rhan o brofiad yr holl oroeswyr SRT.[28]
- Mae ofn y Gwasanaethau Cymdeithasol yn gwneud goroeswyr SRT yn ofnus o gysylltu â'r heddlu. Mae nifer cynyddol o fenywod yn gwneud amdanynt eu hunain yn dilyn cyswllt â'r Gwasanaethau Cymdeithasol. [28]
- Nid yw'r rhan fwyaf o oroeswyr SRT yn ymwybodol o wasanaethau oherwydd diffyg ymwneud â'r cymunedau.[28]

Yn yr un modd, mae'r gymuned Bwylaidd yn anweledig mewn ystadegau dan ambarél fras y categori 'gwyn arall' er bod 3,970 o unigolion yn y rhanbarth wedi cofrestru am statws sefydledig gyda'r Swyddfa Gartref. Dengys y Cyfrifiad Lladdiadau Menywod mai menywod Pwylaidd yw'r ail grŵp mwyaf i gael eu llofruddio, ar ôl Prydeinwyr. Mae rhwystrau iaith, diffyg dealltwriaeth o'r gefnogaeth sydd ar gael, ac ofn y Gwasanaethau Plant yn rhwystrau i gefnogaeth.

**Byddwn yn gwneud y canlynol:**
Casglu data a gwybodaeth am brofiadau cymunedau DLlE i ddeall eu hanghenion yn well.

# Menywod dan Anfanteision Lluosog




Mae menywod a merched sy’n gysylltiedig â gangiau yn aml yn cael eu colli o gasglu data a naratifau am linellau sirol [29]. Y mae hyn er bod gweithwyr proffesiynol yn sôn fwyfwy am fenywod ifanc yn ymwneud â gangiau ar yr un lefel â dynion ifanc, a bod agwedd rywedd i ymwneud menywod a merched. Ymysg problemau a wynebir gan fenywod a merched mae:

- Menywod a merched yn cael eu recriwtio i gangiau trwy orfodaeth a cham-fanteisio rhywiol.
- Menywod a merched sy’n gwneud y llafur emosiynol mewn gangiau.
- Fodd bynnag, mae cysylltiadau a pherthynas emosiynol mewn gang yn golygu eu bod yn cael eu gorfodi i ffoi o’r berthynas a’r rhwydwaith troseddol.
- Er bod a wnelo’r rhan fwyaf o weithgaredd llinellau sirol â masnachu mewn cyffuriau, mae menywod a merched yn fwy tebygol o ddioddef trais rhywiol a chamfanteisio.

- Mae menywod dan anfanteision lluosog (a elwir hefyd yn anghneion cymhleth) yn llai tebygol o gyrchu gwasanaethau VAWDASV arbenigol.[30]
- Mae dros chwarter yr holl gefnogaeth i fenywod dan anfanteision lluosog yn cael ei gynnig ynghylch beichiogrwydd (e.e. cefnogaeth arbenigol gan fydwragedd am gamddefnyddio sylweddau, ac iechyd meddwl amenedigol). [30]
- Mae profiad menywod a merched o anfanteision lluosog yn cael ei gymhlethu ymhellach gan gamfanteisio rhywiol a chyswllt â gangiau.

Mae profiadau menywod o anfanteision lluosog yn wahanol i brofiadau dynion:

- Mae menywod a merched yn fwy tebygol o fod yn ddigartref gudd, yn syrffio soffa, yn rhoi 'rhyw am rent' a dioddef trefniadau sy’n camfanteisio arnynt. [31]
- Profodd dros hanner y menywod yn y system cyfiawnder troseddol gamdriniaeth ddomestig a/neu drais seiledig ar rywedd rywbryd yn eu bywydau [32].
- Mae cyswllt cryf rhwng iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau gan fenywod â thrawma eu camdriniaeth. Gall mynd â’u plant ymaith fod yn rhwystr mawr iddynt adfer.

Cynyddu bob blwyddyn wnaeth nifer y menywod ag anghenion cymhleth a risg gysylltiedig sy’n mynd at wasanaethau tai yng Nghaerdydd:

130 in 2019/20 (risg uchel - 48%)
139 in 2020/21 (risg uchel - 57%)
152 in 2021/22 (risg uchel - 61%)

Yr ydym yn cydnabod yr angen am wasanaethau llety ymatebol i rywedd ar gyfer menywod sydd dan anfanteision lluosog. Yr ydym felly yn cynllunio i ddatblygu darpariaeth tai benodol i fenywod sydd ag anghenion cymhleth.

**Byddwn yn gwneud y canlynol:**
Gweithredu argymhellion y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Anghenion Cymhleth

# Cefnogaeth Seiliedig ar Lety

Darpariaeth i ddynion a menywod

**Asesiad anghneion a risg cychwynnol**




## Lloches argyfwng cymunedol

I fenywod a phlant ag anghneion a risg uwch a/neu sydd angen bod mewn gofod cymunedol.

**Darperir cefnogaeth ar y safle – mae rhai llochesi yn cael eu staffio 24 awr y dydd**

## Unedau gwasgaredig yn y gymuned

I unigolion a theuluoedd nad yw llety cymunedol yn addas iddynt. Gall hyn gynnwys unigolion hŷn neu anabl sydd angen llety wedi ei addasu / unigolion nad sydd angen cefnogaeth ddwys, ond yn hytrach gefnogaeth unigol.

Mae unedau tai gwasgaredig ar gael i ddynion a menywod yn y gymuned.

**Mae unedau wedi'u gwasgaru yn y gymuned a chynigir cefnogaeth gan staff sy'n ymweld**

## Llety gwreiddiol y goroeswyr

Lle bo hynny'n ddiogel a phriodol, gall y goroeswr aros yn ei llety ei hun trwy ddefnyddio mesurau caledu targedau i wneud y llety yn fwy diogel.

**Gellir darparu cefnogaeth ychwanegol gan staff arbenigol sy'n ymweld**

Mae mynediad at **lety diogel ac addas** yn allweddol i oroeswyr ddechrau ail-godi eu bywydau ac adennill annibyniaeth yn rhydd o gamdriniaeth ac ofn. Mae darparwyd gwasanaethau arbenigol yn y rhanbarth yn cyflwyno amrywiaeth o fodelau gwahanol o gefnogaeth seiliedig ar lety wedi eu teilwrio o gwmpas anghenion unigryw unigolion.

Mae Amgylcheddau Seicolegol Ymwybodol, wedi eu harwain gan anghenion, seiliedig ar gryfder a chydag ymwybyddiaeth o drawma yn cael eu cymhwyso wrth ddarparu cefnogaeth i oroeswyr yn y lleoliadau hyn.

## Ail-gartrefu sydyn – llety tymor-hir

Mae ein hagwedd o **Ail-gartrefu Sydyn** yn golygu y gallwn sicrhau bod y gefnogaeth yn ffitio o gwmpas y goroeswr fel y gall symud i lety tymor-hir yn ddiogel a pheidio â bod yn ddigartref am gyfnod maith.

**Byddwn yn gwneud y canlynol:** adolygu'r llwybr llety, cefnogaeth gymunedol ac elfennau ataliol cyflwyno gwasanaethau er mwyn gwneud yn siwr eu bod yn parhau i gwrdd â'r angen

# Camfanteisio Rhywiol


Nid oes ffynhonnell data fyddai’n caniatau amcangyfrif faint sy’n dioddef camfanteisio trwy’r diwydiant rhyw. Roedd astudiaeth [3] a gomisiynwyd gan y Swyddfa Gartref a CHTh De Cymru i "*natur ac amlder puteindra a gwaith rhyw*" yn nodi nifer o anawsterau o ran casglu data gan gynnwys ei natur gudd, darfodedig ac amlweddog, ac anghysondeb wrth gasglu gwybodaeth, a hynny’n dameidiog. Mae’r rhan fwyaf o astudiaethau yn rhoi ffigwr y DU yn y rhanbarth o 80,000[34]. Mae newidiadau i’r system budd-daliadau lles, llymder a chynnydd mewn costau byw wedi gwthio llawer o fenywod i dlodi a chamfanteisio rhywiol. Mae gwefannau oedd yn cael eu defnyddio gynt i hysbysebu gwasanaethau rhywiol wedi cael eu cau i lawr, tra bod pandemig COVID-19 wedi arwain at amlhau llwyfannau arlein fel Only Fans.

Mae’r disgwrs am y mater hwn yn aml yn cael ei begynnu rhwng 'gwaith rhyw' a 'chamfanteisio’. Mae Dr Mulvihill[35] yn rhoi dadansoddiad mwy amlhaenog sydd hefyd yn cymryd i ystyriaeth y menywod y mae eu 'dewis' i fynd i mewn i’r diwydiant rhyw wedi ei gymhlethu gan anfantais strwythurol megis tlodi ac angen dybryd, statws mewnfudo ansicr a Dim Mynediad at Arian Cyhoeddus, diffyg gwaith arall, sydd yn aml yn gysylltiedig â diffyg gofal plant da a fforddiadwy. Mae eu 'dewis' yn aml yn ddewis yn lle dim arall.

Mae’r diffyg cyfleoedd eraill yn rhoi menywod dan fwy o anfantais yn y diwydiant trwy eu rhoi mewn perygl o niwed strwythurol a thrais seiledig ar rywedd gan gynnwys trais, ymosodiadau corfforol, lladrata, stelcian, blacmel yn ogystal â thrais a chamdriniaeth gan bartneriaid agos. I gydnabod y cymhlethdodau hyn, mae’r defnydd o iaith yn y strategaeth yn cyfeirio at fenywod/oedolion sy’n dioddef camfanteisio rhywiol, nid 'gweithwyr rhyw'.

**"Dydych chi ddim yn gwybod sut mae’n gwneud i mi deimlo, peidio cael fy marnu a ‘nhrin i fel person."**
**"Rwy’n hoffi dod i’r swyddfa. Mae’n Ofod Diogel ac yn teimlo fel teulu."**
**Goroeswyr VAWDASV**

Rydym yn cefnogi argymhellion **Grŵp Gweithredol Camfanteisio Rhywiol Cymru Gyfan**



- Ymrwymiad i gynnwys camfanteisio rhywiol yn y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol.
- Nodi cysylltiadau rhwng camfanteisio rhywiol ar blant a chamfanteisio rhywiol ar oedolion.
- Canllawiau cyson i heddluoedd ar ymdrin â chamfanteisio rhywiol.
- Cydnabod natur benodol aflonyddu ar y stryd sy’n dod i ran menywod y cam-fanteisiwyd arnynt yn rhywiol.
- Ymyriadau gyda throseddwyr a ffrydiau gwaith i ystyried y sawl sy’n camfanteisio yn rhywiol.
- Ymwneud ystyrlon â goroeswyr camfanteisio rhywiol.

Mae asiantaethau yn y rhanbarth wedi ymrwymo i wella lefel eu gwybodaeth a’u dealltwriaeth o’r heriau a’r rhwystrau a wynebir gan bobl sy’n dioddef camfanteisio wrth gyrchu eu gwasanaethau.

Bu prosiect StreetLife Cymru Ddiogelach yn rhedeg yng Nghaerdydd ers 2005 ac y mae wedi trawsnewid bywydau llawer o fenywod y mae gwaith rhyw wedi effeithio arnynt, a dioddefwyr a goroeswyr camfanteisio rhywiol. Sail y prosiect yw’r gred fod gan fenywod sy’n dioddef camfanteisio trwy’r diwydiant rhyw yr hawl i fod yn ddiogel ac y gallant fynd at y gefnogaeth briodol. Mae gwasanaeth hyblyg, ymwybodol o drawma ac sy’n cael ei arwain gan anghenion ac sy’n seiliedig ar gryfder yn cael ei gyflwyno trwy’r canlynol:


- Estyn Allan Gyda’r Nos
- Cefnogaeth symudol yn ystod y dydd a gwasanaeth Estyn Allan Pendant
- Galw heibio /Gofod diogel /Mynediad Agored trwy Ganolfan Menywod unswydd
- Cefnogaeth unswydd gyda thai gyda Chymdeithas Tai Cymunedol Caerdydd i gefnogi menywod i gynnal eu tenantiaethau.

Mae’r gwasanaeth yn gweithio gyda 150 o fenywod ar unrhyw un adeg.

# Caethwasiaeth Fodern a Masnachu mewn Pobl

## Ffug-chwedl:

Dim ond i bobl a ddaeth yma o dramor y mae Caethwasiaeth Fodern a Masnachu mewn Pobl (CFMP) yn digwydd



## Ffaith:

Roedd **32%** o'r rhai a gyfeiriwyd at MARAC CFMP Caerdydd yn Brydeinwyr

## Ffug-chwedl:

Menywod sy'n dioddef CFMP yn bennaf




## Ffaith:

**Dynion oedd** 51% o'r rhai a gyfeiriwyd at y MARAC CFMP.

## Ffug-chwedl:

Mae masnachu yn fater o gamfanteisio rhywiol yn bennaf




## Ffaith:

Mae CFMP yn golygu gwahanol fathau o gamfanteisio

* Data a gasglwyd o gyfeiriadau at yr Uned CFMP am 2018-22

"Fe ddechreuais fynd mas gyda'r boi yma. Roedd e'n dweud wrtha'i: "Rwy'n dy garu di; rwy eisiau treulio 'mywyd gyda thi. Ti yw'r fenyw rwy eisiau yn fy mywyd ", ac fe ddechreuodd fy argyhoeddi ac fe ddechreuais garu'r dyn, ond roedd y cyfan ddywedodd yn gelwydd. Fe wnaeth e fy nhwyllo a 'ngorfodi i weithio neu gysgu gyda dynion eraill. Roedd e'n bygwth bywydau fy mhlant, yn dweud wrtha'i pe na bawn i'n gwneud beth bynnag ddywedai e, na fuasen i'n gweld fy mhlant eto. Cefais fy ngorfodi i wneud y peth yma, i gysgu gyda llawer o ddynion mewn un noson." - Tystiolaeth goroeswr VAWDASV


## Ffug-chwedl:

Mae CFMP yn golygu grym a thrais

## Ffaith:

Er y gall CFMP olygu defnyddio grym a thrais, gall hefyd olygu **twyll, gorfodaeth a dichell**

Mae mwy yn dal i gael eu harestio am CFMP yng Nghaerdydd a'r Fro. Yr ydym wedi ymrwymo i barhau i godi ymwybyddiaeth gyda phartneriaid yn y rhanbarth i daflu goleuni ar drosedd sydd aml yn gudd.




Mae cefnogaeth a llety diogel yn cael ei ddarparu gan Brosiect Diogel a gyllidir gan Lywodraeth Cymru a'i reoli gan Bawso. Gan weithio'n agos gyda'r Heddlu a Llu'r Ffiniau, dan nawdd Byddin yr Iachawdwriaeth, mae'r prosiect yn cefnogi dioddefwyr gwryw a benyw, gyda rhai wedi eu cyfeirio trwy'r Mecanwaith Gyfeirio Genedlaethol.

# Canoli ar Drais Rhywiol

*"Gall camdriniaeth ddomestig, er hynny, fod yn flaenllaw yng nghanfyddiad y cyhoedd a phobl broffesiynol. Gall hyn arwain at ymatebion yn dechrau ac yn diweddu gyda chamdriniaeth ddomestig, gan golli'r cyd-destunau ehangach. Gall hyn olygu nad yw gweithwyr proffesiynol yn sylweddoli fod angen cyfeirio, gan drin camdriniaeth fel mater diogelu yn hytrach na throsedd, neu gomisiynwyr yn meddwl bod darpariaeth camdriniaeth ddomestig yn ticio'r holl flychau. Yn ystod y strategaeth hon, yr ydym eisiau sicrhau bod dealltwriaeth am VAWDASV yn gynhwysfawr, gan drin trais rhywiol mor llwyddiannus ag y byddwn yn trin camdriniaeth ddomestig, er enghraifft" -*
**Trais yn erbyn menywod, camdriniaeth ddomestig a thrais rhywiol: strategaeth Llywodraeth Cymru 2022 hyd 2026**

Bu goroeswyr trais rhywiol yn aml yn llai gweladwy mewn disgwrs yn ymwneud â VAWDASV oherwydd y stigma a'r cywilydd a ddaw i'w rhan.
Ers ein strategaeth ddiwethaf, mae miliynau o oroeswyr ledled y byd wedi torri trwy'r tawelwch am drais rhywiol ac aflonyddu rhywiol gyda dyfodiad mudiadau **#metoo** a **#timesup**. Hefyd, bu nifer y cyfeiriadau at wasanaethau arbenigol trais rhywiol yn y rhanbarth yn cynyddu bob blwyddyn, o ran niferoedd a chymhlethdod, yn enwedig yng nghyswllt materion iechyd meddwl a diogelu.

Tra bod troseddwyr yn fwy tebygol o fod yn rhywun sy'n hysbys i'r dioddefwr, nid yw trais rhywiol yn wastad yn digwydd yng nghyd-destun camdriniaeth ddomestig.


**737** Roedd nifer y cyfeiriadau at y **Ganolfan Gyfeirio Ymosodiadau Rhywiol (SARC)** yn 2020/21

**1/3** mam ymosodiadau heb fod yn rhai diweddar.

**4%** Mae goroeswyr sy'n cyrchu gwasanaethau gan **Lwybrau Newydd** angen cefnogaeth trais rhywiol yng nghyd-destun sefyllfa o gamdriniaeth ddomestig.

**22%** Adroddiadau am brofiad o gamdriniaeth ddomestig ar unrhyw adeg yn eu bywydau.

Mae ymateb y partneriaid, a arweinir gan anghneion ac ymwybyddiaeth o drawma i drais rhywiol a chamdriniaeth yn cynnwys amrywiaeth o ddewisiadau gan gynnwys: cwnsela a therapi, gwasanaethau Canolfan Gyfeirio Ymosodiadau Rhywiol (gan gynnwys archwiliadau fforensig), eiriolaeth a chefnogaeth yn y system cyfiawnder troseddol, cefnogaeth seico-addysgol, emosiynol ac ymarferol. Mae Llwybrau Newydd hefyd yn darparu sesiynau codi ymwybyddiaeth, hyfforddiant ar drais rhywiol a thrawma i ymarferwyr.





# Ymatebion Iechyd i VAWDASV

## IDVA mewn ysbytai

Mae VAWDASV yn fater iechyd cyhoeddus gyda chryn ganlyniadau o ran iechyd meddwl a lles goroeswyr. Dengys ymchwil [36] fod goroeswyr oedd yn ymwneud ag IDVA mewn ysbyty yn fwy tebygol o ddatgelu lefelau uwch o anghenion lluosog yn ymwneud â'u hiechyd meddwl, cyffuriau ac alcohol na'r rhai oedd yn mynd at wasanaethau cymunedol.

Creodd pandemig COVID-19 ofyniad diogelwch ar unigolion i fynd at wasanaethau iechyd heb fod ffrind neu aelod o'r teulu gyda hwy. Creodd hyn gyfle naturiol i holi'n ddiogel unigolion oedd yn dod i'r adran frys, ac arweiniodd hyn at gynnydd o 67% yn nifer y datgeliadau. Mewn ymateb, gwreiddiwyd ymholi fel mater o drefn ymhellach yng ngwaith yr adran.
Hefyd, mae IDVA Pobl Ifanc wedi ei sefydlu i gryfhau'r tîm IDVA i roi cefnogaeth i gleifion 11 -17 oed sydd wedi profi VAWDASV gan gynnwys camdriniaeth ddomestig, trais rhywiol a chamfanteisio rhywiol.




## Clinig Lles Menywod



Mae'r Clinig Lles Menywod yn Ysbyty Brenhinol Caerdydd yn wasanaeth llwybr-cyflym sy'n cynnig triniaeth a chefnogaeth arbenigol i fenywod a ddioddefodd anffurfio eu horganau cenhedlu (AOCM). Gall gweithwyr proffesiynol a phob menyw yr effeithiodd AOCM arnynt hunangyfeirio at y Clinig Lles Menywod, waeth beth fo'u hoedran.

Bydd menywod yn derbyn cysondeb gofal gan fydwraig arbenigol sy'n asesu ac yn cefnogi ceiswyr lloches sydd newydd gyrraedd ac yn eu cefnogi ar hyd eu taith, gan gynnwys bob yn y theatr pan gânt driniaeth i ddad-waëgu. Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth yn gorfod gwrthod cyfeiriadau o ardaloedd cyfagos, ac ni all roi cefnogaeth arbenigol a chyson i oroeswyr sy'n cael eu gwasgaru i ardaloedd eraill o Gymru. Mae gan y clinig hefyd seicolegydd sy'n rhoi cefnogaeth gyda'r haenau lluosog o drawma a ddaw i ran menywod sy'n ceisio lloches. Mae menywod sy'n dod at y gwasanaeth yn awyddus mai hwy fydd y rhai olaf yn eu teulu i ddioddef AOCM.

Mae menywod mudol yn profi mathau penodol o drais a thrawma:

- yn y wlad y deuant ohoni
- yn ystod y broses fudo
- pan gyrhaeddant y wlad sy'n eu derbyn

# Ymatebion Iechyd i VAWDASV

## IRIS+

IRIS+ yw'r Gwasanaeth Estynedig Adnabod ac Atgyfeirio i Wella Diogelwch, ac y mae'n estyniad i brosiect llwyddiannus IRIS mewn meddygfeydd, sydd yn adnabod, dogfennu a chyfeirio menywod sydd wedi dioddef trais a chamdriniaeth ddomestig.

### Nod IRIS+

Gwyddom, i lawer o ddioddefwyr a goroeswyr trais a chamdriniaeth ddomestig , mai'r feddygfa yw'r un fan lle cânt eu gweld ar eu pennau eu hunain. Gwyddom hefyd fod dioddefwyr a goroeswyr, yn ddynion a menywod, yn teimlo y byddai'n briodol i'w meddyg teulu neu eu nyrs eu holi am drais a chamdriniaeth ddomestig.

Nod IRIS+ yw gwella ymateb meddygon teulu i drais a chamdriniaeth ddomestig, ac adeiladu ar lwyddiant IRIS trwy hyfforddi gweithwyr gofal iechyd sylfaenol, a darparu llwybr uniongyrchol a syml at wasanaeth arbenigol yn lleol. Mae model yr ymyriad yn ymgorffori hyfforddiant a, yr isod, a llwybrau cyfeirio:

- Dioddefwyr/goroeswyr a throseddwyr gwryw
- Troseddwyr benyw (yn ogystal â dioddefwyr/goroeswyr)
- Plant fu'n agored i gamdriniaeth ddomestig a chamdriniaeth

Mae 57 meddygfa yn y rhanbarth. Yn ystod y 3 blynedd ddiwethaf, derbyniodd y meddygfeydd canlynol hyfforddiant:

Blwyddyn 2018-2019
5 practis

2019-2020
17 practis

2020-2021
2 bractis




Amcangyfrifir fod cost y niwed corfforol ac emosiynol a ddaw i ran dioddefwyr camdriniaeth ddomestig yn unig yn £47 biliwn, gyda'r niwed emosiynol (yr ofn, pryder a'r iselder a ddaw i ran dioddefwyr o ganlyniad i gamdriniaeth ddomestig), yn cyfrif am y rhan fwyaf o bell ffordd o'r costau cyffredinol.[37]

## Adfer

Mae VAWDASV yn cael ei gydnabod yn eang fel mater iechyd cyhoeddus ac yn torri ar hawliau dynol, ond dengys astudiaethau [38] ei fod hefyd yn fater iechyd meddwl cyhoeddus, gyda chysylltiad achosol rhwng iechyd meddwl gwael a VAWDASV.

- Mae cysylltiad rhwng iselder a thrais a chamdriniaeth ddomestig yn ei sgîl. Yn yr un modd, mae camdriniaeth ddomestig yn cynyddu'r tebygolrwydd o iselder mewn menywod, gan gynnwys iselder wedi geni.
- Mae gan bobl sydd mewn cysylltiad â gofal eilaidd hanes o gyfraddau arbennig o uchel o drais rhywiol, gyda 10% o amlder trais rhywiol yn y flwyddyn a aeth heibio. Dywedodd dros hanner y sawl a dreisiwyd neu y ceisiwyd eu treisioeu bod wedi ceisio lladd eu hunain o ganlyniad i'w profiad.
- Awgryma nifer fechan o astudiaethau fod lefelau uchel o symptomau, gan gynnwys symptomau o iselder, gorbryder a PTSD mewn menywod sydd wedi dianc rhag y sawl oedd yn eu masnachu.
- Gall menywod ag AOCM fod yn fwy tebygol o gael diagnosis seiciatryddol ac i brofi symptomau o orbryder, iselder, cyflyrau corfforol oherwydd cyflwr meddyliol, PTSD, a diffyg hunan-barch.

**Byddwn yn gwneud y canlynol:**
Sicrhau bod IRIS+ yn cael ei weithredu'n llawn yn y rhanbarth.

# Ein gwasanaethau

| | |
|---|---|
| **Bawso** | Sovereign Quay, Stryd Havannah, Caerdydd, CF10 5SF<br>029 20 644 633 & 0800 731 8147 |
| **Cymorth i Fenywod Caerdydd** | 50 Stryd Meteor, Caerdydd CF24 0HE<br>029 2046 0566 |
| **Prosiect Cedar** | 0808 801 0321 / 029 2077 6000 |
| **Prosiect Dyn / Cymru Ddiogelach** | Llawr 1af, Tŷ'r Castell, Stryd y Castell, Caerdydd, CF10 1BS - 0808 801 0321 / 029 2022 0033 |
| **Llwybrau Newydd** | 19 Cilgant Sant Andreas, Caerdydd, CF10 3DB<br>029 2022 0390 |
| **RISE** | Siop un Stop, Ysbyty Brenhinol Caerdydd, Bloc 24, Stryd Longcross, Caerdydd CF24 0JT - 029 2046 0566 |
| **Safer Merthyr Tydfil** | 89-90 Pontmorlais, Merthyr Tydfil CF47 8UH<br>01685 353999<br>Ymyriadau a gyflwynir yn Nhŷ'r Crynwyr, Caerdydd |
| **Canolfan Gyfeirio Ymosodiadau Rhywiol** | SARC Ynys Saff, Ysbyty Brenhinol Caerdydd, Heol Glossop, Caerdydd, CF24 0SZ - 029 2049 2233 |
| **Gwasanaethau Camdriniaeth Ddomestig y Fro** | 198 Heol Holton, Y Barri, CF63 4HN<br>01446 744 755 |
| **Clinig Lles Menywod** | Ysbyty Brenhinol Caerdydd, Stryd Longcross, CF24 0SZ<br>02920 33 54 49 |

| | | |
|---|---|---|
| Llinell Gymorth Byw Heb Ofn | Llinell Gymorth VAWDASV Cymru Gyfan | 0808 801 0800 |
| Galop | Llinell Gymorth i Oroeswyr LHDTC+ | 0800 130 3335 |
| SignHealth | Deaf survivors | Text 07800 003421<br>da@signhealth.org.uk |
| Forced Marriage Unit | Cefnogaeth i oroeswyr Priodas dan Orfodaeth | 020 7008 015 |
| Karma Nirvana | Llinell Gymorth Rhwydwaith Goroeswyr Anrhydedd | 0800 5999 247 |
| Modern Slavery Helpline | Cefnogaeth i oroeswyr Caethwasiaeth Fodern | 0800 0121 700 |
| The Traveller Movement | Llinell Gymorth i Fenywod o Sipsiwn, Roma a Theithwyr | 07541 637 795 |
| Vesta Specialist Family Support | Cefnogaeth i oroeswyr a Throseddwyr Pwylaidd | 0800 061 4004 |
| Men's Helpline | Cefnogaeth i wrywod a ddioddefodd gamdriniaeth | 0808 8010 327 |
| Revenge Porn Helpline | Cefnogi goroeswyr camdriniaeth trwy ddelweddau | 0345 6000 459 |
| Stop it Now! | I unrhyw un sy'n poeni am gamdrin plant gan gynnwys y sawl sy'n poeni am eu meddyliau neu eu hymddygiad eu hunain | 0808 1000 900 |

# Geirfa

*ADUS—Adolygiad Diogelu Unedig Sengl*
*AOCM—Anffurfio Organau Cenhedlu Menywod*
*CEDAW—Confensiwn ar Ddileu pob ffurf o Gamwahaniaethu*
*CHTh—Comisiynydd Heddlu a Throsedd*
*CRhB—Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant*
*Ddomestig a Thrais Rhywiol*
*GEG—Gwasanaeth Erlyn y Goron*
*HDC—Heddlu De Cymru*
*IDVA/ISVA/IPA—Eiriolwr Trais Domestig/Rhywiol Annibynnol/ Eiriolwr Personol Annibynnol*
*IRIS—Adnabod ac Atgyfeirio i Wella Diogelwch*
*LHDTC+-Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol, Trawsrywiol a Cwiar*
*MAPPA—Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd*
*MARAC—Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg*
*MASH—Hwb Diogelu Amlasiantaethol*
*NRM—Mecanwaith Cyfeirio Cenedlaethol*
*NTF—Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol*
*PAP—Profiadau Andwyol mewn Plentyndod*
*yn erbyn Menywod*
*PPN—Rhybudd Amddiffyn y Cyhoedd*
*PSE—Addysg Bersonol a Chymdeithasol*
*SARC—Canolfan Cyfeirio Ymosodiadau Rhywiol*
*TSA—Trais Seiliedig ar Anrhydedd*
*WDASV—Trais yn Erbyn Menywod, Camdriniaeth*
*WASPI—Cytundeb Cymru ar Rannu Gwybodaeth Bersonol*

# Dyddiadau Allweddol i'ch Dyddiadur

| | |
|---|---|
| Wythnos Gyntaf Chwefror | Wythnos Ymwybyddiaeth Trais Rhywiol |
| 6 Chwefror | Diwrnod Rhyngwladol Dim Goddef Anffurfio Organau Cenhedlu Menywod |
| 8 Mawrth | Diwrnod Rhyngwladol y Menywod |
| 18 Mawrth | Diwrnod Ymwybyddiaeth Cenedlaethol Camfanteisio Rhywiol ar Blant (CRhB) |
| 18 Ebrill | Diwrnod Ymwybyddiaeth Cenedlaethol o Stelcian |
| Mai | Wythnos Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl |
| 14 Mai | Diwrnod Rhyngwladol y Plant |
| 17 Mai | Diwrnod Rhyngwladol yn erbyn Homoffobia a Thrawsffobia |
| 14 Gorffennaf | Coffadwriaeth Dioddefwyr Trais Seiliedig ar Anrhydedd |
| 1 Hydref | Diwrnod Rhyngwladol Pobl Hŷn |
| 10 Hydref | Diwrnod Cynhwysiant y Byd |
| 18 Hydref | Diwrnod Gwrth-gaethwasiaeth |
| 19 Tachwedd | Diwrnod Rhyngwladol y Dynion |
| 20 Tachwedd | Diwrnod Hawliau Plant / Diwrnod Plant y Byd |
| 25 Tachwedd | Diwrnod Rhyngwladol Dileu Trais yn Erbyn Menywod / Diwrnod Rhuban Gwyn |
| Tachwedd | Wythnos Diogelu Cenedlaethol |
| 3 Rhagfyr | Diwrnod Rhyngwladol Pobl Anabl |
| 10 Rhagfyr | Diwrnod Hawliau Dynol |
| 17 Rhagfyr | Diwrnod Rhyngwladol Dileu Trais yn erbyn Gweithwyr Rhyw |

# Cyfeiriadau

1. Crenshaw, K. (1989) Demarginalizing the Intersection of Raceand Sex: A Black Feminist Critique of Antidiscrimination Doctrine, Feminist Theory and Antiracist Politics. University of Chicago Legal Forum1989:139–67
2. Kelly, L., Sharp, N. and Klein, R. (2014) Finding the Costs of Freedom. How women and children rebuild their lives after domestic violence. London: CWASU
3. Mews, A., Di Bella, L., & Purver, M. (2017) Impact evaluation of the prison-based Core Sex Offender Treatment Programme. Ministry of Justice Analytical Series
4. Bowen, R, Redman, S. Swindells, K. & Herrmann, T. (2021) Sex Workers Too: Summary of Evidence for VAWG 2020-24 Consultation. Manchester: NUM
5. Jovanovski, N., & Tyler, M. (2018). “Bitch, You Got What You Deserved!”: Violation and Violence in Sex Buyer Reviews of Legal Brothels. Violence Against Women, 24(16), 1887–1908.
6. Brooks, O., Burman, M., Lombard, N., McIvor, G., Stevenson-Hasgings, L., and Kyle, D. (2014) Violence Against Women: Effective Interventions and Practices with Perpetrators: A Literature Review. Project Report. Scottish Centre for Crime and Justice Research, Glasgow.
7. Everyone’s Invited (n.d.) A Place for Survivors to Share their Stories. [Online]. Available from: https://www.everyonesinvited.uk (accessed 17th January 2023)
8. Welsh Women's Aid (2020) "I Trust Them": Children and Young People in Wales: Sources of resilience in the community.
9. Jay, A., Evans, M., Fran, I. and Sharpling, D. (2022) The Report of the Independent Inquiry into Child Sexual Abuse. Ordered by the House of Commons to be printed 20 October 2022
10. Radford, L. et al. (2011). Child Abuse and Neglect in the United Kingdom Today. London: National Society for the Prevention of Cruelty to Children.
11. McNeish, D. and Scott, S. (2018) Key messages from research on intra-familial child sexual abuse. Essex: CSACentre.
12. Long, J., Harvey, H., Wertans, E. Rosie, A., Harper, K., Elliott, K. and Brennan, D (2020) UK Femicides 2009-2018. Femicide Census.
13. Parliamentary Committee (2018) Sexual Harassment in the workplace. [online] available at Sexual harassment in the workplace - Women and Equalities Committee - House of Commons (parliament.uk) (accessed 19th January 2023)
14. Welsh Women's Aid (2021) No Grey Area - Experiences of Workplace Sexual Harassment.
15. TUC (2018) Domestic Violence and the Workplace. A TUC survey report.
16. Walby, S (2009) The cost of domestic violence: update 2009. Lancaster University.
17. APPG for UN Women (2021) Prevalence and reporting of sexual harassment in UK public spaces. [online] available at APPG-UN-Women-Sexual-Harassment-Report_Updated.pdf (unwomenuk.org) (accessed on 2nd February 2023)
18. Estyn (2021) ‘We don’t tell our teachers’– experiences of peer-on-peer sexual harassment among secondary school pupils in Wales. [online] available at Supporting Resources: References | Estyn (gov.wales)(accessed 7th February 2023)
19. Vera-Grey, F. (2018) The Right Amount of Panic. How women Trade Freedom for Safety. Bristol: Bristol University Press.
20. ONS (2022] Opinions and Lifestyle Survey. [online] available at Perceptions of personal safety and experiences of harassment, Great Britain - Office for National Statistics (10th February 2023)

21. Vera-Grey, F and McGlynn, C. (2021) VAWG Principles for the Online Safety Bill. [online] available at Online-Safety-Bill-Full-Brief-final.pdf (endviolenceagainstwomen.org2021.uk) (accessed 26th January 2023)
22. Carnegie UK (2022) GDWe: A spotlight on democratic wellbeing, Fife: Carnegie United Kingdom Trust.
23. Amnesty International (2017) Social media can be a dangerous place for UK women [online] available at OVAW poll report.pdf (amnesty.org.uk) (accessed 7th February 2023).
24. European Women's Lobby (2017) Her Net Her Rights – Mapping the state of online violence against women and girls in Europe.
25. Amnesty International (2018) Troll Patrol Findings [online] Crowdsourced Twitter study reveals shocking scale of online abuse against women - Amnesty International (accessed 7th February 2023).
26. Monckton-Smith, J., Szymanska, K. and Haile, S. (2017) Exploring the Relationship between Stalking and Homicide. Project Report. University of Gloucestershire in association with Suzy Lamplugh Trust, Cheltenham.
27. The Traveller Movement (2022) The Importance of accurate ethnic monitoring and data inclusion for GRT communities
28. The Traveller Movement (2022) A Good Practice Guide: Improving service provision for Gypsy, Roma and Traveller domestic abuse survivors.
29. Brown, J and Mutebi, N (2020) Gang associated girls (Debate Pack)[online] available at Gang associated girls - House of Commons Library (parliament.uk) (accessed 9th February 2023)
30. Agenda (2020) Agenda Briefing: Women and girls facing multiple disadvantage.
31. Agenda (2020) Agenda Briefing: Women and girls who are homeless
32. Agenda (2020) Agenda Briefing: Women and girls in contact with the criminal justice system.
33. Hester, M., Mulvihill, N., Matolcsi, A., Sanchez, A. and Walker, S-J. (2019) The nature and prevalence of prostitution and sex work in England and Wales today. Bristol: Centre for Gender and Violence Research (University of Bristol).
34. Brooks-Gordon, B., Mai, N., Perry, G., & Sanders, T. (2015). Production, Income, and Expenditure in Commercial Sexual Activity as a measure of GDP in the UK National Accounts. Report for Office of National Statistics; Kinnell, H. (1999) 'Sex Workers in England and Wales: Europap-UK Briefing Paper for Department of Health, National Sexual Health Strategy'.EUROPAP; Pitcher, J. (2015a). Direct sex work in Great Britain: reflecting diversity. Graduate Journal of Social Science, 11(2), 76–100.
35. Mulvihill, N. (2019). Is it time to drop the term 'prostitution' from policy discourse? Journal of Gender-Based Violence, 3(3), 385-393. https://doi.org/10.1332/239868019X15682997312551
36. SafeLives (2016) A Cry for Health: Why we must invest in domestic abuse services in hospitals.
37. Oram, S., Khalifeh, H. and Howard, LM. Violence Against Women and Mental Health. The Lancet Psychiatry, 4(2), pp. 159-170.
38. Oliver, R., Alexander, B., Roe, S and Wlasny, M. (2019) The economic and social costs of domestic abuse. [online] available at The economic and social costs of domestic abuse (publishing.service.gov.uk) (accessed 15th January 2023)

